Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Cynllun Busnes 2016/17

Cynnwys

Crynodeb gweithredol	3
Rhagair ar y cyd	4
Uchafbwyntiau o flwyddyn fusnes 2015/16	6
Y tirlun a'r bylchau	**8**
Rhaglenni gwaith 2016/17 ar gyfer pob nod	**24**
Pennod 1: cyflenwi trwy eraill	26
Pennod 2: mynediad cynt ac ehangach at gyngor ar ddyledion	35
Pennod 3: mwy o bobl yn cyllidebu ac yn cynilo	39
Pennod 4: gwella mynediad at arweiniad a chyngor	41
Pennod 5: ehangu a gwella addysg ariannol	43
Effaith a chyllidebau	**46**
Pennod 6: mesur ein heffaith	47
Pennod 7: crynodeb adnoddau 2016/17	50
Cenhedloedd datganoledig – sut y byddwn yn gwneud gwahaniaeth ar draws y DU	**56**
Pennod 8: Gogledd Iwerddon	57
Pennod 9: Yr Alban	59
Pennod 10: Cymru	62
Atodiadau	**65**
Atodiad 1: Risgiau a materion	**66**
Atodiad 2: Ymgynghori â rhanddeiliaid	**68**

Crynodeb gweithredol

Yn 2016/17 bwriadwn:

- barhau i **gyflenwi ar ein hamcanion statudol** i helpu pobl i reoli eu harian yn well, ac i wella cyngor ar ddyledion
- adeiladu **cytundeb am y bylchau yn y tirlun, ac adeiladu tystiolaeth gadarn o'r hyn sy'n gweithio,** mewn ymyraethau i wella penderfyniadau ariannol
- dechrau'r **trawsnewidiad i'r corff cynghori ariannol newydd,** i'w wneud mor berthnasol a chost effeithiol â phosibl, trwy gynllunio gofalus gyda Thrysorlys ei Mawrhydi a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Rydym wedi trefnu ein cynllun o amgylch ein pum prif faes gweithgaredd ar gyfer 2016/17:

1. **Cyflenwi trwy eraill:** Byddwn yn cyd-drefnu'r sefydliadau niferus sy'n cyfrannu at wella gallu ariannol - buddsoddi £7m i ariannu treialon a chynlluniau peilot sy'n ychwanegu at eu sylfaen dystiolaeth ynglŷn â'r 'hyn sy'n gweithio'.
2. **Mynediad cynt ac ehangach at gyngor ar ddyledion**: Byddwn yn ariannu help i 425,000 o bobl orddyledus fel bod modd iddynt gael mynediad at gyngor o ansawdd uchel, am ddim - 15% yn fwy nac yn 2015/16. Byddwn yn cynnal cyfres o brofion gyda phobl orddyledus wedi'u cynllunio i'w hannog i geisio cyngor yn gynt.
3. **Mwy o bobl yn cyllidebu ac yn cynilo:** Byddwn yn creu partneriaeth gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i gynnig offeryn cyflym ac am ddim i dderbynyddion Credyd Cynhwysol i'w helpu gyda chyllidebu eu cartref. Byddwn yn cynnal rhaglenni peilot sy'n profi ffyrdd arloesol o annog pobl i gynilo, sy'n targedu dau o'n segmentau cwsmeriaid mwyaf heriol.
4. **Gwella mynediad at arweiniad a chyngor:** Byddwn yn dechrau ail-lunio ein sianeli uniongyrchol yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn *Adolygiad Arweiniad Ariannol Cyhoeddus: cynnig i'w ymgynghori* y Llywodraeth. Byddwn yn rhoi'r gorau i'r holl farchnata, ond byddwn yn parhau i fodloni galw naturiol a chynnal bodlonrwydd cwsmeriaid ar gyfer ein gwasanaethau uniongyrchol.
5. **Ehangu a gwella addysg ariannol:** Byddwn yn cynnal treialon hapbrofion dan reolaeth, yn dadansoddi astudiaeth carfan fawr a mapio darpariaeth addysg ariannol. Byddwn yn cyfrannu'r rhain at sylfaen dystiolaeth gynyddol, gan godi'r bar ar sut y bydd anghenion gallu ariannol plant a phobl ifanc yn cael eu gwasanaethu yn yr ysgol ac yn y cartref.

Byddwn yn cyflawni'r holl nodau uchelgeisiol hyn o fewn **cyllideb wedi'i gostwng yn sylweddol ar gyfer 2016/17 (mae'n £6.1m yn is na'r llynedd),** wrth gynyddu swm yr arian sy'n mynd i reng flaen cyngor ar ddyledion.

Mae ein cynllun yn nodi **18 o ddangosyddion perfformiad allweddol** y byddwn yn eu defnyddio i olrhain ein cynnydd ar draws ystod eang o weithgareddau.

Rhagair ar y cyd gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Ceir consensws eang bod gwella gallu ariannol y DU yn her hanfodol, un sy'n effeithio ar filiynau o bobl. Mae un o bob chwe oedolyn yn orddyledus. Nid yw pedwar o bob deg oedolyn yn teimlo bod eu cyllid o dan reolaeth lawn. Nid yw un o bob pump yn gallu darllen cyfriflen banc. Ac mae gan bedwar o bob deg lai na £500 o gynilion. Dim ond awgrym yw'r ffigurau hyn, o'n hymchwil, o effaith problemau ariannol ar fywydau bob dydd; mae cysylltiadau clir rhwng yr anawsterau ariannol gwaethaf â straen, pryder, salwch meddwl a theuluoedd yn methu.

Mae'n hawdd gweld felly y byddai gwelliannau o fudd cadarnhaol nid yn unig i fywydau unigolion, ond i wasanaethau iechyd a chymdeithasol eraill. A bydd unigolion galluog yn ariannol yn dueddol o ddefnyddio mwy o gynnyrch ariannol (a rhai mwy gwerthfawr). Felly rydym yn credu yn angerddol y byddai newid er gwell yn sgiliau rheoli ariannol y genedl yn dod â buddion i unigolion, cymdeithas a busnesau. O fewn y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi llwyddo i gael dros 50 o sefydliadau dylanwadol i gyfuno eu hymdrechion o fewn Strategaeth Gallu Ariannol hirdymor, ledled y DU, i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Yn ystod yr un cyfnod mae dau ddatblygiad allanol mawr wedi bod sy'n effeithio ar y Gwasanaeth Cynghori Ariannol. Ym mis Mawrth 2015, cyhoeddodd Christine Farnish ei Hadolygiad Annibynnol. Wrth eirioli achos gallu ariannol, fe heriodd ein ffordd o feddwl ynglŷn â rôl sianeli cyflenwi uniongyrchol. Mewn ymateb, fe wnaethom gynnal dadansoddiad manwl o anghenion ac ymddygiad 5,000 o ddefnyddwyr ac, wrth fapio hyn yn erbyn yr hyn y gall defnyddwyr gael mynediad ato ar draws y farchnad, fe wnaethom ddechrau ein hymdriniaeth llanw bylchau.

Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd y Llywodraeth gyfres o gynigion mewn ymateb i'r ymgynghoriad Arweiniad Ariannol Cyhoeddus. Roedd hyn yn adeiladu ar argymhellion Christine Farnish, ac yn cefnogi ei barn bod angen arweinyddiaeth a chefnogaeth hirdymor ar gyngor ar ddyledion ac arweiniad ariannol gan gorff statudol a strategol. Cyhoeddwyd y byddai'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn cael ei ddisodli ym mis Ebrill 2018, gan gorff newydd fydd â'r cyfrifoldeb o roi'r grym i ddefnyddwyr i wneud penderfyniadau ariannol mwy effeithiol. Yn y cyfamser, byddwn wrth gwrs yn bodloni ein cylch gwaith statudol, fel y mae cyhoeddiad y Llywodraeth yn amlinellu.

Yn dilyn cyhoeddiad y Llywodraeth, rydym wedi adolygu ein cynllun busnes drafft 2016/17 er mwyn i ni allu atal neu arafu ein gweithgareddau sy'n anghyson â'r cyfeiriad yn y dyfodol. Rydym yn gweld cenhadaeth driphlyg ar gyfer ein gwasanaeth ar gyfer y ddwy flynedd sy'n weddill o'i fodolaeth:

- Yn gyntaf, **parhau i gyflenwi ein hamcanion statudol** i helpu pobl i reoli eu harian yn well, ac i wella cyngor ar ddyledion.
- Yn ail, **adeiladu consensws am y bylchau yn y tirlun arweiniad ariannol**, a **thystiolaeth gadarn o'r hyn sy'n gweithio** mewn ymyraethau i wella gallu ariannol.
- Yn olaf, sicrhau bod y **trawsnewidiad i'r corff newydd mor cost effeithiol â phosibl**, trwy gynllunio gofalus gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi wrth iddi arwain proses, ochr yn ochr â throsolwg parhaus o'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Andy Briscoe
Cadeirydd,
Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Caroline Rookes
Prif Weithredwr,
Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Byddwn yn parhau i helpu defnyddwyr trwy ein sianeli uniongyrchol, gan gynnwys miliynau o bobl trwy ein gwefan. Ond byddwn yn cau'r sianel a oedd â'r gost uchaf i'w darparu - wyneb yn wyneb - ac ni fyddwn mwyach yn gwneud buddsoddiadau seilwaith hirdymor yn y sianeli sy'n weddill, nac yn eu marchnata. O ganlyniad i hynny, rydym bellach yn gallu cyflymu ein buddsoddiad i gynlluniau peilot ac ymyraethau i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth am yr 'hyn sy'n gweithio', gan ymdrin ag ystod o grwpiau cynulleidfa, dulliau ymgysylltu a phenderfyniadau ariannol. Bydd y cynlluniau peilot hyn hefyd yn llifo arian i reng flaen ystod eang o sefydliadau. Byddwn yn sicrhau eu bod yn cynnwys y lefel gywir o ddilyn i fyny i werthuso pa rai o'r bobl y maen nhw wedi'u helpu sydd wedi profi buddion hirdymor.

O fewn y Gwasanaeth Cynghori Ariannol byddwn yn sefydlu rhaglen bontio. Daw hyn wedyn o dan arweinyddiaeth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, yn gweithio ochr yn ochr â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Nod y grŵp hwn fydd helpu Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wrth iddo gynllunio ac amlinellu deddfwriaeth ar gyfer y corff arweiniad ariannol newydd. Bydd y grŵp hefyd yn sicrhau bod modd i'r corff newydd gael perthynas hynod gyflenwol gyda'r Corff Pensiynau newydd sydd hefyd wedi'i gynllunio gan y Llywodraeth, a bydd yn egluro pa asedau a rolau a fydd eu hangen yn ddiweddarach gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Ynghyd â'r newidiadau hyn, byddwn yn parhau i fodloni ein swyddogaeth statudol trwy ystod o weithgareddau eraill a ddisgrifir yn fersiwn ymgynghori ein cynllun busnes, a dderbyniodd gefnogaeth sylweddol gan randdeiliaid yn ystod ein proses ymgynghori. Mae'r rhain yn cynnwys:

- arwain a chefnogi'r Strategaeth Gallu Ariannol ar gyfer y DU gyda chefnogaeth ymgynghorol, ysgrifenyddiaeth, Canolfan Dystiolaeth a fframweithiau canlyniadau;
- cynorthwyo 425,000 o bobl gyda chyngor ar ddyledion trwy'r sefydliadau arweiniol yr ydym mewn partneriaeth â hwy;
- hyrwyddo cyfrifon banc sylfaenol a chymharu cyfrifon;
- cefnogi derbynyddion Credyd Cynhwysol gyda chyllidebu; a
- buddsoddi yn addysg ariannol plant a phobl ifanc, gyda nod hirdymor o'i roi ar sylfaen gynaliadwy, boed hynny yn yr ysgol, yn y gymuned, neu'n digwydd gyda rhieni yn y cartref.

Trwy 12 mis yn llawn digwyddiadau rydym yn falch ein bod wedi cadw ffocws cryf ar gyflenwi yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a amlinellir yn ein Cynllun Busnes 2015/16. Rydym wedi bod yn cyrraedd mwy o bobl nag erioed o'r blaen, er gwaethaf gostyngiad o 20 y cant yn ein cyllideb arweiniad ariannol. Rydym wedi parhau i godi nifer y sesiynau cyngor ar ddyledion o ansawdd uchel yr ydym yn eu hariannu, wrth ostwng cost y sesiwn.

Yn y pendraw bydd gwaith o wella gallu ariannol ac annog mwy o bobl i geisio cyngor ar ddyledion yn gofyn am ymdrechion wedi'u cydlynu gan y sector cyfan. Mae heriau o'r fath yn fwy nag unrhyw gwestiwn neu ddadl strwythurol. Rydym yn gweld ein rôl wrth alluogi hyn rhwng yn awr a 2018 fel un sy'n cefnogi, yn annog ac yn cynghori'r holl bartneriaid â diddordeb; ac fel adnabod a llanw bylchau sy'n hanfodol i'r genhadaeth. Edrychwn ymlaen at weithio gyda'n holl bartneriaid, a gyda'r Llywodraeth a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol, i gyflawni'r nodau hyn.

Hoffem hefyd bwysleisio'n gryf ein diolch i staff y Gwasanaeth Cynghori Ariannol am eu proffesiynoldeb a'u gwasanaeth ymroddedig parhaus.

Yn ystod ein blwyddyn ariannol ddiweddaraf (2015/16) fe wnaethom helpu miliynau o bobl i wneud y mwyaf o'u harian

Fe gysylltwyd â ni
26 miliwn
o weithiau gan gwsmeriaid*

cynnydd o 17% o 2014/15, er gwaethaf gostyngiad yn y gwariant marchnata o fwy na 37% dros yr un cyfnod

Fe wnaethom helpu cwsmeriaid i gymryd camau
16.9 miliwn
o weithiau

42% yn fwy nac ar yr un pwynt yn ystod y flwyddyn ariannol 2014/15

Lefel uchel o fodlonrwydd i gwsmeriaid

Dywedodd 86%
bod y Gwasanaeth Cynghori Ariannol wedi bod o gymorth iddynt.

Dywedodd 91%
y byddent yn defnyddio ein gwasanaeth eto



Dywedodd 88%
y byddent yn argymell ein gwasanaeth i eraill.

Fe wnaethom fodloni ein haddewid i **weithio'n llawer agosach gyda gweddill y sector**, gan gydweithio ar nodau cyffredin yn ystod y flwyddyn.



strategaeth sector 10 mlynedd

Fe wnaethom weithio gyda'r Bwrdd Gallu Ariannol i lansio strategaeth deng mlynedd o hyd i wella gallu pobl i reoli arian yn dda o ddydd i ddydd, paratoi ar gyfer a rheoli digwyddiadau bywyd, a delio gydag anawsterau ariannol.

Cysylltu cwsmeriaid â'r diwydiant

Mae ein Cyfeiriadur Cynghori ar Ymddeoliad bellach yn cynnwys 6,354 o gynghorwyr ariannol ac wedi helpu pobl 82,378 o weithiau i chwilio am gynghorydd, i helpu i wneud synnwyr o ryddid pensiynau a mwy.

Siopa call

Mewn ffordd newydd o weithio, fe wnaethom weithio gyda Wrap a MySupermarket i greu blogiau a chynnwys dwyochrog ynglŷn ag arbed arian trwy osgoi gwastraff bwyd, ynghyd â sut i fod yn siopwr call, ar gyfer yr ymgyrch #SurviveJanuary.

*Casglwyd yr ystadegau a gyflwynir hyd at 31 Mawrth 2016 oni nodir yn wahanol. Casglwyd ystadegau ar gyfer ein harolwg gweithredu cwsmeriaid diweddaraf ar 1 Ionawr 2016.

Defnyddiwyd ein hofferyn canfod cyngor ar ddyledion **340,000** o weithiau

Mae'n helpu pobl i gael mynediad at wasanaethau cynghori ar ddyledion am ddim ar-lein ac ar y ffôn, neu ganfod gwasanaethau wyneb yn wyneb yn agos atynt.

Fe wnaethom lansio ein **Cynllun Adolygu Cyfoedion** i adnabod a rhannu arfer gorau ar draws y 230 o sefydliadau cyngor ar ddyledion sy'n defnyddio ein harian yng Nghymru a Lloegr



Fe wnaethom gefnogi pobl sy'n cofrestru ar gyfer Cytundebau Gwirfoddol Unigol gyda sgiliau ariannol hirdymor

Trwy weithio gyda busnes wedi'i leoli yng Ngogledd Iwerddon, Aperture, fe wnaethom greu rhaglen beilot genedlaethol sy'n anelu at oresgyn rhai o'r heriau ariannol cyffredin y mae cleientiaid yn eu hwynebu pan fyddant yn ymrwymo i Gytundeb Gwirfoddol Unigol.

Fe wnaethom ariannu mwy na **380,000** o sesiynau cyngor ar ddyledion**

Dywedodd 78%
bod y Gwasanaeth Cynghori Ariannol wedi bod o gymorth iddynt.





Llwyddodd 86%
i ostwng eu dyled o fewn chwe mis.

**Sesiynau a gyflwynwyd hyd at ddiwedd Mawrth 2016 gan bartneriaid yn defnyddio cyllid y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Y tirlun a'r bylchau

Yn ein fersiwn ymgynghori, blaenorol o'r Cynllun Busnes hwn, fe wnaethom amlinellu sut y bwriadwn weithredu newidiadau sylfaenol i ddod yn sefydliad mwy strategol wedi'i seilio ar dystiolaeth, yn canolbwyntio ar nifer fechan o fylchau wedi'u hadnabod yn glir. Fe wnaethom amlinellu Strategaeth Gorfforaethol tair blynedd o hyd i fynd â ni hyd at 2019.

Er bod cyhoeddiad y Llywodraeth sy'n nodi y bydd corff arweiniad ariannol newydd yn dod i rym yn 2018 yn golygu nad oes gofyniad ar gyfer strategaeth hirdymor, mae gennym genhadaeth ar gyfer y ddwy flynedd sy'n weddill o'n bodolaeth. Rydym yn gweld mae ein dyletswyddau hanfodol yn ystod y cyfnod hwnnw fydd:

- parhau i gyflenwi ar ein hamcanion statudol i helpu pobl i reoli eu harian yn well, ac i wella cyngor ar ddyledion;
- adeiladu consensws am y bylchau yn y tirlun arweiniad ariannol, a thystiolaeth gadarn o'r hyn sy'n gweithio mewn ymyraethau i wella gallu ariannol; a
- gwneud y trawsnewidiad i'r corff newydd mor gost effeithiol â phosibl, trwy gynllunio gofalus gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Gan fod ein strategaeth gorfforaethol wedi'i seilio ar ddadansoddi'r tirlun ymddygiad defnyddwyr, credwn y bydd yr anghenion y mae'n eu hadnabod yn wir waeth pa sefydliad a fydd yn gyfrifol am eu cyflenwi. Rydym gan hynny wedi amlinellu yn yr adran hon hanfod y dadansoddiad hwnnw. Mae'n llunio ein gwaith ar gyfer y ddwy flynedd nesaf ac rydym yn ei gynnig yn berthnasol i ffordd o feddwl y Llywodraeth am ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r Corff Arweiniad Ariannol Newydd.

Y mewnbynnau i'n ffordd o feddwl

Ar dudalen 20 rydym yn amlinellu pum nod allweddol sy'n ganolog i'n ffordd o feddwl am fylchau yn y tirlun. Rydym wedi penderfynu ar y pum nod hyn trwy ystyried nifer o yrwyr:

- y cyfeiriad a'r cylch gwaith a roddir trwy statud ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol
- anghenion y bobl yr ydym yn eu gwasanaethu, trwy lens model segmentiad cwsmeriaid
- y cyfleoedd sydd gennym i weithio gyda hwy a thrwy bartneriaid, a gweledigaeth ar y cyd y Strategaeth Gallu Ariannol ar gyfer y DU (byddwn weithiau'n galw hyn yn 'Strategaeth y DU' ar gyfer byrdra)
- Adolygiad Annibynnol ar ein gwasanaeth, a
- dadansoddiad bwlch sy'n deillio o edrych ar ymddygiad ariannol gwahanol segmentau cwsmeriaid, a darpariaeth gyfredol i'w helpu.

Mewnbynnau i'n ffordd o feddwl: ein sylfaen statudol

Sefydlwyd y Gwasanaeth Cynghori Ariannol trwy ddeddf gyda thair rhwymedigaeth statudol craidd:

- cyfoethogi dealltwriaeth aelodau'r cyhoedd o faterion ariannol
- cyfoethogi gallu aelodau'r cyhoedd i reoli eu harian eu hunain[1]
- gwella ansawdd, argaeledd a chysondeb cyngor ar ddyledion ar draws y DU.[2]

Yn *Adolygiad Arweiniad Ariannol Cyhoeddus: cynnig i'w ymgynghori*[3] y Llywodraeth, disgrifiwyd yr amcanion statudol hyn 'heb eu diffinio'n ddigonol'. Bwriada'r Llywodraeth lunio'r amcanion statudol ar gyfer y corff arweiniad ariannol newydd ar sail ei ymgynghoriad. Croesawn nodau'r Llywodraeth o sefydlu'r corff newydd gydag amcanion mesuradwy ac wedi'u diffinio'n dynn a bydd yn gweithio gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i helpu'r Llywodraeth i gyflawni'r nod hwn.

Ar gyfer gweddill bodolaeth y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, ystyriwn y pum nod a fynegir yn y bennod hon fel dehongliad o'n cylch gwaith statudol, ar ôl derbyn barnau cadarnhaol ar y cyfan ohonynt yn ystod y broses ymgynghori a gynhaliwyd gennym yn ystod drafftio'r Cynllun Busnes hwn.

1. Mae'r ddau yma yn fframio'r trethi a godir i ariannu arweiniad ariannol.
2. Mae hwn yn fframio'r trethi sy'n ariannu cyngor ar ddyledion.
3. Adolygiad Arweiniad Ariannol Cyhoeddus: cynnig i'w ymgynghori (Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, Mawrth 2016).

Mewnbynnau i'ch ffordd o feddwl: y bobl yr ydym yn eu gwasanaethu

Nid yw'n cylch gwaith yn gosod unrhyw gyfyngiad ar bwy y dylem eu gwasanaethu, ond nid yw'n hadnoddau yn ymestyn i wasanaethu pob un o'r 50 miliwn o oedolion yn y DU; ac nid yw pawb angen ein help. Nid oes gan rai unrhyw angen, ac mae eraill eisoes yn cael eu gwasanaethu gan sefydliadau eraill.

Gan hynny rydym wedi canolbwyntio ein hymdrechion a chyllid ar y bobl sydd angen ein help fwyaf ac a all elwa fwyaf o'r hyn yr ydym yn ei gynnig.

Rydym o'r farn bod corff statudol megis Gwasanaeth Cynghori Ariannol angen taro cydbwysedd rhwng tri chategori angen cystadleuol:

- helpu pobl sydd eisoes mewn anhawster ariannol difrifol (prif nod ein gwasanaeth cyngor ar ddyledion)
- cynnal gwaith ataliol i sicrhau bod gan oedolion, plant a phobl ifanc y gallu i osgoi problemau ariannol difrifol yn y lle cyntaf
- helpu pobl nad oes ganddynt broblemau ariannol, ond a allai fod yn gwneud mwy o'u harian o wneud penderfyniadau gwahanol.

Er mwyn ein helpu i benderfynu ble i ganolbwyntio ein hymdrechion, fe wnaethom ddatblygu model segmentu ar gyfer poblogaeth oedolion yn y DU, sy'n rhannu'r boblogaeth yn ôl eu lefelau o wydnwch ariannol, neu'r gallu i wrthsefyll sioc ariannol. Credwn fod y segmentiad hwn wedi bod yn offeryn pwerus wrth ystyried ein cylch gwaith statudol oherwydd:

- gellir ei gyfrifo yn hawdd trwy ffynonellau data lluosog (yn y gorffennol ac yn y presennol, wedi'u creu gennych chi ac eraill), heb yr angen am ymchwil pwrpasol yn dibynnu ar set gwestiynau unigryw;
- mae'n mesur canlyniad dymunol iawn (defnyddwyr yn saffach rhag anhawster ariannol); a
- chanlyniad tebygol yw gwell gallu ariannol, sef yr effaith mwyaf dymunol ymhlith ein defnyddwyr.

Mae 'gwydnwch ariannol' yn y model hwn i bob pwrpas yn fesur cyfansawdd o'r berthynas rhwng incwm, cynilion, yswiriant a chynhyrchion amddiffyn, ochr yn ochr â sgiliau, gwybodaeth ac agweddau. Defnyddiwn y model i ofyn: *'Pe bai'r unigolyn hwn wedi derbyn sioc ariannol, pa mor gyflym y gallai hynny droi yn anhawster ariannol difrifol?'*

Daeth y data a fwydwyd i'r model gan CACI a ffynonellau eraill megis Arolwg Gallu Ariannol 2015,[4] sy'n golygu ei fod wedi'i seilio ar wybodaeth gyfredol iawn am amgylchiadau ariannol degau o filiynau o bobl dros 18 oed. Mae tair prif segment ac 15 o is-segmentau o fewn y model, fel y dangosir gan ffigwr 1 ar dudalen 12. Mae'r symudiad rhwng segmentau, wrth gwrs, yn gyfnewidiol. Gan fod rhai o'r is-segmentau yn gyffredinol wedi'u seilio ar oed, bydd pobl trwy ddiffiniad yn symud trwyddynt yn ystod eu hoes. Yn yr un modd, gallai digwyddiad bywyd annisgwyl achosi anhawster neu gyfle a fyddai'n newid dosbarthiad. Wrth i ni ddefnyddio'r model, disgwyliwn ddysgu mwy am symudiadau o'r fath a'u cynnwys yn y dylunio a chynllunio gwasanaeth yn y dyfodol.

Gan fod segmentiad cwsmeriaid wedi'i gynllunio i'n helpu ni i flaenoriaethu, yn ddefnyddiol mae wedi canolbwyntio trafodaethau sy'n gynhenid i unrhyw ffurf ar flaenoriaethu.

4. Y prif ffynonellau data oedd Arolwg Ymchwil Ariannol GfK a chronfa ddata Ocean CACI; fe wnaethom ychwanegu data o'r Arolwg Gallu Ariannol a gwblhawyd yn 2015. Gweler y 'Market Segmentation Technical Report' (Gwasanaeth Cynghori Ariannol, Mai 2016, ar ddod) yn www.moneyadviceservice.org.uk am ragor o fanylion.

Rydym yn cydnabod i lawer o bobl, mae gan y dewisiadau ariannol y maen nhw'n ei wneud wreiddiau achlysurol o fewn ffactorau macro-economaidd, neu benderfyniadau cymdeithasol a gwleidyddol sydd wedi'u penderfynu trwy etholiadau. Rhaid i ni gydnabod y rhain, ac osgoi barn ddiniwed y bydd gwella gallu ariannol yn diffodd problemau ariannol. Ar rai achlysuron, fe fydd; gan amlaf bydd effeithiau'r llwyddiant yn ffurfio rhan o lun ehangach yn unig. Mae'r dystiolaeth yr ydym yn ei chasglu ar gael yn eang, ac os oes data i'w ganfod o'i fewn sy'n pwyntio at achosion pwysig eraill, mae sefydliadau sy'n ymgyrchu dros ddewisiadau gwleidyddol yn rhydd i'w defnyddio yn ôl y gofyn. Ond credwn y byddai unrhyw rôl ymgyrchu yn gwbl amhriodol o fewn ein cylch gwaith statudol.

Rydym yn cydnabod hefyd mai natur unrhyw fodel o'r math hwn yw tynnu sylw at wahaniaethau yn y lefelau angen sydd gan bobl, ac i amlinellu cyffredinoliadau sy'n wir ar lefel boblogaeth, ond yn anochel sy'n symleiddio cymhlethdod cyfaddawdau anodd y mae'n rhaid i bobl eu gwneud am arian yn eu bywydau bob dydd. Wrth grynhoi ein hymatebion arfaethedig, rydym yn parchu ymreolaeth cwsmeriaid unigol, ac nid ydym yn beirniadu penderfyniadau unigol, ond rydym yn amlinellu'r hyn y credwn ni (ar gyfartaledd) fydd yn helpu pobl i wneud y mwyaf o'r arian sydd ganddyn nhw.

Ffigwr 1 - Trosolwg o'n model segmentu cwsmeriaid



- Gwydnwch ariannol isel
- Dibyniaeth uchel ar fudd-daliadau
- Diweithdra uchel neu weithio ar incymau isel iawn
- Lefelau cynilo isel iawn
- Lefelau uchel o orddyledusrwydd
- Tai cymdeithasol
- Amlder uwch o ysgaru / gwahanu ac anabledd

- Peth gwydnwch ariannol
- Teuluoedd C1C2 Gweithio
- Wedi morgeisi neu rentwyr preifat
- Incymau cyfartalog
- Peth cynilion, ond gwerthoedd isel i lawer
- Mae llawer yn ddibynnol ar gredyd gan gynnwys benthyciadau lluosog ac ad-daliadau gofynnol y cerdyn credyd
- Peth gorddyledusrwydd

- Mwy o wydnwch ariannol
- Incymau uwch
- Lefelau uwch o gynilion ac asedau
- Perchennog-breswylwyr yn bennaf

Nodyn 1: eir i'r afael â phlant a phobl ifanc ar wahân i'r segmentiad hwn

Mae'r segment **'mewn trafferth'** yn cynnwys 11.6 miliwn o oedolion o bob oed sydd ag incymau isel a thueddiad uchel i sociau ariannol. Rydym wedi rhoi'r enw 'mewn trafferth' i'r segment hwn i adlewyrchu'r ffit dynn iawn rhwng yr incwm y maen nhw'n ei dderbyn a'u gwariannau cartref hanfodol. Yn yr un modd â phob label o'r fath, mae'n llaw-fer, gyda'i gyfyngiadau. Wrth ddefnyddio unrhyw segmentiad, tasg allweddol yw deall amrywiaeth o fewn pob segment er mwyn i ni allu mynd i'r afael ag anghenion pobl mewn ffordd berthnasol ac wedi'i dargedu.

Mae ffigwr 2 isod yn dangos sut y mae'r data manwl yr ydym yn ei chadw o fewn ein model segmentiad wedi helpu i adnabod yr anghenion amrywiol hyn.

Yn nodweddiadol mae pobl yn y segmentiad hwn yn derbyn budd-daliadau'r wladwriaeth (a bydd mwy yn ddi-waith nac mewn unrhyw segmentau eraill); yn byw mewn tai cymdeithasol; ganddynt lefelau addysg is; a chanddynt lefelau isel o gynilion. Mae mwy o'r sengl ac wedi gwahanu yn y segmentau hyn nac eraill. Maen nhw ymhlith y bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas. Yn fwy nag unrhyw un o'r segmentau eraill, maen nhw'n debygol o fod angen y cyngor ar ddyledion yr ydym yn ei ariannu trwy ein partneriaid. Serch hynny:

- Mae nifer sylweddol o bobl yn y grŵp hwn yn fedrus wrth gyllidebu'r cartref (mae eu hincwm a'u gwariant yr un peth mwy neu lai, felly mae'r pwysau i gyllidebu yn dda yn sylweddol)
- Er ei fod yn amherffaith ac yn ddarniog, mae rhwyd ddiogelwch ariannol ac ehangach i helpu rhag ofn y byddai anhawster yn taro - ar ffurf budd-daliadau arian, tai cymdeithasol, ac ystod eang o sefydliadau'r sector cyhoeddus a gwirfoddol.

Ffigwr 2 - Fel enghraifft o'r data yr ydym yn ei chadw o fewn ein model segmentiad, mae'r trosolwg data 'mewn trafferth' yn dangos yr heriau a brofir gan y segment hwn



Mae'r segment **'gwasgedig'** yn 12.7 miliwn o oedolion sydd yn nodweddiadol yn ganol oed; yn gweithio; yn briod/perthynas; a chanddynt blant. Rydym wedi rhoi'r enw 'gwasgedig' ar y segment hwn i adlewyrchu'r pwysau ariannol ac anwadalrwydd ariannol y dywedasant y maen nhw'n ei deimlo. Maen nhw fel arfer yn byw mewn llety rhent neu ar forgais, felly maen nhw'n profi pwysau masnachol yn sgil cynnydd mewn rhent a chynnydd yn y cyfraddau llog. Ac yn gyffredinol mae gan bobl yn y segment hwn lefelau trawiadol o isel o gynilion: mae gan fwy na hanner llai na £500 yn y banc. O ystyried eu hymrwymiadau uchel, mae'r segment hwn felly yn ddifrifol o agored i sociau incwm. Serch hynny:

- Mae ganddynt lefelau uwch o addysg na'r segment 'mewn trafferth'. Oherwydd eu lefelau gwell o lythrennedd a rhifedd, maen nhw'n debygol o'i chael hi'n haws i gymryd, a gweithredu ar, help gyda rheolaeth ariannol.
- Oherwydd eu plant a'r teulu, mae'n debyg y bydd ganddynt yr angen a'r cymhelliad i sicrhau dyfodol mwy diogel a manteisio ar ryddid ariannol, hyd yn oed os nad ydynt yn gwybod sut i wneud hynny ac yn teimlo nad oes ganddynt yr amser i'w weithredu.

Ffigwr 3 - Mae'r segment cwsmeriaid 'gwasgedig' yn dangos yr heriau y mae 12.7m o bobl yn eu hwynebu.



Y segment **'cyfforddus'** yw gweddill poblogaeth yr oedolion. Mae hynny'n 24.5 miliwn o bobl o bob oed. Rydym wedi mapio is-segmentau gyda rhai gwahaniaethau rhyngddynt (yn amrywio rhwng 'cyfforddus' a 'chyfoethog'), ond yn fras mae'r grŵp hwn yn gydlynol. Rydym wedi enwi'r segment hwn yn 'cyfforddus' oherwydd fel arfer eu nodwedd diffinio yw faint o gynilion sydd ganddynt, a all weithredu fel byffer os ydynt yn profi sioc ariannol.

Ar y cyfan maen nhw'n debyg o fod â lefelau uwch o reolaeth dros eu harian hefyd; ond nid yn gyffredinol. Gyda'r grŵp hwn, mae heriau sylweddol yn parhau wrth helpu'r rheini sy'n cael eu hunain mewn dyledion argyfwng. Ond mae'r grŵp hwn yn amlwg yn fwy gwydn yn ariannol. Mae ganddo anghenion gwybodaeth ariannol sylweddol, gan ei fod yn ddefnyddiwr mwy gweithredol ar gynnyrch a gwasanaethau ariannol na'r ddau grŵp arall yr ydym wedi'u hadnabod.

Ffigwr 4 – Mae'r segment cwsmer 'cyfforddus' yn ymdrin â 24.5m o bobl. Mae'r graffig wybodaeth yn dangos y data yr ydym wedi'i chasglu am un o'r is-segmentau, 3.4m o bobl o fewn y 24.5m



Mae ein model segmentau wedi'i gynllunio i'n helpu ni i feddwl am nodweddion ac anghenion oedolion. Mae set gwahanol iawn o faterion yn wynebu **plant a phobl ifanc** ac ni fyddai wedi bod yn briodol ceisio casglu'r anghenion hyn trwy'r un model. Rydym yn diffinio plant a phobl ifanc yn gyffredinol fel y rheini sy'n iau na 18 oed a dal mewn addysg. Rydym hefyd yn cynnwys pobl fregus sy'n defnyddio gwasanaethau plentyndod, neu sydd o dan gyfrifoldeb statudol awdurdod lleol. Mae ein ffordd o feddwl am blant a phobl ifanc wedi'i lunio gan dystiolaeth bod gallu ariannol oedolion wedi'i lunio trwy gydol plentyndod a'r glasoed. Mae arferion ariannol yn dechrau gyda hunanreolaeth, ac fe all hyn (ac fe ddylai) gael ei ddatblygu o 3 oed i fyny. Nid oes gennym ar hyn o bryd segmentiad ffurfiol ar gyfer y grŵp oed 4-17 oed. Yn dilyn cyflenwi arolwg cenedlaethol i allu ariannol y rhai rhwng 4 a 17 oed yn ystod y flwyddyn busnes 2016/17, byddwn yn ceisio barnau a fyddai segmentiad yn ddefnyddiol ar gyfer y corff arweiniad ariannol newydd.

Ar draws ein holl nodau a segmentau, credwn fod **oedolion ifanc** rhwng 16 a 24 oed sydd wedi gadael ysgol neu leoliadau bregus megis gofal neu garchariad, neu wasanaethau plentyndod, angen ystyriaeth arbennig fel grŵp. Ochr yn ochr â phartneriaid o fewn gwasanaethau ariannol, Llywodraeth a'r sectorau ieuenctid neu fyfyrwyr, rhaid i ni weithio ar y cyd i sicrhau bod oedolion ifanc ar y pwynt o symud i annibyniaeth ariannol wrth gwblhau coleg, hyfforddiant, prifysgol, neu sy'n ddi-waith neu sy'n dibynnu ar fudd-daliadau, yn derbyn y gefnogaeth ychwanegol y mae ei hangen arnynt i sicrhau bod eu penderfyniadau ariannol cyntaf o ddydd i ddydd a thymor hwy yn cael effaith gadarnhaol ar eu bywydau. Rydym hefyd yn ystyried bod moment dechrau yn y gweithle, yn enwedig dechrau prentisiaeth, yn gyfle critigol i helpu oedolion ifanc i ddatblygu arferion ariannol a fydd yn eu rhoi ar y trywydd cywir i ddyfodol llwyddiannus.

Rydym yn derbyn bod gorgyffwrdd rhwng plant, pobl ifanc ac 'oedolion ifanc' yn yr ystyr nad oes pwynt amser penodol ble mae unigolion yn aeddfedu neu'u hanghenion yn newid.

Bydd gan **bobl yn ddiweddarach mewn bywyd** anghenion penodol hefyd ar gyfer gallu ariannol. Er bod rhai pobl hŷn sydd wedi ymddeol mewn sefyllfa weddol dda ar gyfer diogelwch ariannol, mae gan y rhan fwyaf foddion ariannol cyfyngedig a lleiafrif sylweddol ag incymau islaw'r llinell dlodi. Mae adnoddau'r rhan fwyaf o bobl hŷn yn sefydlog fwy neu lai, gan eu gwneud yn arbennig o fregus i siociau ariannol a achosir gan ddigwyddiadau megis profedigaeth, neu ymddangosiad angen am gefnogaeth ychwanegol neu ofal i fyw'n annibynnol. Yn ddiweddarach mewn bywyd gall iechyd corfforol sy'n dirywio a dirywiad gwybyddol hefyd gyflwyno heriau gallu ariannol. Mae rhyddid pensiwn wedi rhoi i'r rhai sydd wedi ymddeol o'r newydd gyfrifoldeb cynyddol i ymroi i reoli eu cynilion pensiwn. Mae'r cyfrifoldeb cynyddol hwn yn ei gwneud hi hyd yn oed yn bwysicach i bobl hŷn ystyried a chynllunio ymlaen yn hyderus ar gyfer cyfanrwydd eu hymddeoliad ac anghenion gwario yn y dyfodol.

Bydd rhai o'r grwpiau hyn yn cael eu gwasanaethu yn well gan wybodaeth ddigidol, bydd hi'n well cyrraedd eraill trwy bartneriaid. Gyda phob grŵp bydd angen i ni fod yn ymwybodol nid yn unig pa negeseuon a allai fod yn effeithiol, ond pa bryd y mae pobl yn fwy tebygol o fod yn barod i dderbyn negeseuon, pa un ai argyfwng ariannol yw'r anogwr neu'r cyfle i gynilo ar gyfer nod bywyd. Amlinellir y prif ffyrdd y bwriadwn wasanaethu gwahanol segmentau cwsmeriaid ym mhob un o'n pum nod (tudalen 25 ymlaen).

Mewnbynnau i'n ffordd o feddwl: y Strategaeth Gallu Ariannol ar gyfer y DU

Oherwydd bod arian yn fater cymhleth sy'n cyffwrdd â sawl rhan o fywyd pobl, ac oherwydd yn gyffredinol bod yn well gan bobl feddwl llai am arian ei hun a mwy am yr hyn y gall ei wneud ar eu cyfer, ni all unrhyw un o'n rhwymedigaethau statudol gael eu bodloni heb weithio ochr yn ochr ag ystod eang iawn o bartneriaid. Yn wir er bod y rhan fwyaf o economïau datblygedig, gan gynnwys y DU, wedi cydnabod bod angen am gynghrair o blaid defnyddwyr o'r rhai â diddordeb yn ymwneud â rheolaeth ariannol, un sy'n mynd y tu hwnt i gyfyngiadau llym rheoleiddio.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol wedi gweithio gyda mwy na 50 o sefydliadau arweiniol sy'n berthnasol i reolaeth ariannol a dyledion. Gyda'n gilydd rydym wedi dadansoddi heriau defnyddwyr sylfaenol, ac wedi amlinellu strategaeth deng mlynedd o hyd - Strategaeth Gallu Ariannol ar gyfer y DU. Lansiwyd hyn ym mis Hydref 2015.

Mae'r Strategaeth Gallu Ariannol ar gyfer y DU yn adlewyrchu uchelgeisiau clymblaid eang o sefydliadau sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i wella rheolaeth ariannol. Mae'n amlinellu'r problemau y bydd gwahanol gyrff yn gweithio arnynt, y dystiolaeth a'r gwerthusiad y byddant yn eu casglu, a'r gweithredoedd a'r rhaglenni y byddant yn eu sefydlu i wella gallu pobl i ddelio ag arian.

Yn ei *Adolygiad Arweiniad Ariannol Cyhoeddus: cynnig i'w ymgynghori*, fe wnaeth y Llywodraeth bwysleisio pwysigrwydd gallu ariannol, ond nododd hefyd nad y Strategaeth Gallu Ariannol ar gyfer y DU o reidrwydd yw'r ffordd y bydd y corff arweiniad ariannol newydd yn ei ddewis i ymgymryd â'i ddyletswyddau.

Yn amlwg, ystyriaeth bwysig a fydd yn rhaid i'r corff newydd ei ystyried yw llwyddiant, neu fel arall, Strategaeth y DU wrth ymfyddino'r sector rhwng yn awr ac Ebrill 2018. Yn ystod y ddwy flynedd nesaf bydd y Gwasanaeth Cynghori Ariannol gan hynny yn ymgymryd â'r rolau hyn i gefnogi llwyddiant Strategaeth y DU:

- Yn gyntaf, ni fydd y 'cartref' i Strategaeth y DU. Byddwn yn darparu sylfaen ysgrifenyddiaeth, llywodraethu a gwybodaeth i sicrhau bod modd i Strategaeth y DU symud ymlaen a llwyddo.
- Yn ail, byddwn yn darparu arweinyddiaeth yn y ffordd o feddwl. Byddwn yn comisiynu ac yn cyflenwi i Grwpiau Llywio Strategaeth y DU y dystiolaeth y mae ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau, a byddwn yn cynnig llais i'r cyhoedd mewn trafodaethau polisi a sgyrsiau cenedlaethol am arian. Mae gennym gyfleoedd rheolaidd hefyd i ddysgu gan eraill: mae gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, a gwledydd arweiniol o'i fewn megis Yr Iseldiroedd, Awstralia a Seland Newydd, gyfoeth o ddata a dysg sy'n hygyrch ynglŷn â sut y maen nhw'n mynd i'r afael â phroblemau gallu ariannol.
- Yn drydydd, byddwn yn anelu at fynd i'r afael â bylchau arbennig o bwysig a heriol nad ydynt wedi'u llanw gan eraill.

Mewnbynnau i'n ffordd o feddwl: yr Adolygiad Annibynnol

Cyflenwodd Christine Farnish Adolygiad Annibynnol o'n Gwasanaeth i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ym mis Mawrth 2015. Fe wnaethom ffurfio Panel Annibynnol o arbenigwyr i'n helpu i ystyried yn benodol ei hargymhellion yn ymwneud ag arweiniad ariannol. Roedd hwn yn cynnig rhai egwyddorion newydd am sut y dylem gynnal ein gwasanaeth. Dymunwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i aelodau'r panel am eu mewnbwn hynod ddefnyddiol, a oedd yn cynnwys trafodaeth heriol ond adeiladol. Yn gyffredinol, mae'r Adolygiad Annibynnol a'r broses Panel wedi gosod y Gwasanaeth Cynghori Ariannol o fewn perthynas cydweithredol o'r newydd gyda'i bartneriaid adrannol ehangach.

Mae'r blwch isod yn rhoi manylion am sut y gwnaethom weithio gyda'r Panel Annibynnol ar destun allweddol o lanw'r bylchau. Yn ei *Adolygiad Arweiniad Ariannol Cyhoeddus: cynnig i'w ymgynghori*, cyhoeddodd y Llywodraeth ei ymateb ffurfiol terfynol i Adolygiad Annibynnol Christine Farnish.

Y Panel Annibynnol a'r Adolygiad Annibynnol

Pan gyhoeddwyd yr Adolygiad Annibynnol ym mis Mawrth 2015, derbyniodd y Gwasanaeth Cynghori Ariannol 19 o'r 25 o'i argymhellion. Fe wnaethom ofyn i Banel Annibynnol o arbenigwyr ein helpu ni i ystyried y chwe argymhelliad a oedd yn weddill oherwydd roeddem ni'n meddwl y byddem angen help a chefnogaeth i'w troi o argymhellion i'w gweithredu, a help pellach i fireinio'r dystiolaeth am yr anghenion cwsmeriaid gwirioneddol yr oeddynt yn eu cyfleu.

Roedd y Panel Annibynnol yn cynnwys: Clinton Askew, Panel Ymarferwyr Busnesau Llai FCA; Philip Brown, LV=; Yr Athro Sharon Collard, Prifysgol Agored; Joanna Elson, Money Advice Trust; John Godfrey, Legal & General; Martin Lewis, Moneysavingexpert.com; Sue Lewis, Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Ariannol; Kirsty Mackey, Barclays; Michael Mercieca, Menter yr Ifanc; Otto Thoresen, NEST. Jonathan Douglas o'n Bwrdd ein hunain a gadeiriodd y panel.

Cyfarfu'r panel deirgwaith ac fe ystyriodd ystod o dystiolaeth a barnau gan ddefnyddwyr a'r gyrwyr strategol ehangach yn ymwneud ag arweiniad ariannol.

Y dasg ganolog i'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol a'r Panel oedd cytuno ar fframwaith dadansoddol addas i ymateb i'r argymhelliad y dylai'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol gyfeirio ei chyllid arweiniad ariannol at fylchau yn unig. Fe wnaethom oll gytuno bod hyn yn gywir; ond yr her oedd culhau'r bylchau mewn ffordd a oedd mor wrthrychol â phosibl ac uwchlaw popeth ystyried gwir anghenion defnyddwyr.

Gyda chymorth y panel, fe wnaethom edrych ar ddata gan 5,000 o bobl, trwy lens ymddygiadau gallu ariannol a flaenoriaethwyd gan ein partneriaid yn Strategaeth y DU. Fe roddodd hyn i ni olwg o angen defnyddwyr a cholled posibl. Yna fe wnaethom fapio darpariaeth yn y farchnad yn erbyn meysydd angen allweddol.

Ble y mae darpariaeth dda eisoes yn bodoli, fe wnaethom ddatgan na ddylai'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol ddyblygu (er fe allai ddylanwadu a chefnogi). Fe wnaethom adnabod rhai meysydd allweddol ble'r oedd darpariaeth yn isel neu'n absennol. Fe wnaethom edrych ar bob un o'r rhain yn eu tro gyda'r panel i gadarnhau mai'r bylchau hyn oedd y rhai cywir i ni ganolbwyntio arnynt.

Y bylchau yr ydym wedi'u hadnabod

Ar ôl sefydlu segmentau gyda nodweddion clir, fe wnaethom wedyn ddefnyddio'r Arolwg Gallu Ariannol i'r DU, a gwblhawyd ym mis Mehefin 2015 gyda mwy na 5,000 o bobl, i weld beth oedd yr anghenion pwysicaf ar gyfer pob segment.

Roedd y partneriaid yn Strategaeth y DU wedi ein helpu ni i flaenoriaethu camau ac ymddygiadau ariannol i dri pharth allweddol: rheoli arian yn dda o ddydd i ddydd; cynllunio ymlaen a delio â digwyddiadau bywyd; a delio ag anawsterau ariannol.

Fe wnaethom ddadansoddi ymddygiadau cwsmeriaid o fewn y segmentau ac ar draws y tri pharth hyn, gan ystyried faint y gallai pobl ei golli os nad ydynt yn arddangos ymddygiadau gallu ariannol cadarnhaol.

Ffigwr 5 - Crynodeb syml o ble y gwnaethom fapio anghenion allweddol pob segment nad ydynt yn cael eu diwallu gan ddarpariaeth drawiadol ar raddfa



Allwedd

- **Mae bwlch blaenoriaeth uchel gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol i'w lanw**
- **Mae bwlch blaenoriaeth is**
- **Bwlch rhannol neu dim bwlch wedi'i adnabod**

Mae'r ymdriniaeth hon wedi'n harwain ni i ddiffinio'r pum nod a esbonnir isod. Mae Nod 1 yn ymwneud â'r system gyffredinol o wybodaeth, cyngor ac arweiniad ariannol. Mae Nodau 2, 3 a 4 yn adlewyrchu anghenion a bylchau yr ydym wedi'u hadnabod wrth ystyried poblogaeth oedolion.
Mae Nod 5 yn ymwneud â'r genhedlaeth nesaf, wrth i ni gefnogi plant a phobl ifanc.

Pan wnaethom gyhoeddi fersiwn ymgynghori'r Cynllun Busnes hwn, fe wnaethom ymgynghori ar nod pellach – **'Gweithio gyda gwasanaethau ariannol'** – a oedd yn anelu at ddylanwadu ar gynnyrch a chynllun siwrnai cwsmer o fewn cynhyrchion ariannol. Y nod oedd y dylai cynhyrchion neu siwrneion cwsmeriaid yn gynyddol gynnwys 'gwthiadau bychain' sy'n helpu pobl, yn enwedig y rheini yn y segment 'gwasgedig', i gyllidebu, cynilo a chynllunio ymlaen. Credwn fod y dystiolaeth yn dal i ddangos bod hwn yn fwlch pwysig. Serch hynny, roedd rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cwestiynu pa mor gyflym a hawdd y gallai'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol ddod yn ddylanwadwr credadwy, a dod â mewnwelediad defnyddiol yn fasnachol i wasanaethau ariannol yn ymwneud â'r segment 'gwasgedig'.

O ystyried bod ein bodolaeth statudol yn ymestyn dwy flynedd arall yn unig, a'n bod ni bob amser wedi credu bod gweithio tuag at y nod hwn yn dibynnu ar feithrin gallu, gwybodaeth a dylanwad dros gyfnod hir, yn fersiwn terfynol o'r cynllun nid ydym yn symud ymlaen â nod ar wahân. Serch hynny, heb os bydd Grwpiau Llywio'r Strategaeth Gallu Ariannol ar gyfer y DU yn ystyried materion cynnyrch sy'n cyfoethogi gallu ariannol, a disgwyliwn eu cefnogi yn yr ystyriaethau hyn.

Gan hynny fe wnaethom adnabod pum nod o'n hystyriaeth o'r tirlun a'r bylchau:

1

Cyflenwi trwy eraill

Arwain cyd-drefnu ar nifer o sefydliadau a all gyfrannu at wella gallu ariannol trwy effaith ar y cyd - gan greu dealltwriaeth gyffredinol o broblemau a ffyrdd o fynd i'r afael â hwy.

2

Mynediad cynt ac ehangach at gyngor ar ddyledion

Cefnogi nifer sylweddol yn fwy o bobl orddyledus i gael mynediad at gyngor o ansawdd uchel, am ddim, cyn gynted â phosibl, i ddatrys eu hargyfwng ac adeiladu eu gallu ariannol hirdymor.

3

Mwy o bobl yn cyllidebu a chynilo

Helpu pobl sydd fwyaf wrth risg o siociau incwm i reoli eu harian yn dda o ddydd i ddydd ac i gynilo mwy.

4

Gwella mynediad at arweiniad a chyngor

Llanw bylchau a adnabuwyd yn glir yn y tirlun arweiniad a chyngor er mwyn i bobl gael yr help y mae ei angen arnynt wrth wneud penderfyniadau ariannol.

5

Ehangu a gwella addysg ariannol

Gwella gallu plant a phobl ifanc i reoli eu harian a gwneud penderfyniadau ariannol da.

Nod 1: cyflenwi trwy eraill

Ein nod cyntaf yw i'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol gefnogi partneriaid o fewn Strategaeth Gallu Ariannol ar gyfer y DU i fynd ar ôl eu nodau cyffredin.

Fel y mae pennod 1 y cynllun hwn yn amlinellu, bydd y Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn darparu llawer yn fwy na'r ysgrifenyddiaeth. Mae ein partneriaid wedi gofyn i ni gyflenwi mewnwelediad cwsmeriaid a marchnad dwfn; creu cyfathrebu effeithiol rhwng bob parti ynglŷn â blaenoriaethau allweddol ac ynglŷn â'r 'hyn sy'n gweithio'; mynd ar ôl arbrofion ble y mae angen datrys problemau arbennig o anodd; a gweithredu fel 'parydd' ar gyfer partneriaethau rhwng sefydliadau a all gyflenwi prosiectau ar y cyd i effaith gynyddol.

Mae strwythur llywodraethu ar gyfer Strategaeth y DU yn gynhwysfawr, gyda Bwrdd Gallu Ariannol a nifer o Grwpiau Llywio arbenigol. Bydd angen y rhain i gyd er mwyn gyrru ymlaen casglu tystiolaeth, ystyriaeth, penderfyniadau a gweithredu. Bwriadwn hefyd fuddsoddi £7m yn gweithio gyda sefydliadau allanol i gynhyrchu tystiolaeth o'r 'hyn sy'n gweithio' trwy gynlluniau peilot, profi a dysgu. (Ers cyhoeddi drafft ymgynghori ein cynllun busnes, rydym wedi ychwanegu £4m i'r £3m gwreiddiol y gwnaethom ei neilltuo i'r 'hyn sy'n gweithio' - gan greu cyfanswm o £7m yn 2016/17 - trwy roi stop ar weithgareddau y mae'r Llywodraeth wedi penderfynu sydd y tu hwnt i gwmpas y corff arweiniad ariannol newydd.)

O fewn dwy flynedd, byddwn eisiau dangos tystiolaeth o sut i gyflwyno newid sylweddol ymhlith grwpiau targedig o bobl. Ond rhaid i ni hefyd ddangos y bydd cyfranogiad yn Strategaeth y DU yn creu buddion parhaus i'r sefydliadau partner eu hunain, ynghyd ag i ddefnyddwyr ac ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Nod 1: Cyflenwi trwy eraill

Ein nod cyntaf 2016-18, o'n dadansoddiad o fylchau sylweddol yn y tirlun gallu ariannol, yw: **arwain cyd-drefniant o'r sefydliadau niferus a all gyfrannu at wella gallu ariannol trwy effaith ar y cyd - creu dealltwriaeth gyffredin o broblemau a ffyrdd o fynd i'r afael â hwy.**

Am ragor o wybodaeth ar sut y bwriadwn ymgymryd â'r nod hwn yn 2016/17, gweler pennod 1 y Cynllun Busnes hwn, a phenodau 8, 9 a 10 ar gyfer ein gwaith yng Ngogledd Iwerddon, Yr Alban a Chymru.

Nod 2: mynediad cynt ac ehangach at gyngor ar ddyledion

Ar draws pobl ym mhob segment, roedd hi'n amlwg o'r Arolwg Gallu Ariannol eu bod nhw angen cefnogaeth ar frys pan fyddant yn mynd i anhawster ariannol. Er bod cyfran y defnyddwyr gorddyledus o fewn pob segment yn wahanol, nid yw eu hagweddau tuag at ormod o ddyled yn amrywio cymaint â hynny.

Mae 8.2 miliwn o bobl y mae eu dyledion yn faich trwm a/neu sydd wedi methu talu tri bil yn ystod y chwe mis diwethaf. Eto i gyd dim ond 17% o'r bobl hynny sy'n ceisio unrhyw fath o help. O ystyried bod cyngor ar ddyledion am ddim ar gael ac yn effeithiol, mae hwn yn amlwg yn sefyllfa y dylem fynd i'r afael â hi. Mae ein rôl yn uno gwaith ataliol gyda chyngor ar ddyledion, ac mae hyn yn golygu ein bod ni mewn sefyllfa dda iawn i adeiladu ar allu ariannol hirdymor pob cleient sy'n derbyn cyngor trwy ein hariannu cyngor ar ddyledion. Mae ein rhaglen newydd o waith yn benodol yn defnyddio argymhelliad A7 yr Adolygiad Annibynnol, y dylem ni gyfuno arweiniad ariannol a chyngor ar ddyledion oddi ar-lein, trwy wella ymyrraeth gynnar a thrwy adeiladu ar allu ariannol pobl yn ystod ac ar ôl derbyn cyngor ar ddyledion.

Nod 2: mynediad cynt ac ehangach at gyngor ar ddyledion

Ein hail nod 2016-2018, o'n dadansoddiad o fylchau sylweddol yn y tirlun gallu ariannol, yw: **cefnogi tipyn yn fwy o bobl orddyledus i gael mynediad at gyngor o ansawdd uchel ac am ddim cyn gynted â phosibl i ddatrys eu hargyfwng ac adeiladu ar eu gallu ariannol hirdymor.**

Am ragor o wybodaeth ar sut y bwriadwn ymgymryd â'r nod hwn yn 2016/17, gweler pennod 2 y Cynllun Busnes hwn, a phenodau 8, 9 a 10 am ein gwaith yng Ngogledd Iwerddon, Yr Alban a Chymru.

Nod 3: mwy o bobl yn cyllidebu ac yn cynilo

Roedd yr angen nesaf o bwys y gwnaethom ei adnabod wedi'i glystyru o amgylch cyllidebu ac ymddygiadau cynilo yn y segmentau 'mewn trafferth' a 'gwasgedig'. Mae'r segmentau yn arddangos gwahanol anghenion:

- **Cyllidebu:** mae pobl yn y segment 'mewn trafferth' yn fwy tebygol (57%) o ddweud bod ganddynt system cyllidebu'r cartref y maen nhw'n teimlo sy'n gweithio'n dda, o'i gymharu â'r rheini yn y segment 'gwasgedig' (51%).
- **Cynilo'n rheolaidd:** mae pobl yn y segment 'mewn trafferth' yn llai tebygol (43%) o gynilo bob mis neu'r rhan fwyaf o fisoedd, o'i gymharu â'r rheini yn y segment 'gwasgedig' (63%).
- **'Byffer' cynilo:** mae pobl yn y segment 'mewn trafferth' yn llai tebygol o gael tri mis o incwm neu'n fwy mewn cynilon; ond dim ond 25% o bobl yn y segment 'gwasgedig' (y dylai fod yn fwy cyraeddadwy a dymunol iddynt) sydd â byffer cynilon o'r fath (19%).

O'r data hwn rydym yn dod i'r casgliad bod angen brys i gefnogi pobl yn y ddau segment i reoli eu harian yn well ac i naill ai dechrau cynilo neu gynilo mwy, cyhyd â'u bod nhw'n gallu. Byddwn yn canolbwyntio ar godi galluoedd cyllidebu ar draws y ddau segment, a gyda negeseuon â ffocws sy'n berthnasol i'r segment a'r amgylchiadau, edrych ar brofi gwahanol ymdriniaethau i gefnogi pobl i gynilo. Cyllidebu yw'r galluogwr a all annog rhai pobl yn y segment 'mewn trafferth' i ddechrau arfer o gynilo (yn enwedig pan fydd hi'n bosibl ei gyfuno gydag uchafu incwm), a mwy o bobl yn y segment 'gwasgedig' i gadw tri mis o incwm neu'n fwy mewn cynilon. Mae hon yn broblem heriol iawn a disgwyliwn y bydd cyfran sylweddol o'r £7m yn cael ei neilltuo i brosiectau peilot i brofi gwahanol ymdriniaethau yn y gofod hwn.

Nod 3: mwy o bobl yn cyllidebu ac yn cynilo

Ein trydydd nod 2016-2018, o'n dadansoddiad o fylchau sylweddol yn y tirlun gallu ariannol, yw: **helpu'r bobl sydd fwyaf wrth risg o siociau incwm i reoli eu harian yn dda o ddydd i ddydd a chynilo mwy.**

Am ragor o wybodaeth ar sut y bwriadwn ymgymryd â'r nod hwn yn 2016/17, gweler pennod 3 y Cynllun Busnes hwn, a phenodau 8, 9 a 10 ar gyfer ein gwaith yng Ngogledd Iwerddon, Yr Alban a Chymru.

Nod 4: gwella mynediad at arweiniad a chyngor

O fis Ebrill 2016, mae gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol bum sianel uniongyrchol at ddefnyddwyr sy'n cynnig arweiniad ar faterion ariannol a chynnyrch ariannol:

- gwefan;
- gwesgwrs ar gael trwy'r wefan;
- cynghorwyr ariannol wyneb yn wyneb;
- gwasanaeth ffôn; a
- chyhoeddiadau print, gan gynnwys rhai sy'n ofynnol trwy reoliad.

Mae'r Llywodraeth wedi amlinellu egwyddor na fydd gan y corff arweiniad ariannol newydd sianeli uniongyrchol i gyflenwi gwasanaethau, ac ni fydd ganddo frand sy'n wynebu'r defnyddiwr - a chan hynny ni fydd yn marchnata ei wasanaethau.

Y dasg dwy flynedd o hyd felly yw cytuno:

- pa fylchau arweiniad a fydd yn cael eu gadael heb eu llanw pan fydd y sianeli hyn yn cael eu cau
- a pha un a oes trydydd partïon a allai lanw'r bylchau hynny - gyda chymorth o'r corff newydd neu hebddo.

Yn 2016/17 byddwn yn cymryd rhai camau cyntaf allweddol yn y broses hon, a fydd yn eu tro yn crisialu rhai o'r penderfyniadau y bydd angen eu gwneud cyn 2018. Byddant yn:

- rhoi stop ar unwaith ar bob gwariant ar gaffaeliad cwsmeriaid (marchnata). (Serch hynny, byddwn yn parhau i wasanaethu pobl sy'n dod i'n gwasanaethau ffôn, gwefan a gwesgwrsio trwy alw heb ei annog, a byddwn yn parhau â'n cylch gwaith statudol i gyhoeddi taflenni allweddol)
- yn gyson â hyn, cau ein sianel wyneb yn wyneb ym mis Hydref 2016 (sydd â chostau caffael cwsmeriaid uchel, ynghyd â chostau uchel i wasanaethu)
- cytuno gyda'r Llywodraeth pa gynnwys ac offer digidol y byddai mewn egwyddor yn hoffi gweld eraill yn eu cadw a'u cyflenwi - a dechrau ceisio partneriaid a allai gymryd cyfrifoldeb o'r asedau hyn.

Ochr yn ochr â'r camau di-oed hyn, byddwn yn ystod y ddwy flynedd nesaf yn helpu Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn ei ffordd o feddwl am fodel gomisiynu sy'n cynnig ymdriniaeth ar sail tystiolaeth tuag at fylchau mewn arweiniad, gan edrych nid yn unig ar beth y mae ein sianeli ein hunain wedi'u darparu, ond ar anghenion nad ydynt yn cael eu bodloni ar hyn o bryd gan unrhyw ddarparwr neu sianel.

Nod 4: gwella mynediad at arweiniad a chyngor

Ein pedwerydd nod 2016-2018, o'n dadansoddiad o fylchau sylweddol yn y tirlun gallu ariannol, yw: **llanw bylchau wedi'u hadnabod yn glir yn y tirlun arweiniad a chyngor fel bod pobl yn cael y cymorth y mae ei angen arnynt wrth wneud penderfyniadau ariannol.**

Am ragor o wybodaeth ar sut y bwriadwn ymgymryd â'r nod hwn yn 2016/17, gweler pennod 4 y Cynllun Busnes hwn, a phenodau 8, 9 a 10 am ein gwaith yng Ngogledd Iwerddon, Yr Alban a Chymru.

Nod 5: ehangu a gwella addysg ariannol

Mae ein nod terfynol yn ymwneud â phlant a phobl ifanc (rhwng 3 a 18 oed), ac yn cynrychioli categori angen a her wahanol.

Mae pob cenhedlaeth newydd yn cynrychioli dechrau ffres posibl, gyda phobl yn tyfu wedi'u cyfarparu yn well i wneud y mwyaf o'r rhyddid a'r dewisiadau sy'n bodoli o fewn ein system ariannol.

Mae rhan ganolog o'n ffordd o feddwl mewn perthynas â'r nod hwn yn ymwneud â datblygu'r dystiolaeth bod gallu ariannol da yn cryfhau sgiliau eraill sy'n werthfawr i ysgolion (ac y maen nhw'n cael eu hasesu arnynt). Gyda'r nifer uchel iawn o blant dan sylw, a'r pwysau eithafol ar amser cwricwlwm, bydd ein strategaeth yn canolbwyntio ar sicrhau bod chwaraewyr eraill yn derbyn y dystiolaeth ac yn rhoi'r cymhelliant iddynt weithredu.

Ond dywed tystiolaeth wrthym nad yw addysg ariannol o ansawdd uchel mewn ysgolion (er ei fod yn ei hun yn her sylweddol) yn ddigonol i'r dasg.

Mae addysg ariannol yn mynd y tu hwnt i'r system ysgolion. Mae plant a phobl ifanc angen cefnogaeth a modelau rôl yn y cartref yn ogystal â'r ysgol; a help gyda'r sgiliau anwybyddol y gwyddom sy'n effeithio ar ymddygiad ariannol yn ddiweddarach mewn bywyd, megis hunanreolaeth. Mae rhieni yn allweddol i roi cyfle i blant weld, dysgu, a phrofi rheolaeth ariannol o ddydd i ddydd. Eto i gyd wrth i arian parod ddiflannu, mae cyfleoedd traddodiadol i rieni addysgu eu plant am arian 'yn y foment' yn gostwng.

Nod 5: ehangu a gwella addysg ariannol

Ein pumed nod 2016-18, o'n dadansoddiad o fylchau sylweddol yn y tirlun gallu ariannol, yw: **gwella gallu plant a phobl ifanc i reoli eu harian a gwneud penderfyniadau ariannol da.**

Am ragor o wybodaeth ar sut y bwriadwn gynnal y nod hwn yn 2016/17, gweler pennod 5 y Cynllun Busnes hwn, a phenodau 8, 9 a 10 am ein gwaith yng Ngogledd Iwerddon, Yr Alban a Chymru.

Ffigwr 6 - Mae'r Senedd wedi sefydlu tri phrif amcan strategol ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol. Mae'r ffigwr hwn yn dangos sut yr ydym yn gweld y pum nod yn cyfrannu at bob un o'r tri amcan statudol (wedi'u crynhoi)

Amcanion statudol	1	2	3	4	5
i gyfoethogi dealltwriaeth aelodau'r cyhoedd o faterion ariannol	✓	✓		✓	✓
i gyfoethogi gallu aelodau'r cyhoedd i reoli eu harian eu hunain	✓	✓	✓	✓	✓
gwella ansawdd, argaeledd a chysondeb cyngor ar ddyledion ar draws y DU	✓	✓			

Allwedd

1: Cyflenwi trwy eraill

2: Mynediad cynt ac ehangach at gyngor ar ddyledion

3: Mwy o bobl yn cyllidebu ac yn cynilo

4: Gwella mynediad at arweiniad a chyngor

5: Ehangu a gwella addysg ariannol

Rhaglenni gwaith 2016/17 ar gyfer pob nod

Pennod 1: Cyflenwi trwy eraill

Y nod

Nod 1: arwain cyd-drefniant sefydliadau niferus a all gyfrannu at wella gallu ariannol trwy effaith ar y cyd - creu dealltwriaeth gyffredin o broblemau a ffyrdd o fynd i'r afael â hwy.

Mae'r Strategaeth Gallu Ariannol newydd ar gyfer y DU (neu Strategaeth y DU), a lansiwyd ym mis Hydref 2015, yn amlinellu gweledigaeth deng mlynedd o hyd ar sut y mae angen i sefydliadau ar draws llywodraeth, busnesau a'r sector nid-er-elw gydweithio i helpu miliynau o bobl yn y DU i wneud y mwyaf o'u harian.

Wrth wraidd Strategaeth y DU y mae fframwaith ar gyfer adeiladu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio o ddifrif wrth wella gallu ariannol. Mae'n sefydlu sut y gall sefydliadau ar draws y sectorau hyn gyfrannu at adeiladu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio, trwy fesur cadarn ar effaith gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio i gefnogi gallu ariannol, a rhannu canlyniadau'r gwerthusiad hwn.

Mae Strategaeth y DU yn tanategu popeth y mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn ei wneud. Mae'i dystiolaeth a phwyntiau ffocws yn galluogi i ni weithio â tharged, â ffocws ac yn effeithlon, ac i ychwanegu gwerth ar draws pob un o'r nodau strategol eraill. Mae Strategaeth y DU yn alinio cyllideb a gweithgareddau'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn llwyr.

Mae Strategaeth y DU wedi'i seilio ar gysyniad o 'effaith ar y cyd' - trwy gydweithio mewn ffordd wedi'i chydlynu tuag at nodau ar y cyd, gall yr holl sefydliadau gyflawni cymaint yn fwy na thrwy weithio ar eu pennau eu hunain. Gan hynny, y dasg i'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yw adeiladu cymuned o ddiddordeb gan gymryd camau i fynd i'r afael â nodau cyffredin hirdymor, wedi'i seilio ar farn ar y cyd o broblemau a dulliau ar y cyd o fesur. Byddwn yn gweithredu fel eiriolwr llafar dros farnau, gweithgareddau a llwyddiant y gymuned hon.

Byddwn hefyd yn parhau i ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth a chynhyrchu mewnwelediad i angen y defnyddiwr a pha un yw'r ffordd orau o'i fodloni, trwy ymchwil a dadansoddiad parhaus, ac ariannu rhai prosiectau peilot a gwerthusiadau effaith. Byddwn yn buddsoddi £7m yn gweithio gyda sefydliadau eraill i werthuso effaith ymyraethau gallu ariannol cyfredol, ac yn sefydlu prosiectau peilot newydd a fydd yn adeiladu ymhellach ar y sylfaen dystiolaeth yn 2016/17. Bydd hyn yn helpu sefydliadau ar draws y gymuned gallu ariannol i ddefnyddio eu hadnoddau i'r effaith orau wrth helpu pobl i wneud y mwyaf o'u harian.

Mae Strategaeth y DU yn adnabod tri 'pharth ymddygiadol' ('Rheoli arian yn dda o ddydd i ddydd'; 'Paratoi ar gyfer digwyddiadau bywyd a'u rheoli'; a 'Delio gydag anawsterau ariannol') - a phedwar cyfnod bywyd (Plant a Phobl Ifanc; Oedolion Ifanc; Pobl o Oed Gweithio; a Phobl Hŷn wedi Ymddeol) ble y byddwn yn canolbwyntio'r gweithgaredd. Gweler ffigwr 7 ar dudalen 28 y fframwaith sy'n esbonio hyn.

Mae llawer o'r ffrydiau gwaith a adnabuwyd ym mhenodau dilynol y Cynllun Busnes hwn yn canolbwyntio'n benodol ar faterion yn ymwneud â grwpiau penodol (er efallai y gellid eu cymhwyso yn ehangach hefyd). Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i'r segmentiad cwsmeriaid a amlinellir yn yr adran flaenorol, a'n casgliadau ynglŷn â ble y gall y Gwasanaeth Cynghori Ariannol wneud y gwahaniaeth mwyaf neu sydd â'r rôl fwyaf i'w chwarae yn uniongyrchol. Mae'n bwysig nodi, serch hynny, bod cyflenwi Strategaeth y DU yn golygu ystyried anghenion a darpariaeth ar gyfer pob cyfnod bywyd a ffactorau yr ymdrinnir â hwy yn Strategaeth y DU, a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid a thrwy ddulliau llywodraethu perthnasol (gweler tudalennau 33-34) i yrru ymlaen yr agenda gallu ariannol ar draws y boblogaeth.

Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o Strategaeth Gallu Ariannol y DU, a sut y bydd y Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn defnyddio'i adnoddau yn 2016/17 i ddechrau'r siwrnai o yrru gallu ariannol a meithrin seiliau cadarn ar gyfer gweithredu'r Strategaeth.

Dylanwad Strategaeth y DU ar ein gwaith yn 2016/17

Bydd gwaith y Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn 2016/17 yn cyfrannu at nodau ar y cyd partneriaid Strategaeth y DU, trwy gyfarwyddo cyflenwi sy'n helpu pobl i reoli eu harian yn well a/neu adeiladu'r sylfaen dystiolaeth. Felly mae'r penodau sy'n weddill yn y cynllun hwn yn amlinellu sut y bydd y Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn ymgymryd â thasgau cyflenwi mawr ar gyfer meysydd allweddol Strategaeth y DU. Ymhlith yr uchafbwyntiau y mae:

Mynediad cynt ac ehangach at gyngor ar ddyledion (gweler pennod 2)

Yn 2016/17 bydd y Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn canolbwyntio ar **ymyrraeth gynnar ac ymgysylltu â chyngor ar ddyledion**. Nid yw llawer o bobl a allai elwa o'r cyngor ar ddyledion yn sylweddoli y gallant dderbyn yr help mae ei angen arnynt am ddim. Er mwyn codi ymwybyddiaeth byddwn yn cynnal cyfres o brosiectau peilot ymgysylltu ar y cyd gyda phartneriaid ar draws y sector cyngor ar ddyledion, wedi'u hanelu at grwpiau targedig o bobl orddyledus. Bydd y dystiolaeth a'r ddysg o'r rhain yn cael eu rhannu gyda phartneriaid Strategaeth y DU.

Mwy o bobl yn cyllidebu ac yn cynilo (gweler pennod 3)

Yn 2016/17 bydd y Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddatblygu offeryn **cefnogi cyllideb i bobl sy'n ymuno â'r rhaglen Credyd Cynhwysol,** gyda'r nod o gefnogi'r cyfnod hanfodol cyntaf o newid o daliad budd-daliadau bob pythefnos i bob mis, a mesur yr hyn mae pobl yn ei wneud ar ôl derbyn cefnogaeth ar-lein.

Ehangu a gwella addysg ariannol (gweler pennod 5)

Er mwyn sicrhau dealltwriaeth well o effaith addysg ariannol, byddwn yn cynnal adolygiadau systematig a dadansoddiad ystadegol o'r data cyfredol. Byddwn yn adeiladu ar ein Harolwg Gallu Ariannol ledled y DU ein hunain trwy **holi 6,000 o'r rhai rhwng 4 a 17 oed a'u rhieni**. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod gennym sylfaen dystiolaeth ystadegol gadarn ac yn ein helpu i ddeall yn fanylach y ffactorau sy'n effeithio ar allu ariannol. Fe fydd yn set data cychwynnol ar gyfer ffordd o feddwl Strategaeth y DU ynglŷn â phlant a phobl ifanc.

Byddwn hefyd yn cynnal dadansoddiad manwl gan ddefnyddio **Astudiaeth Carfan Prydain 1970** i sicrhau mewnwelediad cyfoethog i'r pwyntiau am bryd y mae gwahanol sgiliau gwybyddol ac anwybyddol yn dechrau gwneud gwahaniaeth hirdymor i ymddygiad ariannol oedolion, a pha sgiliau allai fod yn bwysicach nac eraill. Bydd hyn o fudd i'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Strategaeth y DU waeth pa grŵp oed sydd dan ystyriaeth. Bydd yn galluogi i'r sector deilwra eu hymyraethau i gynnwys y sgiliau sydd bwysicaf ar wahanol oedrannau, a hefyd ffurfio'r sylfaen ar gyfer cyfrifo budd cymdeithasol ac economaidd addysg ariannol.

Ffigwr 7 - Fframwaith Strategaeth Gallu Ariannol



Mae'r fframwaith yn rhannu poblogaeth y DU i gyfnodau bywyd eang (colofnau) a chlystyrau ymddygiadau ariannol allweddol (rhesi)

Mae'r fframwaith yn disgrifio model gallu ariannol y gellir ei ddefnyddio i wneud diagnosis o broblemau a chynllunio darpariaeth sy'n berthnasol i bob grŵp cyfnod bywyd a phob clwstwr o ymddygiadau ariannol allweddol. Mae rhwyddineb y cysylltiad, ffordd o feddwl a gallu yn dair cydran gritigol ar allu ariannol.

Blaenoriaethau yn 2016/17

Yn 2016/17 bydd ein ffocws ar ddilyn ymlaen o'r momentwm a gynhyrchwyd trwy lansio Strategaeth y DU, i greu tystiolaeth o'i heffaith rhwng yn awr a 2018. Byddwn yn **parhau i weithredu fel canolfan arbenigedd a thystiolaeth ar allu ariannol**, gan ddarparu a eirioli defnydd ar dystiolaeth a mewnwelediadau am effeithiau gallu ariannol gwael, buddion buddsoddi mewn gwella gallu ariannol, yr hyn sy'n gweithio, a chyfleoedd i gyfrannu'n effeithiol at gynyddu gallu ariannol.

Er mwyn gwneud hyn byddwn yn meithrin mwy o bartneriaethau - a rhai mwy effeithiol - ar draws y sector; mewnosod prosesau llywodraethu ac arolygu cryf; a rhoi adnoddau i mewn i ddechrau meithrin sylfaen dystiolaeth gref a dadansoddiad i hysbysu datblygiad prosiectau a mentrau sydd wedi'u hanelu at roi hwb i allu ariannol ar draws poblogaeth gyfan y DU:

- Byddwn yn **sefydlu ac yn cefnogi dulliau llywodraethu**, a fydd yn eu tro yn cynnig tystiolaeth ac arweinyddiaeth i'r gymuned rhanddeiliad llawn ar flaenoriaethu gweithredoedd ar gyfer pob thema Strategaeth y DU.
- Byddwn yn gweithio gydag arbenigwyr ymchwil a'r Bwrdd Gallu Ariannol i **greu set gadarn a chredadwy o fesurau llwyddiant ar gyfer gallu ariannol**, gan gynnwys mesurau cyfansawdd o alluoedd, a mesurau economaidd o ganlyniadau buddsoddiad, y gellir eu defnyddio i fesur cynnydd wrth yrru gallu ariannol dros oes deng mlynedd o hyd Strategaeth y DU.
- Byddwn yn cynnal **plymiad dwfn i'n harolwg gallu ariannol ble y mae'n perthyn i rifedd**, ac ochr yn ochr ag adroddiad rhyngwladol ar lythrennedd ariannol y gwnaethom gyfrannu ato, byddwn yn **galw cyfarfod o amgylch bwrdd arbenigol i archwilio yn ddyfnach i'r rhyngberthynas rhwng rhifedd a gallu ariannol**, gan gynnwys pa oblygiadau y gallai hyn ei gael ar ddatblygiadau polisi o fewn sgiliau sylfaenol oedolion.
- Byddwn yn datblygu, ac yn hyrwyddo defnydd eang ar set lawn o offer - megis y Fframweithiau Canlyniadau a Phecyn Offer Gwerthusiad - i **helpu sefydliadau i adeiladu gwerthusiad cadarn o effaith i'r camau sydd wedi'u hanelu at gefnogi gallu ariannol**, gan gynnwys fframwaith canlyniadau newydd yn canolbwyntio'n benodol ar bobl hŷn sydd wedi ymddeol. Byddwn yn annog llawer o sefydliadau i ymrwymo i gymhwyso gwerthusiad cadarn a rhannu'r canlyniadau, trwy ymrwymiad i egwyddorion IMPACT (gweler blwch ar dudalen 32).
- Byddwn yn **cefnogi ariannu ar gyfer mentrau blaenllaw yn y sector, arloesol ac uchel eu heffaith** sy'n canolbwyntio ar uchafu ar y budd i'r bobl sydd angen y gefnogaeth fwyaf (gweler blwch drosodd).
- Byddwn yn **gweithio gyda chynghorwyr ariannol myfyrwyr mewn colegau a phrifysgolion ar draws y DU, a gwefannau cyngor i fyfyrwyr**, i bennu pa fylchau sy'n bodoli, ac i sicrhau bod eu harbenigedd yn cael ei ddefnyddio wrth helpu myfyrwyr i gael mynediad at y gefnogaeth gallu ariannol sydd ar gael iddynt wrth i'r tirlun ar gyfer ariannu myfyrwyr esblygu.
- Gydag ymdriniaeth debyg at adnabod bylchau, byddwn yn **cydweithio gydag asiantaethau cynghori ieuenctid ar-lein ac oddi ar-lein** sydd â chyrhaeddiad naturiol uchel ac arfer proffesiynol sefydledig i adeiladu gallu ariannol oedolion ifanc.

Gweithio mewn partneriaeth - cynhyrchu tystiolaeth gadarn am 'yr hyn sy'n gweithio'

Yn 2016/17 byddwn yn **neilltuo £7m i ariannu a gwerthuso rhaglenni a phrosiectau peilot at draws y DU**, er mwyn dyfnhau dealltwriaeth ar y cyd partneriaid gallu ariannol o ba fathau o ymyraethau a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i sgiliau rheoli arian pobl. Croesawyd yr ymdriniaeth hon gan randdeiliaid yn fersiwn ymgynghorol ein cynllun ac ers hynny rydym yn falch ein bod ni wedi gallu cael mynediad at yr ariannu sydd ar gael ar ei gyfer.

Nod craidd ariannu'r 'hyn sy'n gweithio' fydd cryfhau'r sylfaen dystiolaeth, gan ddefnyddio offer a mesurau canlyniadau gwerthuso cyson, fel bod yr holl sefydliadau (gan gynnwys darparwyr a chyllidwyr) yn gallu elwa o ddealltwriaeth ar y cyd o'r hyn sydd wedi'i brofi sy'n gweithio. Bydd gwerthusiad cadarn wrth galon y rhaglen waith hon, a bydd mewnwelediadau a dysg allweddol o'r prosiectau peilot neu raglenni gwerthuso yn cael eu dosbarthu ar draws y sector.

Wrth glustnodi'r cyllid hwn, byddwn yn cael ein harwain gan y blaenoriaethau sydd eisoes wedi'u hadnabod gan Strategaeth y DU (ar draws y DU ac ym mhob cenedl ddatganoledig) - felly disgwyliwn ariannu prosiectau'r 'hyn sy'n gweithio' ar draws pob cyfnod bywyd y strategaeth gallu ariannol. Yn benodol disgwyliwn gyfarwyddo'r ariannu hwn i fynd i'r afael â materion blaenoriaeth penodol a chwestiynau sydd wedi codi trwy Strategaeth y DU a'n hymchwil. Er enghraifft, ymhlith y meysydd blaenoriaeth y mae gennym ddiddordeb yn eu harchwilio trwy brosiectau peilot a gwerthuso y mae:

- **helpu pobl heb fyffer ariannol i ddatblygu arfer cynilo**
- **gwneud y gorau o gyfnodau addysgadwy i helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu sgiliau arian**
- **helpu oedolion ifanc i bontio i fywyd ariannol annibynnol**
- **archwilio sut y gellir defnyddio'r gweithle i wella gallu ariannol ac adeiladu cynilion pensiwn**
- **a helpu pobl hŷn i baratoi ar gyfer yn hwyrach mewn bywyd.**

Nid yw hon yn rhestr gyflawn a bydd meysydd eraill a datrysiadau arloesol y bydd hi'n werth eu harchwilio a'u datblygu. Byddwn yn amlinellu hyn yn arweiniad yn y dyfodol ynglŷn â'r ariannu hwn.

Wrth fodloni'r heriau hyn ac adeiladu ein sylfaen dystiolaeth, mae gennym ddiddordeb yn profi ymdriniaethau arloesol, newydd i ymgysylltu a helpu pobl a hefyd wrth werthuso ymyraethau cyfredol sydd wedi'u cynllunio i helpu pobl i wella eu gallu ariannol. Agwedd allweddol ar y rhaglen ariannu hon fydd ystyried i ba raddau y gellir graddio ymyraethau i fyny, rhannu mewnwelediad ar y gost a budd mabwysiadu rhai ymyraethau ar raddfa fwy.

Byddwn yn rhyddhau gwybodaeth bellach ar gymhwyster, blaenoriaethau allweddol a'r broses ymgeisio yn fuan a disgwyliwn y bydd sefydliadau â diddordeb yn gallu gwneud cais am gyllid erbyn diwedd mis Mehefin.

Tystiolaeth a gwerthusiad

Er mwyn gyrru effaith ar y cyd mae'n bwysig bod mentrau yn cael eu gwerthuso yn llym am eu heffaith ar allu ariannol er mwyn i ymchwilwyr, darpar gyllidwyr a'r rheini sy'n gysylltiedig â chyflwyno mentrau gallu ariannol ar y cyd greu darlun clir o'r hyn sy'n gweithio. Unwaith mae hyn yn hysbys, gellir buddsoddi ariannu ac adnoddau eraill yn y ffordd orau i gyflawni'r effaith fwyaf wrth helpu pobl sydd angen cefnogaeth gallu ariannol.

Mae angen i ni hefyd barhau i adeiladu dealltwriaeth o ble mae angen pobl am gefnogaeth fwyaf, ble y gall camau gael yr effaith fwyaf wrth wella gallu ariannol a pha fuddion sy'n llifo ohono. Rydym yn datblygu fframwaith canlyniad penodol ar gyfer pobl hŷn, gan gydnabod er bod pobl ifanc yn dod o fewn y model segmentiad a ddisgrifir yn 'y tirlun a'r bylchau' (tudalennau 8-24), mae ganddynt anghenion gallu ariannol amlwg.

Mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol wedi datblygu **Canolfan Dystiolaeth** i ddwyn ynghyd tystiolaeth werthuso a dadansoddiad o fentrau gallu ariannol yn y DU ac yn fyd-eang. Mae mentrau yn cael eu hasesu am eu heffeithlonrwydd wrth wella gallu ariannol, a hefyd am safon y dystiolaeth. Byddwn yn parhau i gasglu'r dystiolaeth hon a'i rhannu ar draws y gymuned gallu ariannol trwy'r wefan Gallu Ariannol.[5]

Trwy ein rôl wrth gyd-drefnu Strategaeth y DU, byddwn yn **annog rhanddeiliaid i ddefnyddio technegau gwerthuso effaith cadarn a chyson a rhannu canlyniadau'r gwerthusiad**. Byddwn yn parhau i fireinio'r Pecyn Offer Gwerthuso yr ydym wedi'i ddatblygu, a gweithio gyda sefydliadau ar draws y gymuned gallu ariannol i annog a chefnogi eu cymhwyso yn eang ac yn effeithiol i adeiladu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio.

5. fincap.org.uk

Creu IMPACT: egwyddorion ar gyfer cyllidwyr gallu ariannol a darparwyr

Mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn ceisio arweinwyr sector i ymuno â'i genhadaeth i wella gallu ariannol pobl yn y DU. Mae'r Egwyddorion IMPACT yn cefnogi'r genhadaeth hon trwy godi ymwybyddiaeth o arfer da wrth gynnal gwerthusiad a defnyddio tystiolaeth. Mae gennym gais syml: bod sefydliadau yn gweithredu'r Egwyddorion IMPACT a ganlyn mewn perthynas ag un neu'n fwy o'u rhaglenni gallu ariannol.

I Eirioli'r Effaith

Eich bod chi'n ystyried tystiolaeth a gwerthuso yn ystod pob cam o gomisiynu a chyflwyno rhaglenni gallu ariannol, ac yn eirioli'r ymdriniaeth i eraill.

M Cadw llygad ar y bylchau

Wrth wneud penderfyniadau am y rhaglenni yr ydych chi'n eu hariannu neu'u cyflenwi, eich bod chi'n ystyried y 'bylchau' yn y ddarpariaeth a'r wybodaeth gyfredol am yr hyn sy'n gweithio.

P Adnoddau digonol ar ei gyfer

Eich bod chi'n clustnodi adnoddau digonol i werthuso i sicrhau ei fod o ansawdd uchel ac yn ddibynadwy, ac yn sicrhau bod y raddfa yn parhau yn gymesur â'r rhaglen dan sylw.

A Ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth ehangach

Rydych chi'n ymrwymedig i rannu dysg am yr hyn sydd wedi gweithio - a'r hyn nad yw wedi gweithio - o werthuso'ch rhaglenni trwy'r Ganolfan Tystiolaeth Gallu Ariannol.

C Cysondeb wrth fesur canlyniadau

Eich bod chi'n defnyddio'r fframweithiau canlyniad gallu ariannol wrth ddatblygu gwerthusiadau rhaglen newydd, os yn bosibl. Bydd hyn yn gwella cysondeb yn y ffordd y mae'r sector yn mesur effaith ac yn galluogi casgliadau cryfach am y dulliau mwyaf effeithiol o wella gallu ariannol pobl.

T Gwneud amser i ddeall y canlyniadau a'u goblygiadau

Rydych yn sicrhau bod y ddysg, a gweithredu ar y gwersi o'r gwerthusiad, yn flaenoriaeth - i sicrhau eich bod chi'n gwella'n barhaus ar y rhaglenni yr ydych chi'n eu hariannu, eu cynllunio a'u cyflenwi.

Yn iawn am gofrestru, gobeithiwn y byddwch chi'n elwa o:

- Lleoli fel arweinwyr meddwl, gan fynnu'ch rôl allweddol wrth gyflenwi Strategaeth y DU a chodi gallu ariannol y genhedlaeth nesaf.
- Cyhoeddusrwydd trwy sianeli cyfathrebu Strategaeth y DU perthnasol, gan gynnwys gwefan, datganiadau i'r wasg, adroddiadau gweithgareddau a digwyddiadau proffil uchel Strategaeth y DU.
- Adnabyddiaeth brand cynyddol ar gyfer eich effaith cymdeithasol, gan ei gwneud hi'n haws dangos eich ymrwymiad i gyllidwyr, rhanddeiliaid, y Llywodraeth a rheoleiddwyr.
- Mynediad at gefnogaeth gwerthuso a pholisi gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â whatworks@fincap.org.uk neu lawrlwythwch y wybodaeth berthnasol o fincap.org.uk.

Llywodraethu

Bydd gweithredu Strategaeth y DU yn cael ei oruchwylio gan y Bwrdd Gallu Ariannol a chan nifer o Grwpiau Llywio, a fydd yn dwyn ynghyd sefydliadau ar draws y sectorau i ddefnyddio'u harbenigedd cyfun i arwain y gymuned gallu ariannol wrth ganolbwyntio adnoddau ar weithredu themâu a blaenoriaethau allweddol Strategaeth y DU. Bydd y grwpiau hyn yn sicrhau bod gwaith yn parhau i gael ei arwain gan randdeiliaid ar draws sectorau a bod gan sefydliadau sy'n gysylltiedig â gweithredu Strategaeth y DU lais cryf yn sut y mae gweithgaredd yn cael ei flaenoriaethu a'i drefnu.

Bydd y Gwasanaeth Cynghori Ariannol **yn cymryd rhan yn uniongyrchol yn y grwpiau hyn a bydd hefyd ganddo rôl bwysig wrth gefnogi eu gwaith**. Bydd hyn yn cynnwys darparu **cyngor o ansawdd uchel** a dadansoddiad i hysbysu eu penderfyniadau, a gweithredu fel **ysgrifenyddiaeth i'r Bwrdd a'r Grwpiau Llywio**.

Bwrdd Gallu Ariannol

Bydd y Bwrdd Gallu Ariannol yn goruchwylio datblygiad parhaus a gweithrediad Strategaeth y DU, gan geisio dylanwadu ar eraill i'w gefnogi. Byddant hwy - ynghyd â'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol a Grwpiau Llywio - yn arwain ac yn cydlynu ymdrechion wedi'u hanelu at yrru gallu ariannol, a bydd yn eirioli Strategaeth y DU. Mae'r Bwrdd yn cynnwys uwch ffigurau, a rhai dylanwadol, o ystod o sectorau, a bydd yn cael ei gefnogi gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Andy Briscoe
Cadeirydd
Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Benny Higgins
Prif Swyddog Gweithredol
Tesco Bank

Caroline Rookes
Prif Swyddog Gweithredol
Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Christopher Woolard†
Cyfarwyddwr Strategaeth a Chystadleuaeth
FCA

Eleanor Marks
Dirprwy Gyfarwyddwr Isadran Cymunedau
Llywodraeth Cymru

Gwyneth Nurse†
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

Hector Sants
Cadeirydd
Gweithgor Archbishop, Elusen Dyledion Step Change

Jackie Kerr *
Rheoleiddio Busnes - Cefnogaeth
DETI NI

Jasper Berens
Pennaeth UK Funds
JP Morgan

Lily Lapenna
Sylfaenydd a Chyd-gadeirydd
Ymddiriedolwyr, MyBnk

Louise Macdonald
Prif Swyddog Gweithredol
Young Scot

Otto Thoresen
Cadeirydd
NEST

Steve Webb
Cyfarwyddwr Polisi a Chyfathrebu Allanol
Royal London

Yr Athro Elaine Kempson
Athro Emeritws
Prifysgol Bryste

Roger Sanders
Rheolwr Gyfarwyddwr
Lighthouse Group plc

Sian Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cenedlaethol
Toynbee Hall

Syr Sherard Cowper-Coles
Uwch Gynghorydd i Gadeirydd y Grŵp a Phrif Weithredwr y Grŵp
HSBC

Steve Pateman
Cyfarwyddwr Gweithredol,
Pennaeth UK Banking
Santander

Tom Wright
Prif Swyddog Gweithredol
AgeUK

*†Sylwedyddion *Hyd at fis Mai 2016*

Ffigwr 8 – Fframwaith Cyflenwi a Llywodraethu Strategaeth Gallu Ariannol



Pennod 2: mynediad cynt ac ehangach at gyngor ar ddyledion

Y nod

Nod 2: cefnogi tipyn yn fwy o bobl orddyledus i gael mynediad at gyngor o ansawdd uchel ac am ddim cyn gynted â phosibl i ddatrys eu hargyfwng ac adeiladu gallu ariannol hirdymor.

Mae angen sylweddol am gyngor ar ddyledion. Amcangyfrifwn fod 8.2 miliwn o oedolion y DU yn ddioddef gyda gorddyledusrwydd, gydag oedolion iau, teuluoedd mwy a rhieni sengl yn amlwg wrth risg uwch - ond mae llai na un o bob pump ohonynt yn mynd ati i geisio help.



Ffigwr 9 - Ar gyfartaledd ar draws y DU, mae 1 o bob 6 o oedolion yn orddyledus, a cheir amrywiadau rhanbarthol sylweddol

Mae ein cyllid yn ein helpu ni i fodloni cyfran sylweddol o'r galw cyffredinol. Yn 2015/16 fe wnaethom ragori ar ein targed i ddarparu cyngor ar ddyledion am ddim i fwy na 370,000 o bobl trwy ein partneriaid cyfredol ar draws y DU.[6] Rydym yn **edrych i gynyddu sesiynau cyngor ar ddyledion yr ydym yn eu hariannu ymhellach yn 2016/17 i 425,000** trwy gomisiynu gallu cyngor ar y ffôn newydd i ddechrau yn Q3, gan ddarparwyr cyngor ffôn sydd eisoes yn weithredol yn y sector. Bydd y gallu ffôn newydd hwn ar gael i gynorthwyo nifer cynyddol o bobl orddyledus yr ydym yn edrych i **ymgysylltu â hwy yn gynt â chyngor ar ddyledion**.

Ynghyd ag ehangu darpariaeth trwy ein prosiectau a ariennir ein hunain, mae ein Fframwaith Ansawdd yn rhoi sicrwydd bod cleientiaid yn derbyn **safon uchel o gyngor**. Bellach mae 670 o sefydliadau cyflenwi cyngor ar ddyledion sy'n dal un o'n safonau ansawdd achrededig a byddwn yn **tyfu'r rhif hwn ymhellach yn ystod 2016/17** i gynyddu nifer y bobl orddyledus sydd â mynediad at gyngor wedi'i achredu gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

6. Yng Nghymru a Lloegr mae ein partneriaid yn cynnwys: Cyngor ar Bopeth; the Money Advice Trust; Talking Money; East Midlands Money Advice; Capitalise; a Greater Merseyside Money Advice Partnership. Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid ariannu strategol - yr Adran Menter, Masnach a Buddsoddi yng Ngogledd Iwerddon, a Bwrdd Cymorth Cyfreithiol yr Alban yn yr Alban.

Daw ein cytundebau grant cyfredol yng Nghymru a Lloegr i ben ym mis Medi 2017, a byddwn, ynghyd â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol, yn cytuno ar gynlluniau addas i ariannu gwasanaethau cyngor ar draws Cymru a Lloegr pan ddaw'r cytundebau hynny i ben. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ein cyllid i ymateb i feysydd o'r angen mwyaf ar draws y DU ac yng Ngogledd Iwerdd on bydd ein cyllid yn helpu mwy na dwywaith yn fwy o bobl yn 2016/17 o'i gymharu â 2015/16.

Cyd-drefnu'r sector cyngor ar ddyledion

Bydd y Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn parhau i fodloni'i rôl fel arweinydd ffordd o feddwl yn y sector cyngor ar ddyledion ac yn 2016 byddwn yn comisiynu cyfres o **brosiectau ymchwil** wedi'u datblygu gyda rhanddeiliaid i ddeall:

- **effaith cyngor ar ddyledion dros amser** ar unigolion gorddyledus
- **mantais gymdeithasol ar gyngor ar ddyledion** - adeiladu ar yr ymchwil a gynhaliwyd gan Elusen Ddyledion StepChange
- **effaith ffactorau macroeconomaidd** ar lefelau gorddyledusrwydd.

Ym mis Mehefin 2015, cyfarfu Grŵp Llywio Cyngor ar Ddyledion (DASG) newydd am y tro cyntaf, mewn ymateb i argymhelliad Adolygiad Annibynnol Christine Farnish o'r Gwasanaeth. Mae'r DASG yn dwyn ynghyd rhanddeiliaid dylanwadol o fanciau, sefydliadau credydwyr eraill a'r sector cyngor. Bydd yn rhoi arolygiaeth a chyd-drefniant lefel uchel i'n gwaith ar draws y sector i adeiladu ar y llwyddiant hwnnw. Byddwn yn **darparu cefnogaeth ysgrifenyddiaeth i DASG, ynghyd â Grŵp Gweithredol Cyngor ar Ddyledion (DAOG), a chyfres o grwpiau gweithredu**, wrth iddynt weithio trwy'r blaenoriaethau sy'n ymddangos. Mae'r fframwaith hwn yn ymgorffori'r ymdriniaeth gydweithredol yr ydym yn parhau i'w defnyddio i gyflenwi ein rôl statudol.

Ffigwr 10 - Sut yr ydym yn helpu i gyd-drefnu'r sector cyngor ar ddyledion trwy gyfathrebu a llywodraethu.



** Yn Disodli'r Fforwm Cyngor ar Ddyledion*

Allwedd

- Llinellau adrodd
- Aelodau wedi'u tynnu o
- Bwydo i mewn i/cyfathrebu dwyffordd

Ymyrraeth ac ymgysylltu cynnar

Yn syml, y cynharaf y mae pobl yn ceisio cyngor ar eu problemau ariannol, yr hawsaf ydyw i gyngor ar ddyledion eu helpu hwy. Eto i gyd ar hyn o bryd mae llai na un o bob pump o bobl orddyledus yn ymroi i geisio cyngor, ac maen nhw fel arfer yn gadael dros flwyddyn cyn gwneud hynny. Rhaid i ni newid hyn. Bydd 2016/17 yn gweld ffocws mawr ar ymgysylltu cynnar.

Nid yw llawer o bobl a allai elwa o'r cyngor ar ddyledion yn sylweddoli y gallant dderbyn yr help mae ei angen arnynt am ddim. Er mwyn codi ymwybyddiaeth byddwn yn **cynnal cyfres o gynlluniau peilot ymgysylltu ar y cyd gyda phartneriaid ar draws y sector cyngor ar ddyledion**, wedi'u hanelu at grwpiau targedig o bobl orddyledus.

Byddwn yn parhau i weithio gydag ystod o **sefydliadau credydwr** - megis gwasanaethau ariannol a chwmnïau cyfleustodau, a landlordiaid cymdeithasol - i adnabod pobl sy'n profi trafferthion wrth wneud taliadau. Byddwn hefyd yn ceisio gweithio gydag **asiantaethau gwirio credyd**, gan ddefnyddio gwybodaeth y maen nhw'n ei chadw i helpu pobl sy'n orddyledus ond nad ydynt yn ceisio cyngor.

Mae sawl rheswm - yn ymarferol ac yn seicolegol - pam nad yw pobl yn ceisio cyngor ar ddyledion. Wrth weithio gyda phartneriaid yn y sector, byddwn yn **profi cyfres o ymyraethau** wedi'u hanelu at roi'r gefnogaeth y mae ei hangen ar bobl orddyledus i oresgyn y rhwystrau hynny a'u hannog i gael mynediad at yr help sydd ar gael.

Gwyddom fod pobl mewn dyled yn aml yn teimlo'n unig ac â chywilydd, ac maen nhw'n ofni cael eu beirniadu. Er mwyn helpu i oresgyn yr effeithiau hyn bwriadwn **beilota mentrau cymorth cyfoedion** i brofi ymwybyddiaeth well o fuddion cyngor ar ddyledion a chynyddu ymgysylltiad.

Cyflenwi effeithiol ac effeithlon ar gyngor ar ddyledion

Mae cyngor ar ddyledion o ansawdd uchel yn gweithio. Yn y prosiectau yr ydym yn eu hariannu, fe wnaeth mwy na thri chwarter o'r cleientiaid lwyddo i ostwng eu dyledion o fewn chwe mis i dderbyn cyngor.

Dymunwn weld mwy o bobl orddyledus yn derbyn y cyngor a fydd yn eu helpu i gael eu dyledion dan reolaeth; ac i barhau i wella safonau, a hynny yn ein gwasanaethau yr ydym yn eu hariannu ein hunain a thrwy weithio gyda chyllidwyr a darparwyr eraill ar draws y sector. Mae angen i gleientiaid fod yn hyderus eu bod yn derbyn gwasanaeth da, ble bynnag a sut bynnag y maen nhw'n dewis cael mynediad at y cyngor.

Byddwn yn symud ymlaen o fewn ein fframweithiau ansawdd a monitro wrth geisio mewnbwn gan ddarparwyr cyngor ar ddyledion a chredydwyr ar fonitro a gwerthuso canlyniadau'r cyngor ar ddyledion. Rydym yn ofalus bod yr *Adolygiad Arweiniad Ariannol Cyhoeddus: cynnig i'w ymgynghori* wedi ein herio ni i ostwng beichiau ar gontractwyr, trwy ddefnyddio modelau cytundebu 'doethach'.

Byddwn yn **datblygu gweithredu ein cynllun adolygu cyfoedion**, a byddwn yn **lledaenu arfer gorau** trwy ganiatáu i gynghorwyr a darparwyr elwa o fewnwelediadau ymarferwyr profiadol eraill.

Ar y cyd â rhanddeiliaid - ac yn benodol gyda'r Elusen Dyledion StepChange a'r Money Advice Trust - rydym wedi datblygu **'Datganiad Ariannol Safonol'** (SFS) i gyflwyno ar ffurf gytûn yr holl wybodaeth angenrheidiol am incwm a gwariant cleient. Byddwn yn dechrau cyflwyno'r fformat hwn drwyddi draw 2016/17 gyda'r bwriad o'i sefydlu ar draws y sector y flwyddyn ganlynol. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Ansolfedd, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, a gyda'r Accountant in Bankruptcy (AiB) yn yr Alban i fewnosod y fformat yn eu hymdriniaeth statudol.

Mae'r mewnwelediad o flwyddyn lawn gyntaf ein cytundebau grant yng Nghymru a Lloegr wedi llunio'r amcanion y mae angen eu bodloni yn y **cytundebau grant newydd y byddwn yn eu sefydlu ym mis Ebrill 2016 ar gyfer Gogledd Iwerddon**.

Ers 2012 mae ein cyllid cyngor ar ddyledion wedi helpu mwy o bobl blwyddyn ar ôl blwyddyn a gyda'n partneriaid rydym wedi gostwng cost y cyngor hwnnw fesul cleient. Yn 2016/17 byddwn yn **helpu 55,000 yn fwy o bobl orddyledus** i gael mynediad at gyngor ar ddyledion am ddim trwy'r prosiectau yr ydym yn eu hariannu ar draws y DU, o'i gymharu â'r nifer y gwnaethom eu hariannu yn 2015/16.

Ffigwr 11 - Mae sesiynau cyngor ar ddyledion wedi codi, wrth i gost fesul sesiwn ddisgyn - y cyfan wrth gynnal safon o ansawdd gyson.



Allwedd

- **Newid % cronnus mewn cost fesul cleient er 2012**
- **Newid % cronnus yn y cleientiaid a helpwyd (Lloegr + Cymru) er 2012**

Gwell gwydnwch ariannol cleientiaid

Dylem bob amser groesawu pobl sy'n ceisio help a chefnogaeth pa bryd bynnag y byddant yn cael eu hunain mewn anhawster ariannol. Ond trwy eu helpu i gymryd rheolaeth ar eu cyllid, gallwn ostwng y debygoliaeth y byddant angen dychwelyd at gyngor ar ddyledion dro ar ôl tro. Rydym eisiau gweld mwy o gleientiaid cyngor ar ddyledion yn derbyn y gefnogaeth y mae ei hangen arnynt i adeiladu eu gwydnwch ariannol hirdymor.

Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i adnabod cyfleoedd i **'gloi' y gefnogaeth hon ar gyfnodau penodol yn siwrneion cyngor ar ddyledion y cleientiaid'**. Gallai hyn gynnwys archwilio'r posibilrwydd o gleientiaid yn derbyn arweiniad wedi'i anelu at wella eu gallu ariannol fel rhan glir i fynd i gytundebau penodol gyda chredydwyr, gan adeiladu ar ddarpariaeth gyfredol y Cynllun Trefniant Dyledion yn yr Alban.

Byddwn yn archwilio'r potensial ar gyfer fforymau **digidol a ffurfiau eraill o grwpiau cyfoedion** ar gyfer darparu cefnogaeth barhaus i gleientiaid sydd wedi derbyn cyngor ar ddyledion. Byddwn hefyd yn cynnal ymchwil i **ddeall yn well pam mae rhai cleientiaid yn fwy tebygol o ddychwelyd at gyngor ar ddyledion** ac a oes patrymau ymddygiad a all helpu i hysbysu gwaith yn y dyfodol.

Pennod 3: mwy o bobl yn cyllidebu ac yn cynilo

Y nod

Nod 3: helpu'r bobl sydd fwyaf wrth risg o siociau incwm i reoli eu harian yn dda o ddydd i ddydd a chynilo mwy.

Mae ein Harolwg Gallu Ariannol 2015 wedi tanlinellu mater cyson sydd wedi'i ddogfennu'n gyffredin: nid oes gan 30% o oedolion oed gweithio unrhyw gynilion o gwbl a dim ond 26% sydd â'r hyn sydd gyfwerth â thri mis o incwm (ar ôl treth).

Gall hyd yn oed swm bach o gynilion gynnig byffer hanfodol yn erbyn siociau ariannol, gan helpu pobl i dalu am gostau annisgwyl ac osgoi defnydd diangen neu amhriodol ar gredyd. Dros amser, gall arfer cynilo rheolaidd fod yn llwybr i gyflawni nodau ariannol a diogelwch ariannol hirdymor.

Trwy'r nod hwn, byddwn yn llunio partneriaeth gyda sefydliadau i gyrraedd oedolion oed gwaith yn y segmentau cwsmeriaid 'mewn trafferth' a 'gwasgedig'. Er y gall pobl ym mhob cyfnod bywyd a segment elwa o gyllidebu a chynilo mwy effeithiol, mae ein nod strategol yn canolbwyntio yn bennaf ar bobl oed gweithio sydd fwyaf wrth risg o siociau incwm ac sydd ar hyn o bryd â diffyg gwydnwch ariannol i'w gwrthsefyll.

Er bod y rhan fwyaf o bobl yn deall mewn egwyddor ei bod hi'n ddymunol cynilo mwy, mae llawer yn teimlo nad oes ganddynt y gallu i wneud hynny gan eu bod eisoes yn profi anhawster i gael dau ben llinyn ynghyd. O ganlyniad, nid ydynt yn ymateb yn dda i negeseuon sy'n syml yn dweud wrthynt fod angen iddynt gynilo mwy.

Dengys tystiolaeth bod pobl yn fwy tebygol o gynilo yn rheolaidd os oes ganddynt agweddau yn canolbwyntio ar y dyfodol neu wedi gosod nodau a chynlluniau penodol i'w hunain. Mae ymchwil i allu ariannol wedi pwysleisio droeon bwysigrwydd byffer cynilion ar gyfer gwydnwch ariannol ac i wella gallu ariannol. Canfu ein dadansoddiad o'r Arolwg Gallu Ariannol 2015 bod 'peidio teimlo bod cyllid o ddydd i ddydd dan reolaeth' yn gweithredu fel rhwystr at gynilo - felly mae newid teimladau pobl tuag at reolaeth, o leiaf ar gyfer grwpiau penodol, yn rhagflaenydd pwysig i ddatblygu byffer cynilion.

Mae barn gron o gyllidebu a chynilo yn cynnwys ystyried rheoli a thalu dyledion. I bobl benodol ar amserau penodol, gallai parhau â dyled fod yn ddefnyddiol; bydd eraill ar eu hennill os ydynt yn talu'r dyledion yn hytrach na blaenoriaethu cynilo. Byddwn yn cysylltu ein negeseuon a dysg yn erbyn y nod hwn gyda phopeth yr ydym yn ei wneud yn y gwaith cyngor ar ddyledion ym mhennod 2.

Er bod nifer o gynlluniau peilot, dulliau a phrosiectau blaenorol wedi ceisio cynyddu'r cyfraddau cynilo, mae'r her o geisio gwerthuso'n effeithiol yr effeithiau y mae'r rhain yn eu cael ar ymddygiadau defnyddwyr yn golygu nad oes unrhyw ffyrdd hawdd nac amlwg o ymgysylltu defnyddwyr â chynilo a chynyddu arferion cynilo. Serch hynny, mae gan lawer o sefydliadau ddiddordeb mewn adnabod datrysiadau. Er enghraifft, mae'r Gymdeithas Fuddsoddi yn ddefnyddiol wedi adnabod catalyddion, eglurder a hygyrchedd fel materion sydd angen mynd i'r afael â hwy i wella diwylliant cynilo'r DU.

Bydd ein gwaith, wrth gwrs, yn ystyried unrhyw ddatblygiadau o'r Adolygiad Marchnad Cynghori Ariannol yn ymwneud â rheolau cyffredinol ar gyfer cynilwyr.

Strategaeth Cyfleoedd Bywyd

Mae cyfle sylweddol i weithio gyda phartneriaid ar draws y Llywodraeth i helpu pobl sydd wrth risg o siociau incwm i gynilo. Ym mis Ionawr 2016, cyhoeddodd y Prif Weinidog ymrwymiad y Llywodraeth i gyhoeddi strategaeth Cyfleoedd Bywyd i amlinellu cynllun clir i ehangu ar gyfleoedd. Fel rhan o Gyllideb 2016, cyhoeddodd y Llywodraeth 'Help i Gynilo', menter gynilo gyfatebol wedi'i hanelu at bobl ar incymau is a fydd yn dod i'r farchnad ar gyfer Ebrill 2018. Trwy'r nod hwn byddwn yn gweithio gyda phartneriaid yn y Llywodraeth ac ar draws y Diwydiant gwasanaethau ariannol i rannu mewnwelediadau a dysg i'w fwydo i 'Help i Gynilo' a gwaith ehangach y Strategaeth Cyfleoedd Bywyd i adeiladu gwydnwch ariannol.

Sicrhau bod cynilo yn fwy hygyrch

Awgryma ymchwil bod modd adeiladu arferion cynilo, a'u cynyddu dros amser, a gallant ostwng lefelau straen a ddaw yn sgil siociau neu anawsterau ariannol. Serch hynny, mae anhawster datod effaith ymyraethau neu ddulliau penodol ar ymddygiad cynilo yn golygu bod y dystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio wrth annog cynilo yn gyfyngedig iawn. Nid oes un llwybr amlwg at lwyddiant.

Er mwyn deall beth fydd yn effeithiol, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i archwilio nifer o wahanol ymdriniaethau i'w gwneud yn haws i'r segmentau 'mewn trafferth' a 'gwasgedig' i gynilo. Mae ein gwaith ar Strategaeth y DU wedi adnabod ymyrraeth gynilo fel bwlch allweddol. Gan hynny bydd profi ymdriniaethau effeithiol tuag at helpu pobl i gynilo yn flaenoriaeth uchaf i ffrwd oedolion oed gweithio'r cyllid £7m i brofi 'yr hyn sy'n gweithio'.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid yn y diwydiant gwasanaethau ariannol a rhanddeiliaid ehangach i **gynllunio ac ymgymryd â chynlluniau peilot o un neu'n fwy o ddulliau sydd wedi'u bwriadu i'w gwneud yn haws i bobl gynilo, gan anelu at gyhoeddi ein canlyniadau a'n dysg erbyn diwedd 2016/17**. Bydd hyn yn cynnwys adeiladu **partneriaethau gyda chyflogwyr**. Gyda'r cyflogwyr hyn, byddwn yn deall galluogwyr a rhwystrau tuag at uchafu ar effeithiolrwydd cynlluniau cynilo yn y gweithle, ac yn archwilio llwybrau mynediad haws i weithwyr sydd wedi'u cymell i gynilo.

Cefnogi hawlwyr Credyd Cynhwysol

Mae'r symudiad i Gredyd Cynhwysol yn cyflwyno newidiadau pwysig i hawlwyr. Bydd yn rhaid i nifer reoli trafodion trwy gyfrif banc am y tro cyntaf ac addasu i daliadau a chyllidebu misol (yn hytrach nag wythnosol)u.

Ochr yn ochr â'r heriau sylweddol hyn, mae cyflwyno Credyd Cynhwysol yn cyflwyno cyfleoedd i brofi ymyraethau sydd wedi'u hanelu at wella gwydnwch ariannol pobl. Trwy integreiddio ymyraethau i wasanaethau ehangach, mae'n debyg y bydd modd cyrraedd mwy o bobl.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i **ddatblygu a phrofi offeryn cyllidebu ar gyfer hawlwyr Credyd Cynhwysol**. Gyda chysylltiad a chefnogaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau byddwn yn peilota'r offeryn hwn mewn canolfannau gwaith, ac yn gwerthuso'i ddefnydd. A byddwn yn parhau i fireinio'r cynnwys hwn i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion hawlwyr.

Bydd hyn yn cynnwys:

- helpu hawlwyr i reoli'r trawsnewidiad i daliadau sengl, misol trwy gyfrifon cyfredol, gan gynnwys gwybodaeth yn ymwneud â Chyfrifon Banc Sylfaenol;
- arweiniad ar olrhain gwariant a blaenoriaethu biliau, megis taliadau rhent;
- a gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ac eraill ar **fewnosod rheolaeth ariannol i'r Youth Obligation** wrth i'r polisi hwn ddatblygu mewn pryd ar gyfer mis Ebrill 2017 ar gyfer hawlwyr Credyd Cynhwysol ifanc.

Pennod 4: gwella mynediad at arweiniad a chyngor

Y nod

Nod 4: llanw bylchau wedi'u hadnabod yn glir yn y tirlun arweiniad a chyngor fel bod pobl yn cael y cymorth y mae ei angen arnynt wrth wneud penderfyniadau ariannol.

Mae miliynau o bobl bob blwyddyn angen help a chyngor i wneud penderfyniadau ariannol da. Mae sicrhau bod pobl yn derbyn yr help y mae ei angen arnynt wedi bod yn her ganolog yn ein gwaith. Fel rhan o gynnig aml-sianel, fe wnaeth ein sianeli gyrraedd gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr a rhoi iddynt y wybodaeth sydd wedi'i chynllunio i'w helpu i ddeall materion ariannol a gwneud penderfyniadau ariannol gwell. Mae'r Llywodraeth bellach wedi gosod egwyddor na fydd gan y corff arweiniad ariannol newydd sianeli uniongyrchol i gyflenwi gwasanaethau, ac ni fydd ganddo frand defnyddwyr - a chan hynny ni fydd yn marchnata ei wasanaethau.

Yn ystod 2016/17, byddwn yn datblygu neu'n newid ein sianeli fel yr amlinellir isod. Byddwn yn dilyn egwyddor allweddol, sef hyd at Ebrill 2018 byddwn yn bodloni galw naturiol sy'n deillio o'n gwasanaethau, ond ni fyddwn yn marchnata ein gwasanaethau i gaffael cwsmeriaid newydd. Mae hyn yn unol â chyfeiriad i'r dyfodol tuag at gorff newydd.

Cynlluniau ar gyfer ein sianeli

Ein gwefan i'r cyhoedd: moneyadviceservice.org.uk/cy

Mae galw naturiol gan filiynau o bobl. Dywed 91% y byddent yn ei ddefnyddio eto. Mae ganddo rôl barhaus wrth fodloni ein hamcanion statudol, felly byddwn yn anelu at gynnal yr un lefel uchel o gysylltiad a bodlonrwydd.

Serch hynny, byddwn yn rhoi stop ar gaffael holl gwsmeriaid taledig ar gyfer y wefan a byddwn yn gostwng yn sylweddol gweithgaredd blog a chyfryngau cymdeithasol. Byddwn hefyd yn cau ein rhaglen farchnata perthynas â'r cwsmer.

Byddwn yn anelu at sicrhau bod pob ymweliad â'r wefan yn ddeniadol, a'n bod yn ei gwneud mor hawdd â phosibl i bob ymwelydd gael mynediad at yr arweiniad y mae ei angen arnynt. Ar sail ein dadansoddiad o'r hyn y mae pobl ei angen ac ar eu hadborth, byddwn yn sicrhau bod ein darpariaeth ddigidol yn fwy perthnasol a hygyrch i bobl yn y segment cwsmeriaid 'gwasgedig'.

Byddwn yn canolbwyntio datblygu cynnwys ar y ddau faes allweddol y mae'r Llywodraeth wedi gofyn i ni weithio arnynt:

- Byddwn yn adeiladu **offeryn i gefnogi derbynyddion Credyd Cynhwysol wrth gyllidebu a chynilo** (gweler pennod 3)
- Yn unol â'n dyletswyddau o dan Reoliadau Cyfrifon Talu 2015 (gweithredu Cyfarwyddeb Cyfrifon Talu Undeb Ewropeaidd), byddwn yn **datblygu offeryn ar-lein i ganiatáu ar gyfer cymhariaeth hawdd rhwng y ffioedd a godir ar gyfer ystod o wasanaethau gan fanciau a darparwyr cyfrifon talu eraill**. (Byddwn hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i gynyddu ymwybyddiaeth o argaeledd Cyfrifon Banc Sylfaenol ymhlith grwpiau anodd eu cyrraedd.)

Byddwn yn parhau i sicrhau bod **cynnwys ar y wefan yn ffeithiol gywir** ac yn hysbysu defnyddwyr am reoliadau sy'n berthnasol i gynnyrch ariannol y gallent eu prynu.

Rhwng popeth, rydym yn amcangyfrif y byddwn, heb wario unrhyw beth ar farchnata, yn dal i wasanaethu 15 miliwn o gysylltiadau â phobl yn ystod 2016/17, o'i gymharu â thua 26 miliwn yr ydym yn ei wasanaethu yn 2015/16.

Tua'r un amser a Datganiad yr Hydref y Canghellor, disgwyliwn y bydd y Llywodraeth yn mynegi barn ar ba gynnwys ac offer fydd yn ffurfio'r sianel hon, a hwyrach y bydd eraill yn cael eu trosglwyddo yn gynhyrchiol i ddarparwyr eraill a all eu cyflwyno o dan eu brand eu hunain. Pan fydd hyn yn hysbys, yn unol â'r rhaglen drawsnewid ehangach i'r corff arweiniad ariannol newydd byddwn yn **dechrau ceisio'r partneriaid cywir i ddarparu cartref i offer a chynnwys.**

Ein gwasanaeth ffôn: 0800 138 0555

Mae gan hyn alw naturiol o tua 105,000 o alwyr y flwyddyn. Mae'n parhau ag argymhelliad defnyddiwr uwch: Dywedodd 93% y byddent yn ei ddefnyddio eto. Byddwn yn **parhau â'n proses ail-gaffael gyfredol, wedi'i chynllunio i ostwng cost pob galwad a chodi ansawdd ein darpariaeth ymhellach.** Bydd gan y cytundeb y byddwn yn ei lofnodi ddyddiad diwedd o Ebrill 2018. Byddwn yn parhau i fesur canlyniadau galwadau trwy arolwg dilyn i fyny sy'n gwirio pa gamau y mae pobl wedi'u cymryd yn ystod y misoedd yn dilyn eu galwadau.

Gwesgwrs ar gael trwy ein gwefan

Rydym yn gweini gwesgyrsiau trwy ein gweithredwyr canolfan gyswllt ffôn ar lefel o tua 35,000 o gwesgyrsiau y flwyddyn. Mae'r galw wedi'i gysylltu â chyfaint ymweliadau â'n gwefan. Byddem yn disgwyl parhau i wasanaethu galw naturiol o tua 24,000 o gwesgyrsiau y flwyddyn yn unol ag ymweliadau â'n gwefan.

Cynghorwyr ariannol wyneb yn wyneb

Yn fersiwn ymgynghorol y Cynllun Busnes hwn, rydym yn cynnig **cau'r gwasanaeth hwn ym mis Hydref 2016 yn unol ag argymhelliad A7 yr Adolygiad Annibynnol,** gan gydnabod bod y gost i gaffael cwsmeriaid a'r gost i'w gwasanaethu ill dau yn uchel. Byddwn yn bwrw ymlaen a'r cynllun hwnnw. Byddwn hefyd yn **buddsoddi arian o'r gronfa'r 'hyn sy'n gweithio' i gyfoethogi gallu rhwydweithiau** cynghorwyr ariannol wyneb yn wyneb cyfredol mewn ffordd sy'n lledaenu ac yn adeiladu tystiolaeth.

Cyhoeddiadau print, gan gynnwys rhai sy'n ofynnol trwy reoliad

Byddwn yn parhau i brofi galw am tua 30 o gyhoeddiadau ar lefel o tua 500,000 o gopïau'r pen o'r diwydiant gwasanaethau ariannol a dosbarthwyr eraill. Byddwn yn parhau â'r rhain yn 2016/17 a byddwn yn trafod eu dyfodol gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol fel rhan o'r trawsnewidiad.

Datblygu ymdriniaeth sy'n llanw'r bylchau

Bydd y newidiadau a amlinellir uchod yn crisialu rhai o'r penderfyniadau y bydd angen eu gwneud cyn 2018. Wrth i ni ail-lunio ein gwasanaeth yn unol ag egwyddorion y corff arweiniad ariannol newydd y dasg fydd cytuno ar:

- pa fylchau arweiniad a fydd yn cael eu gadael heb eu llanw pan fydd y sianeli hyn yn cael eu cau;
- a pha un a oes trydydd partïon a allai lanw'r bylchau hynny - gyda neu heb gymorth gan y corff newydd.

Ochr yn ochr â'r camau di-oed hyn, ac ar y cyd â chynnydd deddfwriaeth yn ymwneud â'r corff arweiniad ariannol newydd sy'n mynd trwy'r Senedd, byddwn yn dechrau datblygu gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol **model comisiynu sy'n darparu ymdriniaeth ar sail tystiolaeth i fylchau arweiniad**, gan edrych nid yn unig ar yr hyn mae ein sianeli ein hunain wedi'u darparu, ond ar anghenion nad ydynt yn cael eu bodloni ar hyn o bryd gan unrhyw ddarparwr neu sianel. Bydd hyn wrth gwrs yn ystyried unrhyw ddatblygiadau o'r Adolygiad Marchnad Cynghori Ariannol, a allai, trwy wneud y ffin cyngor rheoledig yn gliriach, annog diwydiant neu'r trydydd sector i ddarparu mwy o arweiniad.

Bydd ein ffordd o feddwl am gomisiynu arweiniad ariannol hefyd yn manteisio ar yr awgrym yn *Adolygiad Arweiniad Ariannol Cyhoeddus: cynnig i'w ymgynghori* y gallai apiau ffonau clyfar fod yn ddull sylweddol o ymgysylltu a chefnogi defnyddwyr.

Pennod 5: ehangu a gwella addysg ariannol

Y nod

Nod 5: gwella gallu plant a phobl ifanc i reoli eu harian a gwneud penderfyniadau ariannol da.

Mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn eirioli'r farn bod yr hyn y mae pobl yn ei weld, dysgu a phrofi yn ystod plentyndod a'r glasoed yn cael effaith ddwys ar sut y maen nhw'n rheoli eu harian fel oedolion. Os gallwn gefnogi plant a phobl ifanc fel eu bod yn derbyn addysg ariannol sy'n gweithio, bydd hyn yn newid sut y maen nhw'n rheoli eu harian fel oedolion. Trwy osod arferion da o'r dechrau gallwn ostwng yn sylweddol ar debygoliaeth pobl o ddod yn orddyledus ac yn lle hynny eu helpu i flodeuo yn eu rheolaeth ariannol.

Mae agweddau ariannol yn y dyfodol yn cael eu ffurfio yn ifanc, ond ychydig o ymyraethau sydd wedi'u targedu at blant. Mae 17 ac 18 oed yn foment flaenoriaeth arall gan mai dyma'r prif amser ar gyfer dysgu sgiliau ariannol cyn symud i fywyd fel oedolyn. Mae plant a phobl ifanc bregus megis y rhai sy'n gadael gofal, gofalwyr ifanc, pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant[7], a'r rheini y tu allan i addysg prif ffrwd yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan allu ariannol isel, ac fe allai hefyd fod yr anoddaf i ymgysylltu â hwy.

Uchelgais Strategaeth y DU yw i bob plentyn a pherson ifanc dderbyn addysg ariannol sy'n gweithio erbyn 2025. Erbyn 2020 mae partneriaid Strategaeth y DU yn bwriadu gallu diffinio ystod o ymyraethau gyda thystiolaeth eu bod yn gweithio dros yr hirdymor; i'r ymyraethau hyn gael eu huwchraddio; ac ar gyfer model ariannu mwy cynaliadwy i'w sefydlu gyda chyllidwyr cyfredol yn cael eu cefnogi - a chyllidwyr newydd yn ymuno, wedi'u perswadio gan effaith addysg ariannol ar ystod o ganlyniadau i oedolion.

Yn 2016/17 bydd ein gwaith yn canolbwyntio ar ddatblygu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer cyllidwyr a chomisiynwyr ar draws y DU i wneud penderfyniadau gwario hysbys, ehangu ar gyflenwi addysg ariannol trwy ymgysylltu cyllidwyr a darparwyr newydd, a chefnogi'r sector addysg ariannol gyfredol i godi eu heffaith.

Er mwyn gwneud hyn byddwn yn datblygu dealltwriaeth fanylach o'r angen a'r ddarpariaeth gyfredol, datblygu'r sylfaen dystiolaeth o ymdriniaethau effeithiol, cyflenwi rhaglenni meithrin gallu ar gyfer y sector, a chyflenwi rhaglenni allgymorth er mwyn i bartneriaid newydd ymuno.

Bydd ein blaenoriaethau ar gyfer adeiladu'r sylfaen dystiolaeth yn cylchdroi o amgylch cyfuniad o grwpiau targed, negesyddion a chanlyniadau:

- **grwpiau targed**: plant o oed ysgol gynradd, rhai 16- i 17 oed a phlant a phobl ifanc bregus
- **negesyddion**: rhieni, ac ysgolion / athrawon
- **canlyniadau**: agweddau ariannol, sgiliau ariannol, a chanlyniadau eraill megis cyrhaeddiad addysgiadol a chyflogadwyedd.

Mae gennym ddiddordeb mewn arbrofi a modelau y gellid eu cyflwyno ar raddfa.

Dengys tystiolaeth mai rhieni yw'r prif ddylanwad wrth i allu ariannol ddatblygu. Mae cyswllt rhieni hefyd yn cynnig cyfle i newid ymddygiad ariannol oedolion trwy ddefnyddio plant fel y negesydd.

7. Person ifanc 'Nad yw mewn Addysg, Cyflogaeth, na Hyfforddiant'.

Mae ysgolion a cholegau yn cynnig cyfle i gyrraedd nifer fawr o blant a phobl ifanc ar raddfa. Er bod addysg ariannol yn ymddangos mewn graddau amrywiol trwy wahanol gwricwla ar draws y DU, mae gwerthusiadau o effeithlonrwydd addysg ariannol mewn ysgolion hyd yma wedi bod yn gymysg, ac mae ysgolion prysur angen achos nerthol dros pam a sut y dylent gyflenwi addysg ariannol, yn wyneb llawer o alwadau eraill sy'n cystadlu. Yng ngoleuni pwysau ar amser a sylw yr ydym yn eu hwynebu wrth i ni greu achos dros addysg ariannol mewn ysgolion, mae'r amrywiaeth gynyddol o gyllid a rheolaeth yn y sector ysgolion yn cynnig heriau ychwanegol, ond hefyd cyfleoedd.

Deall effaith hirdymor addysg ariannol

Byddwn yn adeiladu ein Harolwg Gallu Ariannol ledled y DU ein hunain gan **arolygu 6,000 o'r rhai rhwng 4 a 17 oed a rhieni**. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod gennym sylfaen dystiolaeth ystadegol gadarn ac yn ein helpu ni i ddeall yn fanylach y ffactorau sy'n effeithio ar allu ariannol. Byddwn yn dilyn i fyny gyda'r rhai 16 i 17 oed mewn blwyddyn i ddeall pa benderfyniadau ariannol y maen nhw'n eu gwneud a pha un a fyddai'r gallu ariannol a oedd ganddynt flwyddyn yn ôl wedi rhagweld hyn.

Byddwn yn cynnal **dadansoddiad manwl gan ddefnyddio Astudiaeth Carfan Prydain 1970**[8] i sicrhau mewnwelediad cyfoethog i'r pwyntiau am bryd y mae gwahanol sgiliau gwybyddol ac anwybyddol yn dechrau gwneud gwahaniaeth hirdymor i ymddygiad ariannol oedolion, a pha sgiliau a allai fod yn bwysicach nac eraill. Bydd hyn yn galluogi i'r sector deilwra ymyraethau i gynnwys y sgiliau sydd bwysicaf ar wahanol oedrannau, a hefyd ffurfio'r sylfaen ar gyfer cyfrifo budd cymdeithasol ac economaidd addysg ariannol.

Yn 2015/16 fe wnaethom ddechrau **'Siarad, Dysgu, Gwneud'**, cynllun peilot rhianta mawr tair blynedd o hyd gyda'r Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Rhaglen Cysylltiadau Teuluol: Magu Teulu a'r Blynyddoedd Rhyfeddol. Yn ystod 2016/17 byddwn yn **ehangu ar y rhaglen hon i ysgolion ac yn cynnwys mwy o awdurdodau lleol**. Mae'r cynllun peilot yn anelu at ddeall effaith hirdymor helpu rhieni i adeiladu addysg ariannol i'w gweithgareddau bob dydd gyda'u plant. Bydd yn dilyn teuluoedd flwyddyn ar ôl cynnal yr ymyrraeth ac yn mesur unrhyw newidiadau yng ngallu ariannol y plentyn a'r rhiant.

Cydlynu addysg ariannol mewn ysgolion

Eleni, mewn ymateb i argymhelliad gan yr Adolygiad Annibynnol, fe wnaeth y Gwasanaeth Cynghori Ariannol gymryd cyfrifoldeb dros gydlynu addysg ariannol mewn ysgolion ar draws Lloegr. Yn y gwledydd datganoledig byddwn yn parhau i weithio gydag adrannau addysg i gefnogi ymdriniaeth wedi'i chyd-drefnu tuag at addysg ariannol.

Mewn partneriaeth gyda'r Sefydliad Gwaddol Addysgol (EEF) byddwn yn **ariannu prawf rheoledig ar hap o'r rhaglen 'Maths in Context' Menter yr Ifanc**.
Bydd y prawf hwn yn cynnwys 10,000 o ddisgyblion mewn 130 o ysgolion yn Lloegr a bydd yn cynhyrchu'r dystiolaeth gadarnaf hyd yma o effaith ymyrraeth addysg ariannol yn y DU.

Byddwn yn **adnabod cyfleoedd i godi proffil addysg ariannol ar draws y DU ac i ennyn diddordeb athrawon i gynnal eu harbrofion eu hunain yn yr ystafell ddosbarth**, gan gynnwys trwy gyflwyno yn y Gynhadledd Genedlaethol ResearchEd ym mis Medi. Mae ResearchED yn rhwydwaith poblogaidd wedi'i arwain gan athrawon i athrawon sydd â diddordeb mewn ymchwil, ac yn denu dros 1,000 o fynychwyr o bob cwr o'r DU ac yn rhyngwladol.

8. Mae Astudiaeth Carfan Prydain 1970 (BCS70) yn dilyn bywydau mwy na 17,000 o bobl a aned yng Nghymru, Lloegr a'r Alban o fewn un wythnos yn 1970. Yn ystod hynt bywydau aelodau'r garfan, mae BCS70 wedi casglu gwybodaeth ar ddatblygiadau iechyd, corfforol, addysgiadol a chymdeithasol, ac amgylchiadau economaidd ymhlith ffactorau eraill. Rheolir y BCS70 gan CLS ac ariannir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.

Byddwn yn parhau i **ariannu a chefnogi'r ymchwiliad gan y Grŵp Seneddol Trawsbleidiol (APPG) ar Addysg Ariannol** i weithredu addysg ariannol mewn ysgolion (yn canolbwyntio ar ysgolion yn Lloegr). Mae disgwyl cyhoeddi'r adroddiad hwn ar ddiwedd mis Mai 2016 a byddwn yn gweithio'n agos gyda'r APPG i gefnogi gweithredu argymhellion yr ymchwiliad.

Byddwn yn gweithio gyda Menter yr Ifanc i **adeiladu gwerthusiad i'r broses marc ansawdd pfeg**. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl ddarparwyr adnoddau sy'n ceisio sicrhau'r nod ansawdd yn cael eu cefnogi gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol i ddatblygu cynllun theori newid a gwerthuso, ac ni fydd yn derbyn nod ansawdd oni bai ei fod wedi bodloni'r gofynion hyn. Bydd ailasesiad ar gyfer adnewyddu'r nod ansawdd, bob dwy flynedd, yn cynnwys adolygu sut y mae canfyddiadau gwerthuso wedi'u hystyried wrth ddatblygu adnoddau. Dylai hyn helpu i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth, annog darparwyr i ddysgu o dystiolaeth, a bydd yn cynnwys gwerthuso tua 45 o adnoddau'r flwyddyn.

Helpu eraill i gynyddu eu heffaith

Yn ystod 2015/16 rydym wedi cynnal cyfres o uwchgynadleddau sy'n dwyn ynghyd prif gyllidwyr mentrau addysg ariannol. Mae cyllidwyr wedi gofyn inni gymryd rôl arweinyddiaeth wrth fonitro a dadansoddi darpariaeth gyfredol er mwyn argymell bylchau cyflenwi blaenoriaeth. Yn 2016/17 byddwn yn dechrau **casglu data yn fwy systematig gan gyllidwyr a darparwyr**, a byddwn yn rhannu'r dadansoddiad hwn trwy arweiniad ar gyfer llofnodwyr IMPACT, y Grwpiau Llywio Strategaeth y DU perthnasol a sianeli eraill. Bydd y data y byddwn yn ei gasglu yn cynnwys gwybodaeth am gyrhaeddiad, poblogaethau targed, canlyniadau bwriadedig, a dulliau cyflenwi.

Byddwn yn parhau â rhaglen o waith i **helpu darparwyr nid-er-elw i adeiladu eu gallu gwerthuso mewnol**. Bydd y pecyn cymorth hwn yn galluogi i ddarparwyr fesur yn fwy cyson effaith eu hymyraethau a defnyddio'r mewnwelediad hwn i wella effeithlonrwydd eu darpariaeth.

Mae cyrraedd plant a phobl ifanc fregus yn gofyn am ystyriaeth arbennig, oherwydd efallai nad trwy ymyraethau sy'n cael eu cynnal trwy lwybrau traddodiadol ysgolion, colegau, neu trwy eu rhieni yw'r ffordd gorau o'u gwasanaethu. Trwy ddatblygu perthnasau â'r sector plant a phobl ifanc ehangach, byddwn yn **gwella dealltwriaeth o'r anghenion addysg ariannol unigryw a'r rhwystrau y mae plant a phobl ifanc fregus yn eu hwynebu yn benodol**. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i adnabod bylchau yn y ddarpariaeth, sicrhau bod ymyraethau yn ymateb i'r anghenion hyn yn effeithiol, ac i hysbysu gwaith yn y dyfodol gyda gwasanaethau statudol lleol i feithrin gallu ariannol i mewn i wasanaethau ac ymyraethau perthnasol, megis timau o amgylch y teulu, a gwasanaethau cyfwerth yng Ngogledd Iwerddon, Yr Alban a Chymru.

Yn olaf, byddwn yn gweithio gyda darparwyr, buddsoddwyr cymdeithasol a chyfyngwyr i **ymchwilio i ba un a ellid defnyddio modelau ariannu arloesol, megis Bondiau Effaith Cymdeithasol**, i ariannu a graddio ymyraethau addysg ariannol yn fwy cynaliadwy.

Effaith a chyllidebau

Pennod 6: mesur ein heffaith

Ein nod yn y pendraw yw effeithio ar allu ariannol miliynau ar filiynau o bobl ar draws poblogaeth y DU. Disgwyliwn i'r nod hwn gael ei rannu gan y corff arweiniad ariannol newydd. Gan hynny, rydym wedi rhannu ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn dri math gwahanol:

- y rheini sydd eisoes yn mesur **effaith ar ddefnyddwyr ar raddfa (I)**
- y rheini sy'n cynrychioli **camau allweddol ar y ffordd (S)** tuag at effeithio ar ddefnyddwyr ar raddfa; fe allai'r rhain fod o gymorth i'r corff arweiniad ariannol newydd wrth ffurfio ei Ddangosyddion Perfformiad Allweddol yn y dyfodol
- a mesurau dirprwyol parhaus ar gyfer **ansawdd neu ddylanwad (Q)**.

Nod	Rhif	Math	Dangosydd Perfformiad Allweddol	Sylwadau
Nod 1: cyflenwi trwy eraill	1.1	S	**Ar gyfer pob un o'r 10 thema yn y Strategaeth Gallu Ariannol ar gyfer y DU, byddwn yn cytuno ar flaenoriaethau gyda'r Grŵp Llywio perthnasol ac yn sefydlu cynllun gweithredu gydag atebolrwydd clir, gan gynnwys cynllunio a chyflenwi cynlluniau peilot.**	Mae'r grwpiau llywio wedi'u cynllunio i yrru ymlaen blaenoriaethau effaith ar y cyd o'r Strategaeth Gallu Ariannol ar gyfer y DU o fewn meysydd penodol. Er mwyn cyflawni'r Dangosydd Perfformiad Allweddol hwn bydd yn rhaid i ni lywodraethu yn llwyddiannus, rhoi tystiolaeth i grwpiau llywio, ac annog partneriaid i ymrwymo.
	1.2	S	**Byddwn yn cynnal ac yn ehangu ar y Ganolfan Dystiolaeth, felly erbyn yr Hydref 2016 byddwn yn cynnwys mathau eraill o werthuso ac ymchwil - a hynny'n ansoddol ac yn feintiol - ynghyd â gwerthusiad effaith meintiol.**	Y Ganolfan Dystiolaeth yw'r dull hanfodol ar gyfer lledaenu'r mewnwelediad a'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y gweithgareddau uchod.
	1.3	Q	**Bydd o leiaf 30 o sefydliadau (cyllidwyr/darparwyr) yn cytuno i ddefnyddio Egwyddorion IMPACT.**	Mae egwyddorion IMPACT yn ymrwymo sefydliadau i adeiladu a rhannu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. Trwy sicrhau bod casgliad critigol o sefydliadau yn gwneud hyn yn 2016/17 byddwn yn gosod seiliau cadarn ar gyfer ymyraethau gallu ariannol yn y dyfodol.
	1.4	S	**Bydd o leiaf 50 o brosiectau cyflenwi yn defnyddio'r fframweithiau canlyniadau neu becynnau offer gwerthuso.**	Mae'r fframweithiau canlyniadau a'r pecynnau offer gwerthuso yn cynnig ffyrdd o fesur llwyddiant wrth newid gallu ariannol sy'n gyson ac y gellir eu rhannu rhwng sefydliadau ar gyfer dysgu ar y cyd. Trwy sicrhau bod casgliad critigol o brosiectau yn defnyddio'r rhain gallwn adeiladu tystiolaeth ar y Ganolfan Dystiolaeth.

Nod	Rhif	Math	Dangosydd Perfformiad Allweddol	Sylwadau
Nod 2: mynediad cynt ac ehangach at gyngor ar ddyledion	2.1	I	**Bydd 425,000 o bobl yn cael mynediad at ein cyngor ar ddyledion ar draws y DU.**	Bydd hyn yn gynnydd o 15% ar ein niferoedd 2015/16 ar gyfer sesiynau cyngor ar ddyledion a ariennir.
	2.2	Q	**Bydd 90% o bobl sy'n cael mynediad at ein cyngor ar ddyledion a ariennir ar draws y DU yn cymryd camau i ddelio â'u dyledion.**	Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn cynnal ansawdd a'r effaith ar gyfer pob unigolyn ar yr un pryd ag ehangu ar y cyrhaeddiad.
	2.3	S	**Byddwn yn casglu tystiolaeth glir o bwyntiau sbardun a all arwain at orddyledusrwydd a chytuno ar ddulliau i ymgysylltu â phobl gyda chyngor ar ddyledion.**	Mae hon yn gam ar y ffordd tuag at ymgysylltu cynnar cynyddol pellach, sy'n nod strategol allweddol.
	2.4	S	**Byddwn yn gosod gwaelodlin ar gyfer y ganran gyfredol o bobl y mae eu gallu ariannol wedi gwella ar ôl derbyn ein cyngor ar ddyledion a ariennir, a chynnig cynnydd o ran canran.**	Uchelgais pum mlynedd o hyd y Grŵp Llywio Cyngor ar Ddyledion yw, erbyn 2020, dyblu nifer y bobl y mae eu gallu ariannol wedi gwella ar ôl derbyn cyngor ar ddyledion. Mae hwn yn gam ar y ffordd tuag at y nod hwnnw.
	2.5	S	**Ar sail ein dealltwriaeth o'r gyfradd drachefn ar gyfer cleientiaid cyngor ar ddyledion byddwn yn datblygu ac yn adnabod lefel a chyfeiriad newid priodol.**	Mae hyn yn adeiladu ar ein hymrwymiadau 2015/16, ac yn adlewyrchu'r nodau yr ydym yn gweithio arnynt gyda phartneriaid cyngor ar ddyledion
	2.6	I	**Byddwn yn codi cyfran y bobl orddyledus sy'n ceisio cyngor ar ddyledion (ar draws y sector dyledion) o 17% i 20%.**	Mae hyn yn adeiladu ar ein hymrwymiadau 2015/16, ac yn adlewyrchu'r nodau yr ydym yn gweithio arnynt gyda phartneriaid cyngor ar ddyledion.
Nod 3: mwy o bobl yn cyllidebu ac yn cynilo	3.1	S	**Byddwn yn cynnal profion o negeseuon a/neu beilota profion 'yr hyn sy'n gweithio', wedi'i deilwra ar gyfer y segmentau 'mewn trafferth' a 'gwasgedig', i annog cynilo a chyllidebu sy'n briodol i bob segment.**	Rydym yn cydnabod y bydd pobl mewn gwahanol amgylchiadau bywyd yn ymateb i negeseuon gwahanol; bydd y Dangosydd Perfformiad Allweddol hwn yn sicrhau bod gennym ymdriniaeth brofedig ar gyfer pob segment.
	3.2	S	**Byddwn yn datblygu ac yn defnyddio'n llwyddiannus offeryn cyllidebu ar gyfer hawlwyr Credyd Cynhwysol.**	Bydd Credyd Cynhwysol yn cyrraedd mwy na 11m o bobl ar ôl ei gyflwyno'n llawn. Mae'n bwysig felly ein bod ni'n datblygu, profi ac yn gwella'r offeryn yn 2016/17.

Nod	Rhif	Math	Dangosydd Perfformiad Allweddol	Sylwadau
Nod 4: gwella mynediad at gyngor	4.1	Q	**Bydd o leiaf 60% o'n cwsmeriaid ffôn wedi cymryd camau (yn llawn neu'n rhannol) o ganlyniad i arweiniad ariannol.**	Bydd hyn yn sicrhau bod ein sianel ffôn wedi'i hanelu tuag at helpu pobl i wneud y penderfyniadau ariannol y mae angen iddyn nhw eu gwneud.
	4.2	S	**Byddwn yn gosod gwaelodlin i'r graddau y mae pobl yn ystyried eu hunain yn gallu cael mynediad at gyngor am ddim neu fforddiadwy i gefnogi penderfyniadau ariannol.**	Rydym yn ystyried hyn yn gonglfaen pwysig yn y sylfaen dystiolaeth sy'n ofynnol i bennu ble y mae bylchau i'w llanw.
	4.3	Q	**Byddwn yn cynnal boddhad cwsmeriaid ein cwsmeriaid ffôn ar lefel o 88%.**	Mae hyn yn adlewyrchu'r metrig 'Cwsmeriaid yn cytuno y byddent yn argymell y gwasanaeth i eraill'. Mae'n monitro perthnasedd a defnyddioldeb y gwasanaeth.
Nod 5: ehangu a gwella addysg ariannol	5.1	I	**Bydd 1m o blant a phobl ifanc yn cael eu gwasanaethu gan ymyraethau y mae eu sefydliadau cyflenwi wedi cofrestru ar gyfer egwyddorion IMPACT.**	Mae egwyddorion IMPACT yn ymrwymo sefydliadau i adeiladu a rhannu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. Trwy sicrhau bod tyrfa gritigol o blant yn cael eu gwasanaethu gan sefydliadau sy'n ymrwymo i'r egwyddorion hyn, byddwn yn cefnogi effaith a chyrhaeddiad gwell.
	5.2	S	**Byddwn yn cefnogi/ariannu gwerthuso o leiaf dau brawf rheoli mawr o addysg ariannol.**	Byddai 'profion rheoli mawr' yn golygu ar raddfa sy'n cynnwys grwpiau cymharu dilys yn ystadegol ar gyfer plant nad ydynt yn derbyn yr ymyrraeth, sef safon casglu tystiolaeth a osodir gan y Sefydliad Gwaddol Addysgol yr ydym yn gweithio â hwy.
	5.3	S	**Byddwn yn cefnogi o leiaf 10 prosiect gyda gwerthuso eu darpariaeth gallu ariannol i blant a phobl ifanc.**	Gan fod gwerthuso yn brin ar hyn o bryd yn y maes plant a phobl ifanc, bydd cyflawni hyn yn 2016/17 yn cyfoethogi yn fawr ar y sylfaen dystiolaeth.

Pennod 7: crynodeb adnoddau 2016/17

Mae'r bennod hon yn rhoi dadansoddiad o gyfanswm cyllideb y Gwasanaeth Cynghori Ariannol ar gyfer 2016/17, a chymhariaeth yn erbyn cyllideb 2015/16. Ariennir arweiniad ariannol a chyngor ar ddyledion y Gwasanaeth gan drethi ar wahân ar y diwydiant gwasanaethau ariannol; gan hynny rydym yn paratoi cyllidebau ar wahân ar gyfer pob un.

	2015/16	2016/17	Symudiad
Cyfanswm Cyllideb Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol	£81.1m	£75.0m	(£6.1m)
Cyllideb cyngor ariannol	£34.1m	£30.0m	(£4.1m)
Cyllideb cyngor ar ddyledion	£47.0m*	£45.0m	(£2.0m)*

** Yn cynnwys cyfraniad unigryw o £2.0m gan gwmnïau cyfleustodau tuag at ariannu cyngor ar ddyledion, a £3.8m fel cost unigryw tuag at effeithiau posibl ar gleientiaid sydd wedi'u heffeithio gan newidiadau i'r farchnad rheoli dyledion wedi'i yrru gan reoliad newydd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn y sector.*

Mae'r gyllideb gyffredinol ar gyfer 2016/17 wedi'i gostwng gan 7.5%, o'i chymharu â'n Cynllun Busnes 2015/16, gyda'n cyllideb cyngor ariannol wedi'i gostwng gan 12% (a 30% yn gyffredinol ers cyhoeddi'r Adolygiad Annibynnol).

Serch hynny, rydym wedi cynyddu cyllid cyngor ar ddyledion rheng flaen gan £0.6m ac, ar ôl cyhoeddi canlyniadau ein hadolygiad diweddaraf o orddyledusrwydd, mae data daearyddol cyfoethog i'n helpu ni i gyfeirio cyllid tuag at y meysydd o'r angen mwyaf.

Yn 2015/16 fe wnaethom glustnodi cyllideb ar ben ein cyllid cyngor ar ddyledion prif ffrwd i gefnogi cleientiaid sydd wedi'u heffeithio gan newidiadau wrth reoleiddio cwmnïau rheoli dyledion. Yn 2016/17 ein hymdriniaeth fydd ariannu cefnogaeth o'r fath ar gyfer cleientiaid sydd wedi'u heffeithio o'n harian wrth gefn cyngor ar ddyledion, os oes angen.

Mae gostwng ein cyllideb cyngor ariannol wedi'i gyflawni trwy atal ein gwariant marchnata (yn unol ag argymhelliad Adolygiad Annibynnol A10), datgomisiynu arweiniad ariannol wyneb yn wyneb (yn dilyn argymhelliad A7) a thrwy ostyngiad o 20% targedig ar ein costau gwasanaethau digidol a chymorth.

Ffigwr 12 - Cyllideb Cynghori Ariannol 2016/17



Allwedd

- Arweinyddiaeth strategaeth gallu ariannol
- 'Yr hyn sy'n gweithio': cynlluniau peilot, profi a dysgu
- Cyflenwi trwy sefydliadau eraill
- Gwasanaethau uniongyrchol
- Cyfathrebu
- Cefnogaeth swyddfa gefn
- Bwrdd ac arweinyddiaeth weithredol

Ffigwr 13 - Cyllidebau Cyngor ar Ddyledion 2016/17



Allwedd

- Ariannu cyngor ar ddyledion ar gyfer Cymru a Lloegr
- Ariannu cyngor ar ddyledion ar gyfer yr Alban
- Ariannu cyngor ar ddyledion ar gyfer Gogledd Iwerddon
- Cefnogaeth ail haen ar gyfer dysgu, hyfforddi ac anghenion arbenigol
- Polisi ac ymchwil
- Cyd-drefnu, safonau ac ansawdd
- Cefnogaeth swyddfa gefn

Cyllideb ar gyfer cyngor ariannol *Mae'r holl ffigurau yn yr £000au*	Sylwebaeth	*Ymdrinnir â Nod 2 o dan y dreth cyngor ar ddyledion ar y tudalennau a ganlyn*							
		Cyllideb 2015/16	Amryw-iant	Cyllideb 2016/17	Costau cyffredinol a gorbenion	Nod 1	Nod 3	Nod 4	Nod 5
Strategaeth									
Cyfanswm y strategaeth	Dadansoddi ac ymchwil ar broblemau defnyddwyr; cyd-drefnu'r sector trwy lywodraethu a chyfathrebu	*1,710*	*15*	**1,725**	-	**898**	**262**	**208**	**357**
'Yr Hyn sy'n Gweithio'									
Peilota ymyraethau	Peilota a gwerthuso ymyraethau newydd posibl i bennu eu heffaith a lledaenu tystiolaeth o'r 'hyn sy'n gweithio'	*960*	*6,152*	**7,112**	-	5,540	370	620	582
Tystiolaeth a gwerthusiad	Monitro a deall llwyddiant ymyraethau gallu ariannol trwy gasglu, gwerthuso a lledaenu tystiolaeth o effaith ar y cyd	*3,591*	*(673)*	**2,918**	-	935	162	212	1,609
Cyfanswm yr 'hyn sy'n gweithio'		*4,552*	*5,478*	**10,030**	-	**6,475**	**532**	**832**	**2,191**
Cyflenwi trwy eraill									
Cyd-drefnu	Cyd-drefnu cynghreiriau strategol i gyflawni nodau gallu ariannol, heb ymyrraeth uniongyrchol	*1,000*	*1,750*	**2,750**	203	179	1,042	1,184	142
Comisiynu	Comisiynu eraill i gynnal gwaith gallu ariannol, gan alluogi iddynt gyfoethogi eu graddfa a'u gwasanaethau	-	*355*	**355**	-	101	101	153	-
Cyfanswm cyflenwi trwy eraill		*1,000*	*2,105*	**3,105**	**203**	**280**	**1,143**	**1,337**	**142**

Mae costau staff wedi'u cynnwys o fewn pob eitem llinell cyllideb uchod.

Cyllideb ar gyfer cyngor ariannol *Mae'r holl ffigurau yn yr £000au*	Sylwebaeth	*Ymdrinnir â Nod 2 o dan y dreth cyngor ar ddyledion ar y tudalennau a ganlyn*							
		Cyllideb 2015/16	Amryw-iant	Cyllideb 2016/17	Costau cyffredinol a gorbenion	Nod 1	Nod 3	Nod 4	Nod 5
Ymgysylltiad cwsmeriaid									
Gwasanaethau oddi ar-lein	Darparu gwasanaethau oddi ar-lein a weithredir gan gynghorydd a chefnogi gwasanaethau gwesgwrs ac e-bost, ynghyd â chostau wyneb yn wyneb hyd at ddiwedd mis Medi 2016	*6,852*	*(1,572)*	**5,280**	-	-	-	5,280	-
Isadeiledd digidol	Cynnal gwefan, profiad defnyddiwr, profi, cynnal a chadw a datblygu cynnyrch	*4,282*	*(429)*	**3,853**	-	-	1,586	2,267	-
Marchnata	Caffael cwsmeriaid trwy amryw ddulliau gan gynnwys marchnata peiriant chwilio	*8,838*	*(8,838)*	**-**	-	-	-	-	-
Arweiniadau print	Cynhyrchu, argraffu, storio a dosbarthu arweiniadau print sy'n rhoi arweiniad ariannol	*350*	*50*	**400**	-	-	-	400	-
Cyfanswm ennyn diddordeb cwsmeriaid		***20,322***	***(10,789)***	**9,533**	**-**	**-**	**1,586**	**7,947**	**-**
Cyfathrebu corfforaethol									
Cyfanswm cyfathrebu corfforaethol	Ennyn diddordeb rhanddeiliaid, cyfathrebu mewnol a chyhoeddi ymchwil gallu ariannol	***945***	***(15)***	**930**	**930**	**-**	**-**	**-**	**-**
Gwasanaethau cymorth									
Cyfanswm gwasanaethau cymorth	Cyflenwi cyllid, Adnoddau Dynol, rheoli prosiect, caffael a gwybodaeth a thechnolegau cyfathrebu	***4,476***	***(1,868)***	**2,608**	**2,608**	**-**	**-**	**-**	**-**
Cyfanswm costau trawsnewid		**-**	***1,000***	**1,000**	**1,000**	**-**	**-**	**-**	**-**
Bwrdd ac arweinyddiaeth weithredol									
Cyfanswm bwrdd ac arweinyddiaeth weithredol	Tîm a chefnogaeth weinyddol bwrdd ac arweinyddiaeth weithredol	***1,100***	***(31)***	**1,069**	**1,069**	**-**	**-**	**-**	**-**
Prif gyfanswm		***34,105***	**(4,105)**	**30,000**	**5,810**	**7,653**	**3,523**	**10,324**	**2,690**

Mae costau staff wedi'u cynnwys o fewn pob eitem llinell cyllideb uchod.

Nod 2: Cyllideb Cyngor ar Ddyledion 2016/17	Sylwebaeth	Cyllideb 2015/16 £000	Amryw-iad £000	Cyllideb 2016/17 £000
Cyflenwi rheng flaen				
Lloegr a Chymru	Ariannu ar gyfer darparu cyngor ar ddyledion i bobl yng Nghymru a Lloegr	*35,122*	*179*	**35,301**
Yr Alban	Ariannu ar gyfer darparu cyngor ar ddyledion i bobl yn yr Alban	*2,756*	*-*	**2,756**
Gogledd Iwerddon	Ariannu ar gyfer darparu cyngor ar ddyledion i bobl yng Ngogledd Iwerddon	*811*	*202*	**1,013**
Effeithio ar gleientiaid	Bodloni anghenion cleientiaid sydd wedi'u heffeithio gan newidiadau unigryw yn y farchnad rheoli dyledion ffigurau 2016/17 yn tybio bod holl gyllideb 2015/16 wedi'i defnyddio yn ystod y flwyddyn	*3,800*	*(3,800)*	**-**
Archwiliad ar gyfer prosiectau a ariennir	Gwaith sicrwydd	*-*	*50*	**50**
Cyfanswm cyflenwi rheng flaen		***42,489***	***(3,369)***	**39,120**
Cefnogaeth ail haen				
Cefnogaeth arbenigol	Ariannu i gefnogi darpariaeth ar gyngor arbenigol i gynghorwyr dyledion y sector nid-er-elw	*836*	*20*	**856**
Action on hearing loss	Gwasanaeth ar gael i gynghorwyr dyledion a ariennir gan grant i alluogi darparu cyngor i bobl sy'n drwm eu clyw	*55*	*3*	**58**
Llinell iaith	Gwasanaeth ar gael i gynghorwyr dyledion a ariennir gan grant i alluogi darparu cyngor i'r rheini na allant siarad Saesneg	*110*	*(17)*	**93**
Hyfforddi	Darparu hyfforddiant i gynghorwyr dyledion a ariennir gan grant	*200*	*(15)*	**185**
Achrediad cyn dysgu	Ariannu i achredu dysgu cynghorwyr yn erbyn fframwaith ansawdd	*155*	*(155)*	**-**
Meithrin gallu (cyflawni safonau)	Ariannu i alluogi i'n partneriaid cyflenwi weithredu newidiadau i gydymffurfio â'r safonau newydd	*100*	*(100)*	**-**
Ymgyrch ymwybyddiaeth	Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu cysylltiad gyda chyngor ar ddyledion am ddim	**-**	*500*	**500**
Cyfanswm cefnogaeth ail haen		***1,456***	***236***	**1,692**
Polisi ac ymchwil				
Cyfanswm polisi ac ymchwil	Gwaith ymchwil gan gynnwys symptomau o ddyledion argyfwng ac effeithiolrwydd gwahanol ddatrysiadau dyledion.	***987***	***258***	**1,245**

Mae costau staff wedi'u cynnwys o fewn pob eitem llinell cyllideb uchod.

Nod 2: Cyllideb Cyngor ar Ddyledion 2016/17	Sylwebaeth	Cyllideb 2015/16 £000	Amryw-iad £000	Cyllideb 2016/17 £000
Cyd-drefnu cyngor ar ddyledion				
Adolygiad cyfoedion	Proses adolygu cyfoedion newydd ar gyfer cynghorwyr dyledion ac arfer gorau	*543*	*317*	**860**
Achrediad	Cynnal safonau a chodau cyfredol a datblygu hyfforddiant a chymwysterau	*423*	*16*	**439**
Dilysu gwybodaeth	Cynnal, cefnogaeth dechnegol a diweddaru llwyfan	-	*219*	**219**
Offer MAT	Gweinyddu Datganiad Ariannol Safonol	-	*75*	**75**
Cyn ôl-ddyledion	Cynnal cynlluniau peilot ac arbrofion	-	*100*	**100**
Offer cyd-drefnu'r sector	Offeryn Asesu Cychwynnol Cyffredin; rhannu gwybodaeth gallu ariannol gan gynnwys Fframwaith Gwerthuso; Offeryn Lleoli Cyngor ar Ddyledion; Canolfan rhannu gwybodaeth	*225*	*(125)*	**100**
Integreiddio gallu ariannol	Darparu gallu ariannol ar ôl i bobl dderbyn cyngor ar ddyledion	*199*	*(149)*	**50**
Digwyddiadau a chyfreithiol		-	*100*	**100**
Cyfanswm cyd-drefnu		***1,390***	***553***	**1,943**
Costau canolog a gorbenion				
Cyfanswm costau canolog a gorbenion	Cyflenwi systemau TG a data, cyfleusterau, caffael, Adnoddau Dynol a chyllid	***612***	***388***	**1,000**
Prif gyfanswm		***46,934***	***(1,934)***	**45,000**
Treth cyngor ar ddyledion	***Net o'r cyfraniadau gwirfoddol tuag at ddarparu Cyngor ar Ddyledion gan gwmnïau cyfleustodau ynni a dŵr***	**44,934**	**66**	***45,000***

Mae costau staff wedi'u cynnwys o fewn pob eitem llinell cyllideb uchod.

Y cenhedloedd datganoledig – sut y byddwn yn gwneud gwahaniaeth ar draws y DU

Rhwng yn awr a 2018 rydym yn ymrwymedig i weithio gyda llywodraethau'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, a chyda ystod eang o randdeiliaid yn y cenhedloedd datganoledig, i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth effeithiol sy'n ategu at eu gwaith ac yn ychwanegu gwerth gwirioneddol, gan gydnabod yr amgylchedd deddfwriaethol a pholisi gwahanol. Rydym hefyd yn ymrwymedig i sicrhau bod gwersi sy'n cael eu dysgu o weithio gyda gweinyddiaethau datganoledig yn cael eu hystyried wrth lunio cylch gwaith ar gyfer y corff arweiniad ariannol newydd.

Mae gennym strwythur cynrychioli, llywodraethu ac atebolrwydd tebyg ar gyfer pob gwlad ddatganoledig:

- Mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn cyflogi rheolwr gwlad parhaol ar gyfer pod cenedl ddatganoledig sy'n gyfrifol am ddatblygu'r Gwasanaeth yno a rheoli perthnasau gyda rhanddeiliaid allweddol.
- Mae'r rheolwyr gwledydd hyn yn cael eu cefnogi gyda Chyfarwyddwr Gweithredol sydd ym mhob achos yn sicrhau bod y cenhedloedd datganoledig yn cael eu cynrychioli ar lefel Bwrdd a bod eu materion ac ystyriaethau penodol yn cael eu hystyried ym mhob un o gynlluniau'r Gwasanaeth.
- Rydym hefyd wedi sefydlu Fforwm Gwasanaeth Cynghori Ariannol ar gyfer pob un o'r cenhedloedd datganoledig, gan ddwyn ynghyd rhanddeiliaid allweddol ar draws sectorau perthnasol i rannu mewnwelediadau ac i hysbysu cynlluniau i'r dyfodol.

Pennod 8: Gogledd Iwerddon

Cyflenwi trwy eraill yng Ngogledd Iwerddon

Mae gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol Fforwm weithredol o randdeiliaid allweddol yng Ngogledd Iwerddon yn cydweithio i ddeall, mapio a gwella gweithgaredd i gefnogi Strategaeth Gallu Ariannol Drafft Gweithrediad Gogledd Iwerddon a Strategaeth Gallu Ariannol ar gyfer y DU. Mae aelodaeth y Fforwm hwn yn cynnwys rhanddeiliaid ar draws gwasanaethau ariannol a chyngor ar ddyledion, adrannau Gweithrediad Gogledd Iwerddon, cwmnïau gwasanaethau ariannol, undebau credyd, cyrff defnyddwyr, cymdeithasau tai, cynghorwyr ariannol annibynnol a'r sector addysg.

Mae'r grŵp hwn wedi gweithio i ddatblygu **cynllun gwaith cytûn ac wedi'i flaenoriaethu i sicrhau bod y sefydliadau yn gweithio ar y cyd** i wella tirlun gallu ariannol yng Ngogledd Iwerddon. Nod cyntaf y cynllun gwaith hwn yw **deall cyflenwi rhaglenni gallu ariannol a gyflenwir mewn ysgolion ar draws Gogledd Iwerddon** ac i ddatblygu darlun clir o ble y mae'n cael ei gyflenwi, gan bwy, ar ba ffurf a lefelau'r gwerthusiadau effaith yr ymgymerir â hwy.

Mae'r gwaith hwn wedi'i gynllunio i sicrhau bod gwaith partneriaid yn Fforwm Gogledd Iwerddon yn cael effaith ar y cyd trwy fynd i'r afael ag anghenion addysgol ledled Gogledd Iwerddon ac mae'n cefnogi cwricwlwm **gallu ariannol a ddatblygir gan y Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu (CCEA)**.

Bydd cyfnod cyntaf yr ymarfer mapio hwn wedi'i gynllunio i adnabod lledaeniad daearyddol, ystodau oed a chyfaint disgyblion ynghyd â dealltwriaeth o'r effeithiau trwy werthuso.

Mynediad cynt ac ehangach at gyngor ar ddyledion yng Ngogledd Iwerddon.

Yn ystod y blynyddoedd blaenorol mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol wedi cynnig ariannu ar gyfer cyngor ar ddyledion trwy'r Adran Menter, Masnach a Buddsoddiad. Mae'r gwasanaethau a ariennir ar hyn o bryd yn dod i ben ym mis Mawrth 2016 ac mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi gofyn i'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol gymryd cyfrifoldeb dros ariannu a darparu cyngor ar ddyledion yng Ngogledd Iwerddon, wrth barhau i weithio'n agos gyda Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i sicrhau bod y cyflenwi yn unol â'u blaenoriaethau ac yn parhau i fodloni anghenion pobl Gogledd Iwerddon.

Yn ddiweddar mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol wedi **dyfarnu cytundebau grant ar gyfer cyflenwi cyngor ar ddyledion yng Ngogledd Iwerddon, o hyd at £1 miliwn y flwyddyn** mewn dwy ffrwd ariannu ar wahân:

- Bydd ariannu Ffrwd 1 o hyd at £800,000 y flwyddyn yn cael ei dargedu tuag at 11 prosiect i gynnig sylw ledled y cyngor ar gyfer cyngor ar ddyledion wyneb yn wyneb ac ar y ffôn
- Mae ariannu Ffrwd 2 o hyd at £200,000 y flwyddyn wedi'i gynnig i ariannu prosiectau a fydd yn hwyluso grwpiau 'anodd eu cyrraedd' ac i ymgysylltu pobl â siwrnai cyngor ar ddyledion.

Mwy o bobl yn cyllidebu ac yn cynilo yng Ngogledd Iwerddon

Yng ngoleuni'r ymdriniaeth wahanol sy'n cael ei chymryd i weithredu'r Credyd Cynhwysol yng Ngogledd Iwerddon, byddwn yn gweithio gyda'r Adran Datblygiad Cymdeithasol a'r Adran Gymunedau newydd i **ddatblygu ein cynnwys ar gyfer hawlwyr** i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion hawlwyr Gogledd Iwerddon.

Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda phartneriaid megis NIDirect i **fireinio'r cynnwys yr ydym yn ei ddarparu o amgylch 'digwyddiadau bywyd'** sylweddol i sicrhau ei fod yn parhau yn gyfredol, yn gywir ac yn anad dim yn berthnasol i bobl yng Ngogledd Iwerddon.

Gwella mynediad at gyngor yng Ngogledd Iwerddon

Rydym eisiau cynyddu'r cyfleoedd sydd gan bobl yng Ngogledd Iwerddon i gael mynediad at gefnogaeth ac arweiniad a fydd yn eu helpu i reoli eu harian yn well. Byddwn yn parhau i **ddarparu gwasanaethau yn uniongyrchol i'r cyhoedd yng Ngogledd Iwerddon a thrwy bartneriaid** megis NIDirect a Clanmill Housing. Byddwn yn sicrhau ble mae'n briodol y bydd y rhain yn ychwanegu gwerth i Raglen Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ar gyfer Llywodraeth a'i Strategaeth Gallu Ariannol.

Ein gwefan bydd ein prif sianel i fodloni anghenion nifer cynyddol o bobl sydd eisiau cael mynediad at wybodaeth a chyngor perthnasol a thestunol. Byddwn yn **gweithio gydag Eiriolwyr Cynhwysiant Digidol a'r sector cymunedol** ar draws Gogledd Iwerddon i annog defnydd ar ein gwefan fel offeryn perthnasol ar gyfer helpu pobl i fynd ar-lein.

Mae ein **gwasanaeth ffôn** hefyd yn bwynt mynediad allweddol i'r rheini na allant fynd ar-lein neu sy'n dewis peidio. Bydd hefyd yn cynnig ffordd o archwilio rhai o'r ymholiadau cymhleth a allai fod gan bobl.

Ochr yn ochr â'r gwasanaethau hyn, byddwn yn parhau i **ymgysylltu â nifer o grwpiau a fforymau eraill** megis Gweithlu Ailfeddiannu Tai DSD, Fforwm Trafodaeth Gogledd Iwerddon, Grŵp Cyngor a Gwybodaeth y Llywodraeth, y Grŵp Cyngor Ariannol, Grŵp Materion Llywodraeth Gogledd Iwerddon, a Grŵp Effaith Gymunedol Ulster Bank. Trwy ymroi i gymryd rhan yn y grwpiau hyn, gallwn helpu i ddylanwadu ar eu gwaith a hefyd rhannu'r mewnwelediadau a sicrhawyd yn ehangach.

Ehangu a gwella addysg ariannol

Fel rhan o'r gwaith gyda Fforwm Gogledd Iwerddon rydym wedi ymgysylltu â CCEA sy'n ymgymryd ag adolygiad o gwricwlwm Gogledd Iwerddon ac ar lefel yr adnoddau a gyflenwir i gefnogi cyflenwi elfennau gallu ariannol y cwricwlwm.

Mae gweithgor yn cael ei sefydlu gyda CCEA a chynrychiolwyr o Irish League of Credit Unions, Ulster Bank, Bank of Ireland, First Trust Bank a Danske Bank i ddeall y **ddarpariaeth gyfredol gan sefydliadau ariannol ac i wella effeithiau'r adnoddau** hyn trwy eu paru â'r cwricwlwm.

Pennod 9: Yr Alban

Cyflenwi trwy eraill yn yr Alban

Mae'r blaenoriaethau a'r camau y tynnir sylw atynt yn Strategaeth Gallu Ariannol ar gyfer y DU yn gyffredinol hefyd yn gymwys yn yr Alban ac yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynllun Busnes hwn. Oherwydd yr amgylchedd gwleidyddol, diwylliannol a daearyddol unigryw yn yr Alban, serch hynny, mae'n briodol adnabod a chyflenwi blaenoriaethau gwahanol ac ychwanegol.

Sefydlwyd Fforwm yr Alban y Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn 2012 i weithredu mewn rôl gynghorol, yn ein hysbysu ni ar faterion allweddol sy'n wynebu pobl yn yr Alban, ac yn ein helpu ni i ddeall effaith ein cynlluniau ar bobl yn yr Alban.

Mae aelodau cyfredol Fforwm yr Alban wedi cytuno i ehangu eu cwmpas i sicrhau bod yr argymhellion o fewn Strategaeth Gallu Ariannol ar gyfer yr Alban a'r DU yn cael eu cyflenwi ac yn parhau yn berthnasol i'r gofynion, y trefniadau ariannu a'r rhanddeiliaid unigryw o fewn yr Alban.

Mae ystod o sefydliadau ac unigolion wedi gweithio gyda'n Fforwm yn yr Alban i adnabod, darparu tystiolaeth a datblygu blaenoriaethau i gynllun gweithredu ar gyfer yr Alban - gan amlinellu ymyraethau y credwn ni fydd yn cael effaith ar wybodaeth a sgiliau, agweddau a chymhellion neu rwyddineb a mynediad at gynnyrch a gwasanaethau ariannol. Mae hyn yn cynnwys:

- **gweithio gyda Young Scot i gefnogi cynghorwyr ariannol myfyrwyr** fel eu bod yn ymwybodol o'r holl adnoddau gallu ariannol sydd ar gael, gan gynnwys datblygu pecyn 'croeso i fywyd pan nad ydych chi'n fyfyriwr' ar ôl coleg/prifysgol;
- archwilio gyda Chyngor ar Bopeth yr Alban y potensial i **ddatblygu model 'eiriolwyr gallu ariannol' gwirfoddol**;
- **gwerthuso ymyraethau yn y sector tai gyda phobl ifanc**, gan gynnwys y rheini sy'n ddigartref, i ddeall yr hyn sy'n gweithio'n dda a'i rannu ar draws y sector;
- gweithio gyda Young Scot i annog colegau a phrifysgolion, trwy Rwydwaith Datblygu Coleg ac Asiantaeth Gwobrwyo Myfyrwyr, i gyflwyno **ymdriniaethau cyffredinol a meithrin arfer da ar gyfer ymyraethau** cynnar gyda myfyrwyr ar bwynt ymgeisio am grant neu fenthyciad; a
- lansio'r **peilot Pecyn Offer Gwerthuso** gyda Money Advice Scotland i ddeall effaith eu modiwlau addysg ariannol a hyfforddiant grŵp.

Mynediad cynt ac ehangach at gyngor ar ddyledion yn yr Alban

Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf rydym wedi profi partneriaeth lwyddiannus gyda Llywodraeth yr Alban gan ariannu ar y cyd gyfres o raglenni cyngor ar ddyledion, a weinyddir gan Fwrdd Cymorth Cyfreithiol yr Alban (SLAB).

Rydym wedi ymrwymo i barhau â'n hariannu ar brosiectau cyngor ar ddyledion trwy SLAB ac wedi dechrau ar **gytundebau tair blynedd o hyd newydd**. Rydym hefyd yn gweithio gyda hwy i gynhyrchu **gwerthusiad cadarn a chraff o'r Ffrydiau Making Advice Work 1&2**[9] **ac Economic Downturn Stream 1**[10] er mwyn i ni barhau i ddeall effeithiolrwydd y gwasanaethau yr ydym yn eu hariannu.

9. http://www.slab.org.uk/providers/advice/grant-funding/MakingAdviceWork/index.html
10. http://www.slab.org.uk/providers/advice/grant-funding/EconomicDownturn/index.html

Byddwn yn gweithio gyda Chyngor ar Bopeth yr Alban i **fesur effaith sesiynau cyllidebu ar gyfer y rheini sy'n derbyn cymorth cysylltiedig â dyledion** a phrofi a ydynt yn ychwanegu gwerth o ran canlyniadau ariannol a lles.

Bydd Fforwm yr Alban, mewn partneriaeth ag eraill, yn datblygu **Polisi Adfer Dyledion Corfforaethol** ac yn gweithio gyda rhanddeiliaid i fabwysiadu ymdriniaeth gyffredin tuag at ddelio gyda phobl mewn dyled.

Mwy o bobl yn cyllidebu ac yn cynilo yn yr Alban

Byddwn yn gweithio yn yr Alban i **gefnogi Siarter Undeb Credyd yr Alban ABCUL**. Mae hyn yn cynnwys:

- cefnogi mynediad at gynilion diogel a chredyd fforddiadwy i bawb yn yr Alban trwy aelodaeth undeb credyd;
- mynediad at aelodau undeb credyd a didyniad cyflogres i bob gweithiwr y sector cyhoeddus yn yr Alban - ac annog mwy o gyflogwyr preifat ac nid-er-ew i gynnig yr un peth i'w staff; a
- helpu i feithrin partneriaethau rhwng undebau credyd, cymdeithasau tai a'r sector cyngor i ddefnyddio ymdriniaeth gyfannol tuag at allu ariannol.

Byddwn yn cefnogi darparwyr credyd fforddiadwy eraill yn yr Alban a'r gwaith y maen nhw'n ei wneud i annog pobl i gyllidebu yn effeithiol ac i ddechrau cynilo.

Byddwn hefyd yn cefnogi gwaith **y tîm gallu ariannol yng Nghyngor Ariannol yr Alban** wrth iddyn nhw gyflenwi eu modiwl addysg ariannol, sy'n canolbwyntio'n fawr ar gyllideb, i ystod eang o bartneriaid.

Gwella mynediad at gyngor yn yr Alban

Yn ychwanegol i weithredoedd ar draws y DU i gyflenwi mynediad at wybodaeth a chyngor da, rydym yn parhau i **ariannu'r Gwasanaeth Gwella yn yr Alban** i gyflenwi'r prosiect 'Gwella Canlyniadau Cyngor Ariannol'. Mae wedi'i anelu at wella effaith gwasanaethau arweiniad ariannol yr Alban a chynnig cefnogaeth i gynghorau a'u partneriaid yn y broses hon. Mae'r prosiect bellach yn datblygu gweithredu'r Fframwaith ar gyfer Ariannu Cyhoeddus ar Gyngor.[11] Bydd hyn yn cynnwys cefnogaeth 'ymarferol' manylach i gynghorau a'u partneriaid i weithredu egwyddorion allweddol y fframwaith. Maen nhw hefyd yn datblygu fframwaith rheoli perfformiad i'w ddefnyddio ar draws y sector cyngor, sy'n anelu at feithrin consensws ar ganlyniadau a dangosyddion allweddol ar gyfer mesur gwerth a buddion gwasanaethau cyngor. Bydd hyn hefyd yn helpu i hwyluso cyfnewid arfer da.

Byddwn yn cefnogi gwaith i **roi pwynt cyswllt dibynadwy i gyflogwyr a pheth arweiniad** i alluogi iddynt gyfeirio gweithwyr at y ffynhonnell orau o arweiniad dyledion/arian. Byddwn yn parhau i **gefnogi a chyfeirio at wefan Gwasanaeth Iechyd Ariannol yr Alban** sy'n cynnig porth at ffynonellau o gyngor dibynadwy.

Byddwn yn parhau i weithio gyda **GIG Iechyd yr Alban** i ddatblygu cysylltiadau agosach rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol ac arweiniad ariannol.Rydym yn mewnbynnu i'r gwaith mae GIG yn ei wneud ar fodelu canlyniadau iechyd ar gyfer gwasanaethau cyngor. Byddwn yn cefnogi defnydd gwell ar y GIG fel cynghorydd dibynadwy, er enghraifft yn gweithio gyda meddygon i gyfeirio pobl at arweiniad ariannol.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda **Ffederasiwn Cymdeithasau Tai yr Alban ac yn defnyddio'u rhwydwaith** i dynnu sylw at ein hystod eang o gynnwys arweiniad ariannol a sut y gellir ei ddefnyddio'n gyffredin am ddim. Byddwn hefyd yn edrych at sut y gellir gwneud y gorau o lwybrau atgyfeirio.

11. http://www.improvementservice.org.uk/framework-for-public-funding-of-advice.html

Ehangu a gwella addysg ariannol

Yn yr un modd â'r DU gyfan, byddwn yn canolbwyntio ar weithio gyda phartneriaid i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer 'yr hyn sy'n gweithio' wrth wella gallu ariannol plant a phobl ifanc.

Byddwn yn ceisio adnabod sefydliadau partner i gynnal **asesiad effaith o ddysgu rhyngddisgyblaethol**, gyda ffocws ar addysg ariannol, ac yn llunio cysylltiadau gyda defnydd ar dechnolegau digidol.

Byddwn yn cynnal **dadansoddiad o weithgaredd awdurdod lleol cyfredol ar gyfer addysg ariannol** mewn ysgolion, gan gynnwys cefnogaeth dros bobl ifanc fregus gan ddefnyddio cyflwyniad rhwng cyfoedion.

Byddwn yn **cefnogi Education Scotland i gynnal asesiad effaith o ddysg ryngddisgyblaethol, gyda ffocws ar addysg ariannol**, gan greu cysylltiadau gyda defnydd technolegau digidol.

Byddwn hefyd yn archwilio cysylltiadau gydag agenda **'Developing the Young Workforce'** Llywodraeth yr Alban - er enghraifft rhaglen Cwricwlwm Addysg Ariannol Glasgow - a **rhannu arfer gorau** ar draws y sector.

Pennod 10: Cymru

Cyflenwi trwy eraill yng Nghymru

Mae ystod o sefydliadau ac unigolion wedi gweithio gyda Fforwm Cymru Gwasanaeth Cynghori Ariannol[12] i adnabod, cynnig tystiolaeth a datblygu blaenoriaethau i gynllun gweithredu ar gyfer Cymru. Fe wnaeth hyn ddatblygu Strategaeth Gallu Ariannol i Gymru, a lansiwyd ym mis Tachwedd 2015, ac wedi'i gynnwys fel rhan o Strategaeth Cynhwysiant Ariannol 2016 diwygiedig Llywodraeth Cymru.

Bydd Fforwm Cymru yn ceisio sicrhau bod **gweithgaredd gan sefydliadau ar draws sectorau wedi'i gydlynu'n effeithiol** i gyflawni nodau cyffredinol y Strategaeth Gallu Ariannol ar gyfer y DU trwy effaith ar y cyd. Trwy aelodaeth y Fforwm, megis Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), ynghyd ag arweinwyr 'Fforymau Gallu Ariannol' Cymru sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd, Gorllewin a De Cymru, byddwn yn gallu **ymgysylltu'n effeithiol gyda rhanddeiliaid ar draws sectorau**. Fel rhan o'r gwaith hwn byddwn hefyd yn gweithio gyda chyllidwyr ymyraethau i geisio trefniadau ariannu cyfatebol, gydag ymrwymiad ar y cyd i 'IMPACT' neu egwyddorion tystiolaeth cymharol.

Mae llawer o ddarparwyr cyfredol ar ymyraethau gallu ariannol ar draws Cymru sydd wedi'u mapio fel rhan o ymgynghoriad strategaeth Gallu Ariannol i Gymru. Byddwn yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ar draws Cymru o gronfa £7m 'yr hyn sy'n gweithio', yn enwedig ymhlith y rheini sy'n gweithio gydag ymyraethau rhwng cyfoedion. Byddwn yn annog y rheini sydd wedi gwerthuso eu gwaith i'w rannu ar draws y sector. Ar gyfer y rheini nad ydynt wedi gwerthuso eu hymyraethau hyd yma, byddwn yn hyrwyddo defnydd ar y pecyn offer gwerthuso ac yn rhannu'r canlyniadau a'r ddysg.

Mynediad cynt ac ehangach at gyngor ar ddyledion yng Nghymru

Mae bron i un o bob pump o bobl yng Nghymru yn orddyledus. Mae symudiad wedi bod hefyd yn natur y ddyled, o ddyled ar gyfer gwariant nad yw'n hanfodol tuag at ddyledion blaenoriaeth sy'n gysylltiedig â'r cartref gan gynnwys rhent, morgais a chostau'r dreth gyngor a biliau hanfodol y cartref. Mae ffocws y sector gwybodaeth a chyngor yn newid yn raddol i adlewyrchu hyn ond mae ymwybyddiaeth o argaeledd gwahanol wasanaethau - gan gynnwys cyngor ar ddyledion am ddim ac y telir amdanynt - yn parhau yn isel.

Fel rhan o'r argymhellion o Adolygiad Gwasanaethau Cynghori Llywodraeth Cymru, mae blaenoriaeth wedi'i roi i ddatblygu **strategaeth gwybodaeth a chynghori i sicrhau mynediad cyson** at wasanaethau o ansawdd uchel ar draws Cymru. Mae ymchwil a gwblhawyd gan yr adolygiad yn tynnu sylw bod cyngor ar ddyledion yn cael ei gynnig gan nifer o wahanol ddarparwyr yng Nghymru. Yr uchelgais yng Nghymru yw y bydd ariannu ar gyfer gwasanaethau cynghori, gan gynnwys cyngor ar ddyledion, yn cael ei gydlynu gan y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol. Mae gan y rhwydwaith aelodau gan gyllidwyr megis y Gronfa Loteri Fawr, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Byddwn yn ceisio **sicrhau cydweithrediad effeithiol** rhwng gwaith y Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol a gweithgaredd ehangach i gynyddu a gwella gwasanaethau cyngor ar ddyledion yng Nghymru, ac ar draws y DU yn gyffredinol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r **Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol** tuag at gynnwys arweiniad ariannol ataliol yng ngwaith rhwydweithiau yng Nghymru.

12. http://www.fincap.org.uk/wales-forum

Yn unol â'n nod ehangach i bobl gael mynediad at gyngor ar ddyledion ynghynt, rydym yn gweithio gyda **Community Housing Cymru** i ddatblygu cynllun peilot a fydd yn defnyddio data Cymdeithasau Tai i adnabod pobl sydd wrth risg o ddisgyn i ddyledion a chynllunio modelau ar gyfer ymyrraeth gynnar. Mae **Canolfan Cydweithredol Cymru** hefyd yn cyfeirio ac yn atgyfeirio pobl ar gyfer arweiniad ariannol wedi'i dargedu at denantiaid preifat trwy'r prosiect 'Your Money Your Home'. Rydym wedi sefydlu cynllun peilot gyda'r prosiect hwn i werthuso'r effaith.

Mae 'Cronfa Cymorth Ddewisol' Llywodraeth Cymru yn cynnig taliadau a chefnogaeth o fath arall i bobl sydd angen cymorth brys, a ble y ceir angen canfyddadwy i ddiogelu iechyd a lles. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau ble fo'n briodol bod pobl sy'n defnyddio'r gronfa yn cael eu **cyfeirio at wasanaethau atal dyledion**.

Trwy Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru, byddwn hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid a rhaglenni cyfredol yng Nghymru megis Cymunedau yn Gyntaf i ystyried potensial ar gyfer **cefnogaeth rhwng cyfoedion**. Gallai hyn fod yn effeithiol wrth yrru ymwybyddiaeth well, a chyswllt gyda chyngor ar ddyledion, a chynyddu gwydnwch ariannol cleientiaid.

Mwy o bobl yn cyllidebu ac yn cynilo yng Nghymru

Mae mwy na 99% o fusnesau yng Nghymru yn Fusnesau Bach a Chanolig, ac maen nhw i gyfrif am 60% o gyflogaeth y sector preifat. **Gan hynny mae helpu cyflogwyr o fewn busnesau bach a micro i gefnogi eu rheolaeth ariannol eu hunain a'u staff** yn llwybr pwysig i wella gallu ariannol. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i archwilio opsiynau ar gyfer cyflawni hyn.

Mae'r newid i Gredyd Cynhwysol yn cyflwyno heriau ychwanegol i hawlwyr oherwydd y newid i daliad misol a'r gofyniad i dderbynyddion gyllidebu ar gyfer costau tai, yn hytrach na chael hyn wedi'i dalu yn uniongyrchol. Mae hyn yn golygu rheoli arian o ddydd i ddydd a bydd cynllunio'r tymor hwy yn dod yn bwysicach ac efallai y bydd rhai grwpiau yng Nghymru angen help penodol. Canfu ein Harolwg Gallu Ariannol bod rhentwyr preifat, er enghraifft, yn llai tebygol o ddefnyddio credyd yn briodol, a chanddynt lefelau is o hyder wrth reoli arian a gwneud penderfyniadau am gynnyrch a gwasanaethau ariannol na thenantiaid mewn tai cymdeithasol. Byddwn yn gweithio gydag **Yr Adran Gwaith a Phensiynau Cymru, Community Housing Cymru a 'Your Money Your Home'** i werthuso gwaith cyfredol gyda phobl mewn llety rhent ac i rannu dysg ar draws Cymru.

Gwella mynediad at gyngor yng Nghymru

Byddwn yn gweithio gyda'r **Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol a Fforwm Darparwyr Cyngor Annibynnol** i ddeall yn well anghenion cyngor pobl yng Nghymru a pha gynnwys sydd eisoes ar gael ar draws Cymru i sicrhau bod y Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn cysylltu yn briodol â chynnwys sydd eisoes yn bodoli i helpu pobl.

Mae synergedd clir rhwng yr agendâu Cynhwysiant Digidol ac Ariannol y byddwn yn ceisio'u datblygu, i sicrhau bod help ariannol o ansawdd uchel ar gael mor eang â phosibl.

Ehangu a gwella addysg ariannol

Mae'r cysylltiadau rhwng tlodi, iechyd gwaeth a chanlyniadau addysgol yn cael ei gydnabod yn eang ac mae cefnogi'r blynyddoedd cynnar yn gydran allweddol wrth dorri'r cyswllt hwn. Mae cefnogi rhieni i gynyddu eu gallu ariannol yn gydran allweddol wrth fynd i'r afael â thlodi, gyrrwr polisi allweddol yng Nghymru. Mae'r Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015, yn cynnwys amcan 'i gefnogi teuluoedd sy'n byw mewn tlodi i gynyddu incwm y cartref trwy gyngor ar ddyledion ac ariannol, camau i fynd i'r afael â phremiwm tlodi a chamau i liniaru ar effeithiau'r diwygiad lles'.[13]

13. http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/child-poverty/?lang=en

Mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol, mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru, y Gronfa Loteri Fawr ac amryw raglenni a redir gan awdurdodau lleol a sefydliadau nid-er-elw, yn cynnal peth **ymchwil arloesol yng Nghymru**.
Bydd y peilot, a'i werthusiad hydredol dwy flynedd o hyd, yn profi effeithiolrwydd rhaglenni sydd wedi'u cynllunio i wella gallu ariannol plant trwy weithio gyda rhieni. Mae'r peilot yn anelu at fynd i'r afael ag ymwybyddiaeth rhieni o'r rôl bwysig y maen nhw'n ei chwarae wrth arwain ymdriniaeth eu plant tuag at reoli arian, a'u cyfarparu â'r dymuniad, yr hyder a'r gallu i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o oedolion galluog yn ariannol. Bydd y cynlluniau peilot yn cynhyrchu tystiolaeth gadarn o effaith ac effeithiolrwydd cost rhaglenni rhianta. Byddwn yn rhannu'r gwerthusiad a'r ddysg o'r cynlluniau hyn i helpu rhaglenni rhianta yng Nghymru ac yn ehangach adeiladu ar ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i adeiladu gallu ariannol i raglenni rhianta ar gyfer rhaglenni **'Mae addysg yn dechrau yn y cartref' a 'Dechrau'n Deg'** , Llywodraeth Cymru ac i raglenni olynol ac arloesol '**Teuluoedd yn Gyntaf'** .

Cynllun Iaith Gymraeg

Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg yn gysylltiedig â'r Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Gwasanaeth Cynghori Ariannol. Ein hymrwymiad yw bod y Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn gweithio'n gynhwysol. Mae hyn yn galluogi inni fodloni ein nod craidd o helpu pobl i gymryd rheolaeth ar arian i gyfoethogi eu bywydau.

Cymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth Cynghori Ariannol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 26 Mawrth 2012.

Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg llawn ar gael ar-lein. Isod ceir crynodeb o'n hymrwymiadau ar gyfer gyflenwi gwasanaethau yng Nghymru:

Mae ein gwefan ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Eithriadau i hyn yw cynnwys fideo a'r holl gyfryngau digidol sy'n gweithio o fewn amgylchedd o gyfathrebu di-oed, megis cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys Twitter, a hysbysebu ar-lein.

Rydym yn cynnig gwasanaeth ffôn iaith Gymraeg ar 0800 138 0555.

Gall ein gwasanaethau arweiniad ariannol a chyngor ar ddyledion gyflenwi sesiynau yn y Gymraeg ar gais.

Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg llawn ar gael ar ein gwefan yn:
moneyadviceservice.org.uk/files/welshlanguageschemeinenglish.pdf

Mae fersiwn iaith Gymraeg o'n gwefan yn:
moneyadviceservice.org.uk/cy

Rydym yn cyflwyno adroddiad monitro blynyddol i Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg. Mae'r adroddiad diweddaraf i'w gael ar ein gwefan yn:
moneyadviceservice.org.uk/en/corporate/publications

Atodiadau:

1: Risgiau a materion

2: Ymgynghori â rhanddeiliaid

Atodiad 1: Risgiau a materion

Mae gan y Gwasanaeth Cynghori ariannol broses rheoli risgiau a materion sy'n cael ei rheoli'n ofalus, gan gynnwys sgorio effaith a thebygoliaeth; cynlluniau lliniaru; sgorio gweddillol; agwedd am risg; a pherchnogaeth risg. Bydd popeth y tynnir sylw ato isod yn cael ei reoli trwy'r broses honno, ond er rhwyddineb mae'r risgiau a'r materion yn cael eu disgrifio ar ffurf storïol.

Nid yw'r adran hon yn anelu at fod yn gynhwysol - mae hynny'n dasg ar gyfer ein cofrestrau risgiau a materion corfforaethol - ond i dynnu sylw at bryderon pwysicaf a leisir gan randdeiliaid, ac esbonio sut yr ydym yn mynd i'r afael â hwy. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl randdeiliaid a ymatebodd i'n cwestiwn ymateb ymgynghorol am risgiau. (Gweler Atodiad 2 am ragor o wybodaeth am yr ymgynghoriad rhanddeiliaid y gwnaethom ei gynnal a'r ymatebion y gwnaethom eu derbyn.)

Risgiau a materion a adnabuwyd yn erbyn y rhaglenni gwaith ar gyfer ein pum nod yn 2016/17.

Nod 1: Rydym yn anelu at sicrhau bod Strategaeth y DU yn llwyddo. Y prif risgiau yw nad yw'r ymgysylltiad ar y cyd, cysylltiad ac aliniad y partneriaid sydd bellach yn gweithio ar Strategaeth Gallu Ariannol ar gyfer y DU (Strategaeth y DU) yn cael eu gwireddu o fewn y cyfnod 2016-2018. Gweler Pennod 1 am ystod o strwythurau a phrosesau yr ydym yn eu sefydlu i ymgysylltu â phartneriaid. O ganlyniad i'r broses ymgynghori, byddwn yn gweithio gyda phob Grŵp Llywio i adnabod a chyflenwi gweithgaredd a fydd yn dangos cynnydd pendant yn ystod hynt y flwyddyn, i greu momentwm taer. O ganlyniad pellach i ymgynghori, byddwn hefyd yn sefydlu cyfres o ddangosyddion gwybodaeth reoli y gallwn eu defnyddio'n fewnol i olrhain ymgysylltiad mor wrthrychol â phosibl.

Adnabu rhanddeiliaid fel risg allweddol y posibilrwydd y byddai'r ymdriniaeth profi a dysgu i ganfod 'yr hyn sy'n gweithio' wrth fynd i'r afael â gallu ariannol yn methu cynhyrchu canlyniadau y gellir eu graddio i fyny, neu mae'r hyn sy'n ymddangos ei fod yn gweithio o dan amgylchiadau prawf yn methu gweithio'n rhywle arall. Rydym yn lliniaru ar y risg hon mewn sawl ffordd:

- rydym yn dysgu gan wledydd eraill sydd yn fwy datblygedig mewn rhai ardaloedd na'r DU, yn enwedig yr Iseldiroedd, Seland Newydd ac Awstralia;
- rydym yn adeiladu llyfrgell drefnus o ymdriniaethau ar y Ganolfan Dystiolaeth; a
- rydym yn adeiladu ystyriaethau gwerthuso a natur graddi i fyny'r holl gynlluniau peilot a phrofion.

Roedd rhanddeiliaid a oedd hefyd yn cael eu hystyried yn risg sylweddol i'r anghymesuredd rhwng diddordeb y Gwasanaeth Cynghori Ariannol mewn cymryd rhan mewn partneriaeth, o'i gymharu â phartneriaid a allai weld llai o fanteision ar gyfer eu sefydliadau eu hunain. Bydd cymhelliant partneriaid yn amrywio yn ôl sector cyhoeddus, gwirfoddol neu er-elw. Rydym eisiau cefnogi'r ddwy sector gyntaf mewn sawl ffordd; trwy adeiladu'r sylfaen dystiolaeth, gan gynnwys mewn rhai achosion ariannu uniongyrchol i gynnal profion a chynlluniau peilot, a thrwy greu dychweliad economaidd ar fodel buddsoddi ar gyfer gallu ariannol, a allai fod o fudd i bob achos busnes a ffrwd ariannu.

Nod 2: Y prif fater a nodwyd gan randdeiliaid oedd y ffaith y gallai achosion cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol yr anhawster ariannol gorbwyso'n sylweddol y gefnogaeth yr ydym yn ei rhoi. Er enghraifft, os oes cynnydd sylweddol yn y gyfradd llog, bydd llawer yn fwy o bobl yn dod yn orddyledus, pa un a fyddwn wedi gwella eu gallu ariannol ai peidio. O ystyried ein dehongliad o'n cylch gwaith, ni chredwn fod camau lliniaru hawdd i'r mater hwn. Ein prif gyfrifoldebau yw osgoi gorsymleiddio neu naïfder ynglŷn â chwmpas yr hyn y gallwn ei gyflawni, a chyflawni cymaint o fudd â phosibl mewn partneriaeth gydag eraill.

Nod 3: Risg allweddol a adnabuwyd yw na fydd pobl o bosibl yn ymgysylltu â negeseuon ynglŷn â rheoli eu harian yn well, yn enwedig y rhai mwyaf bregus. Y prif gam lliniaru yw profi gwahanol ddulliau a sianeli i ymgysylltu (ymgyrchoedd yn y gweithle, ayyb). Yr ail gam lliniaru yw ein hariannu ar gyngor ar ddyledion, sy'n rhwyd ddiogelwch sydd â hanes llwyddiannus o ddatrys problemau dyledion, ac yr ydym yn gynyddol yn adeiladu sgiliau rheoli ariannol a all helpu i atal yr angen i ddychwelyd at gyngor ar ddyledion yn y dyfodol.

Nod 5: Mae'r prif risg a adnabuwyd yn yr ysgolion. Gallai pwysau ar y cwricwlwm olygu y bydd y gofyniad statudol i gyflenwi addysg ariannol yn derbyn ychydig o sylw yn yr ystafelloedd dosbarth o ddydd i ddydd. Ein camau lliniaru yw casglu tystiolaeth sy'n cysylltu gallu ariannol â mathau eraill o gyrhaeddiad sydd eisoes yn cael eu gwerthfawrogi mewn ysgolion a chan Ofsted, ac yna pan fydd y dystiolaeth honno ar gael ei rhannu gydag athrawon a dylanwadwyr polisi addysgol.

Risgiau a materion yn y Gweinyddiaethau Datganoledig

Mater a adnabuwyd oedd bod disgwyl i gyfrifoldeb dros eiriolaeth a chyngor defnyddwyr gael ei ddatganoli i'r Alban, fel rhan o Fesur yr Alban. Gallai hyn olygu bod union gwmpas cyfrifoldebau'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn yr Alban yn anodd ei ddarlunio. Serch hynny, mae gennym fforwm bywiog ac wedi ymgysylltu yn yr Alban a disgwyliwn mai'r prif gamau lliniaru fydd parhau â chyfathrebu a gwaith partneriaeth da.

Atodiad 2: Ymgynghori â Rhanddeiliaid

Mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn ymrwymedig i weithio gyda phartneriaid a thrwyddynt.

Fe wnaethom gyhoeddi fersiwn ymgynghori o'r cynllun ar 22 Rhagfyr 2015 a chaeodd yr ymgynghoriad ar 15 Chwefror 2016. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r sefydliadau niferus a gynigiodd awgrymiadau, tystiolaeth a her adeiladol trwy'r broses honno.

Dymunwn gynnig ein hymddiheuriadau i ymgyngoreion *anstatudol* nad ydynt wedi cael cyfle i gynnig sylwadau ar effeithiau sylweddol ac addasiadau i'r Cynllun a gyflwynwyd gan *Adolygiad Arweiniad Ariannol Cyhoeddus: cynnig i'w ymgynghori* y Llywodraeth ar ôl ei gyhoeddi ar 16 Mawrth 2016. Oherwydd pwysau ein dyletswydd statudol i gyhoeddi Cynllun Busnes, nid oedd modd i ni ailadrodd y broses ymgynghori llawn ar y Cynllun, sy'n cymryd tua 10 wythnos, unwaith yr oedd canlyniadau'r Adolygiad Arweiniad yn hysbys.

Fe wnaethom, wrth gwrs, ddychwelyd at ein hymgynoreion statudol i rannu â hwy'r newidiadau allweddol yr ydym wedi'u gwneud i'r Cynllun cyn cyhoeddi'r fersiwn terfynol hwn.

Ymgyngoreion Statudol

Mae'r gyfraith yn gofyn i ni ymgynghori yn agos gyda'r Paneli Ymarferwyr a'r Panel Defnyddwyr sy'n cefnogi ac yn cynghori'r FCA; Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi; a'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau. Fe wnaethom fodloni'r rhwymedigaeth hon a derbyn mewnbwn defnyddiol iawn gan ymgyngoreion statudol - a hynny cyn ac ar ôl yr Adolygiad Arweiniad. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r Panel Defnyddwyr am y cyfle i ymddangos ger ei fron deirgwaith wrth baratoi'r Cynllun Busnes hwn, ac am nifer o awgrymiadau a heriau pwysig y gwnaeth eu cynnig.

Ymgynghori anffurfiol

Yn ôl yr arfer, yn ystod hynt datblygu'r cynllun fe wnaethom ymgynghori gyda mwy na 20 o sefydliadau trwy gyfarfodydd unigol a fforymau allweddol.[14]

Y broses ymgynghori ffurfiol

Fe wnaethom dderbyn 30 o ymatebion. Chwech gan sefydliadau sector cyhoeddus, 11 o sefydliadau sy'n cynrychioli'r sector preifat, a 13 o'r sector gwirfoddol.

Roedd mwyafrif y sylwadau ymgynghori yn gadarnhaol ac yn hynod adeiladol.

Isod, rydym yn adrodd ar y sylwadau y gwnaethom eu derbyn. Fe wnaethom dderbyn dros 100 o dudalennau A4 o ymatebion ymgynghori ac felly ymddiheurwn mai dim ond crynhoi themâu cyffredin, yn hytrach nac adlewyrchu manylion pob sylw neu awgrym gwerthfawr y gwnaethom eu derbyn y gallwn ei wneud.

Mae'r ymatebion isod yn adlewyrchu'r union gwestiynau a ofynnwyd yn fersiwn ymgynghori ein Cynllun, a chan hynny'r union gynnwys o'i fewn. Nid yw rhai o'r adrannau y gwnaeth ymatebwyr gynnig sylwadau arnynt bellach yn bodoli yn y Cynllun terfynol, neu maen nhw wedi'u haddasu'n sylweddol: er enghraifft, nid ydym bellach yn cynnig Strategaeth Gorfforaethol tair blynedd o hyd, ac nid ydym chwaith yn eirioli gweithio gyda gwasanaethau ariannol yn y ffordd y gwnaethom ei hamlinellu yn flaenorol yn Nod 5.[15]

---

14. Roedd hyn yn cynnwys cwrdd â chynrychiolwyr o Age UK; Association of British Credit Unions Limited; Cymdeithas Yswirwyr Prydain; Cymdeithas o Gynghorwyr Ariannol Proffesiynol; Cymdeithas Cyfryngwyr Morgeisi; Cymdeithas Bancwyr Prydain; Cymdeithas Cymdeithasau Adeiladu; Cyngor ar Bopeth; Cymdeithas Ariannol Defnyddwyr; Cyngor Benthycwyr Morgeisi; Yr Adran Menter, Masnach a Buddsoddiad (Gogledd Iwerddon); ifs University College; Cymdeithas Buddsoddi; Ymddiriedolaeth Cynghori Ariannol; MoneySavingExpert; MyBnk; Academi Sgiliau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Ariannol; Elusen Dyledion StepChange; The Money Charity; Menter yr Ifanc; ac Which?. Roedd fforymau allweddol yn cynnwys Fforymau Gwasanaeth Cynghori Ariannol yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, a'r fforwm Defnyddwyr a Diwydiant.

15. Er gwybodaeth, mae fersiwn ymgynghori llawn y Cynllun dal ar gael yn: http://comfy.moneyadviceservice.org.uk//system/comfy/cms/files/files/000/000/294/original/MAS_16_17_Business_Plan___Corporate_Strategy_Consultation_Document.pdf

Strategaeth Gorfforaethol tair blynedd o hyd ar gyfer Gwasanaeth Cynghori Ariannol

1. A oes gennych unrhyw sylwadau ar y mathau o gwsmeriaid y dylem dargedu ein hymdrechion tuag atynt, fel yr amlinellir yn ein Strategaeth Gorfforaethol tair blynedd o hyd?

[Sylwer: oherwydd y canlyniadau Adolygiad Arweiniad, nid ydym bellach yn cynnig Strategaeth Gorfforaethol tair blynedd o hyd, ond credwn fod y ffordd o feddwl allweddol yn parhau yn berthnasol wedi'i gynnwys o fewn pennod y Cynllun Busnes hwn dan y teitl 'y tirlun a'r bylchau', tudalennau 8-24.]

Cafodd y segmentiad cwsmeriaid y gwnaethom eu cynnig yn ein Strategaeth Gorfforaethol groeso cynnes; fe'u disgrifiwyd yn amrywiol yn 'syml, yn glir ac yn gofiadwy', 'yn gadarn ac yn ddefnyddiol' ac 'yn drylwyr'.

Fe wnaeth rhai ymatebwyr dynnu sylw bod y segmentiad yn llyfn - bydd pobl yn symud rhwng categorïau yn ystod eu hoes. Rydym wedi nodi hyn yn ein hadran 'tirlun a'r bylchau' wedi'i diweddaru ac yn effro i'w ganlyniadau.

Dadleuodd rhai ymatebwyr y dylai plant, pobl ifanc ac oedolion ifanc gael eu trin fel un categori trefnus ac yn gontinwwm. Yn gyffredinol, credwn fod anghenion pobl sy'n ymuno â'r farchnad lafur, neu sy'n dechrau byw fel myfyrwyr, yn ddigon gwahanol i'r rheini sy'n parhau yn yr ysgol er mwyn gwarantu eu hystyried ar wahân, ond rydym wedi gosod tasg i'n timau sy'n gweithio gyda phob categori o weithio gyda'i gilydd yn agos, er mwyn uchafu ar y ffordd o feddwl cyffredin rhwng y ddau.

Awgrymodd dau ymatebydd, gan fod y segmentiad wedi'i seilio ar fodel o wydnwch ariannol (gallu i wrthsefyll siociau incwm), roedd yn gorwedd ar ddryswch rhwng gwydnwch ariannol a gallu ariannol - ac felly roedd yn cwestiynu rhai o'r casgliadau o ddadansoddiad marchnad, yn enwedig a ddylem annog pobl i gynilo mwy. Credwn fod cael arian dros ben yn ffactor mawr o fewn gwydnwch; ac mae cael yr arian hwnnw yn wahanol i wybod beth i wneud ag ef. Ond wrth nodi'r gwahaniaeth hwn, fe wnaethom benderfynu mai'r sylfaen orau ar gyfer ein segmentiad oedd edrych ar oedolion trwy lens gwydnwch ariannol. Credwn y bydd yn offeryn pwerus wrth ein helpu ni i fodloni ein cylch gwaith statudol oherwydd:

- gellir ei gyfrifo trwy ddata y gallwn ei baru yn hawdd a'i gopïo o ffynonellau lluosog (nid dim ond un arolwg);
- mae'n mesur canlyniad hynod ddymunol (defnyddwyr yn fwy diogel rhag anhawster ariannol); ac
- y canlyniad hwnnw yw'r canlyniad tebygol o allu ariannol gwell, sef yr effaith y dymunwn ei chyflwyno fwyaf ymhlith defnyddwyr.

2. A yw'n chwe nod yn ymdrin â'r meysydd cywir ar gyfer cyfnod Strategaeth Gorfforaethol tair blynedd o hyd, ac a ydynt yn gosod y lefel gywir o uchelgais ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol?

[Sylwer: oherwydd yr adborth gan ymatebwyr ymgynghori ynghyd â chanlyniadau'r Adolygiad Arweiniad, rydym bellach yn cynnig pum nod, ac nid chwech.]

Cafwyd cefnogaeth eang dros bump o'r chwe nod, a chytundeb cyffredinol eu bod yn gosod lefel addas o uchelgais.

Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu bod yr iaith a ddefnyddir wrth ddisgrifio'r nodau yn ymylu ar fod yn feirniadol ar ddefnyddwyr unigol. Cytunwn fod hyn yn berygl parhaus, a'n bod ni eisiau i bawb siarad am arian a dyledion heb unrhyw synnwyr o stigma. Byddwn yn ofalus wrth nodi nad ydym yn beirniadu penderfyniadau defnyddwyr unigol, ac i feddwl yn ofalus iawn, gyda help partneriaid, am yr iaith a ddefnyddir mewn negeseuon uniongyrchol i ddefnyddwyr. Ond nid ydym yn ymddiheuro am y ffaith bod y Gwasanaeth Cynghori Ariannol yma i wella pethau, ac un rhan o'r broses honno yw adnabod beth, ar gyfartaledd, yw arferion neu gamgymeriadau ariannol sy'n effeithio ar ddefnyddwyr er gwaeth.

Nodau'r rhaglen waith ar gyfer 2016/17

3. O ystyried bwriad a chwmpas ein nodau, beth yw'ch sylwadau ar y gweithgareddau a'r blaenoriaethau yr ydym wedi'u gosod ym mhob pennod sy'n ymdrin â'r rhaglen waith yn erbyn pob nod ar gyfer mis Ebrill 2016 i fis Mawrth 2017?

Roedd mwyafrif llethol yr ymatebion yn rhoi hyder i ni fod y rhaglenni gweithgaredd yn gadarn. Ble'r oedd ymatebwyr yn mynegi amheuon, y themâu cyffredin oedd croesawu'r nodau ond yn mynegi amheuon am barodrwydd i gyflenwi arnynt, neu fynegi barn bod manylion annigonol wedi'i gyhoeddi yn y cynllun i wneud dyfarniad. I fynd i'r afael â hyn, rydym wedi ailddrafftio holl benodau 2016/17 yn y fersiwn terfynol hwn o'r cynllun ac yn aml iawn wedi ychwanegu rhagor o fanylion.

Sylwadau allweddol eraill:

Nod 1: Dywedodd ymatebwyr y byddai'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol angen llais eirioli cryfach a chliriach i arwain Strategaeth y DU.

Nod 2: Cwestiynodd ymatebwyr sut y gallem gyflawni'r cynnydd mewn cyfeintiau gyda'r ariannu a gynigir. Rydym wedi cynnwys mwy am y gefnogaeth ffôn ychwanegol yr ydym yn ei chynnig yn 2016/17.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylem fynegi bwriad i fynd i'r afael ag achosion cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol a pholisi'r anhawster ariannol. Ni chredwn fod ein cylch gwaith statudol yn ymestyn i'r math hwn o eiriolaeth gyhoeddus, ac yn wir fe wnaeth rhai ymatebwyr gwestiynu unrhyw eiriolaeth o gwbl mewn perthynas â gweddill y sector cyhoeddus. Er y byddem yn rhannu unrhyw dystiolaeth berthnasol, sydd eisoes yn bodoli gyda'r rheini sy'n gofyn amdano, ni chredwn mai'n rôl ni yw trafod yn gyhoeddus. Rydym yn gweld ein rôl fel helpu pobl i wneud y mwyaf o'r arian sydd ganddynt. Credwn mai'n rôl yw eirioli'n hyderus y problemau gallu ariannol y mae Strategaeth y DU yn eu hadnabod, a'r datrysiadau a'r negeseuon ar y cyd y mae partneriaid yn cytuno arnynt.

Nod 3: Yr her fwyaf cyffredin oedd bod hwn yn nod uchelgeisiol, eto i gyd ymddengys bod y gweithgareddau a ddisgrifir yn 2016/17 â diffyg uchelgais, ac nid yw'n awgrymu graddfa effaith sylweddol. Serch hynny, credwn fod y drafft ymgynghori yn tan chwarae'r cynghrair partneriaid sydd â diddordeb cyffredin wrth raddio'r datrysiadau yr ydym yn eu hadnabod, ac rydym wedi gwneud hyn yn glir yn y cynllun terfynol.

Nod 4: Rhybuddiodd ymatebwyr yn erbyn dyblygu ymdrech a gwasanaethau gyda Pension Wise a'r Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau. Rydym yn cytuno. Fe wnaethom yr achos dros newid yn ein hymateb i Ymgynghoriad Arweiniad Ariannol Cyhoeddus Cyllid a Thollau Ei Mawrhyd, ac mae *Adolygiad Arweiniad Ariannol Cyhoeddus: cynnig i'w ymgynghori* wedi amlinellu dyfodol ble y bydd dyblygu yn cael ei isafu.[16]

Nod 5: *[Sylwer: yn y Cynllun Busnes terfynol hwn, mae'r nod a oedd yn canolbwyntio ar weithio gyda gwasanaethau ariannol wedi'i ddileu.]* Teimlwyd bod y gweithgareddau a oedd yn cael eu cynnig yn aneglur, yn enwedig sut y mae rheoleiddio yn ffitio i'r darlun. Rydym bellach wedi dileu'r nod hwn.

Nod 6: *[Sylwer: yn y Cynllun Busnes terfynol hwn, mae'r nod hwn sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc wedi'i ail-rifo yn Nod 5.]* Roedd y nod hwn wedi'i gefnogi yn eang iawn; a dweud y gwir, roedd ymatebwyr eisiau i ystod y gweithgareddau fod yn ehangach. Roedd angen i ni gydbwyso'r farn hon yn erbyn sylwadau gan ymatebwyr eraill a oedd yn pryderu bod nifer a lledaeniad y gweithgareddau a adnabuwyd yn y Cynllun Busnes yn rhy uchelgeisiol yn barod.

16. Gweler http://comfy.moneyadviceservice.org.uk//system/comfy/cms/files/files/000/000/301/original/Money_Advice_Service_Public_Financial_Guidance_Review_Response.pdf

4. A ydych chi'n cytuno bod y dangosyddion perfformiad yr ydym wedi'u hadnabod yn cipio'n effeithiol effaith arfaethedig gwaith y Gwasanaeth?

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn croesawu'n gynnes math, ystod ac uchelgais y Dangosyddion Perfformiad Allweddol. Fe wnaeth lleiafrif fynegi anfodlonrwydd gyda'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n ddirprwyon ar gyfer canlyniadau, yn hytrach nag yn ganlyniadau eu hunain.

Yng ngoleuni sylwadau gan arbenigwyr cyngor ar ddyledion, fe wnaethom ddiwygio'r ffigwr yn Nangosydd Perfformiad Allweddol 2.6 o 21% i 20%. Fe wnaeth ymatebwyr danlinellu graddfa'r her yma; rydym yn cytuno, ond credwn ei bod hi'n bwysig gosod uchelgais sylweddol.

5. A oes unrhyw ffyrdd eraill y gallwn fesur ein heffeithiolrwydd?

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid mesur Nod 1 gan Ddangosydd Perfformiad Allweddol ar gyfer cynyddu gallu ariannol oedolion yn gyffredinol, o'i gymharu â Dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n mesur effeithlonrwydd ein cefnogaeth ar gyfer Strategaeth y DU. Yn ystod hynt 2016/17, bwriadwn gynnig i'r Bwrdd Gallu Ariannol fesurau cyfansawdd o allu ariannol gwell, a mesurau economaidd a fydd yn meintioli gwerth gallu ariannol gwell. Credwn y bydd hyn yn cynnig mewnbynnau defnyddiol i drafodaethau am y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer y corff arweiniad ariannol newydd y mae disgwyl iddo ddod i rym o fis Ebrill 2018.

Ein gwasanaeth yn y gwledydd datganoledig

6. A yw ein cynlluniau yn deall ac yn adlewyrchu anghenion gallu ariannol arbennig yng ngwledydd datganoledig y Deyrnas Unedig?

Fe wnaeth y rhan fwyaf o ymatebwyr ateb 'ydy' i'r cwestiwn hwn. Fe wnaethom dderbyn tystiolaeth fanwl am anghenion gallu ariannol cynyddol yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban. Ym mhennod 2 fe wnaethom gynnwys map yn egluro'r gwahanol lefelau o gorddyledusrwydd ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU.

Cwestiynau am y cynllun cyffredinol

7. A gredwch chi fod y Cynllun Busnes yn gosod y cyfeiriad cywir ar gyfer y Gwasanaeth ar gyfer y cyfnod 2016-2019 ac yn benodol 2016/17?

Yn gyffredinol, cytunodd ymatebwyr gyda'r cyfeiriad gan nodi newid sylweddol i waith blaenorol y Gwasanaeth Cynghori Ariannol. Dywedodd y Gymdeithas Fuddsoddi: *'Mae'ch dadansoddiad o'ch cwsmeriaid yn drylwyr ... Yn gyffredinol, rydym yn cefnogi'n llwyr yr ymdriniaeth bartneriaeth. Mae'n strategaeth yr ydym wedi gofyn amdani ers ffurfio'r MAS yn gyntaf. O'r diwedd mae pwyslais digonol yn cael ei roi a gall MAS fodloni ei botensial fel catalydd a hwylusydd ar gyfer gweddnewid gallu ariannol preswylwyr y DU. 'Llanw bylchau', yn hytrach na siop un stop a sylw cyffredinol; mae eirioli gweithgareddau nid-er-elw sy'n gweithio, ond y mae angen cefnogaeth i'w graddio; ac, annog arolesiad gan drydydd partïon oll yn syniadau yr ydym wedi bod yn aros amdanynt gan arweinydd, a ariennir yn ganolog ar gyfer strategaeth gallu ariannol y DU.'*

Dywedodd Virgin Money, *'[Mae] Strategaeth Gorfforaethol tair blynedd o hyd a Chynllun Busnes 2015/16 ... wedi'u hystyried yn ofalus iawn, yn uchelgeisiol iawn ac, ar y cyd, yn cynnig fframwaith gwych i ddwyn ynghyd a chyd-drefnu sefydliadau ar draws y sector ariannol.'*

Serch hynny, fe fynegodd rhai ymatebwyr bryder y gallai'r codiad ariannu ar gyfer cyngor ar ddyledion, a natur tymor hwy'r ymdriniaeth profi a dysgu tuag at arweiniad ariannol, arwain at ddirywiad mewn cefnogaeth (ac ariannu) ar gyfer gwaith ataliol sy'n adeiladu gallu ariannol cyn anhawster ariannol. Teimlwn fod *Adolygiad Arweiniad Ariannol Cyhoeddus: cynnig i'w ymgynghori*wedi amlinellu dyfodol ble y bydd gwaith ataliol yn derbyn rôl statudol glir ac â ffocws o fewn y corff arweiniad ariannol newydd.

8. A oes unrhyw beth ar goll o'r Cynllun Busnes? A oes unrhyw ddatrysiadau, partneriaid neu dechnegau penodol y byddech chi'n disgwyl i ni eu defnyddio, mewn perthynas â'r heriau gallu ariannol yr ydym yn anelu at fynd i'r afael â hwy?

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn teimlo ein bod wedi adnabod y datrysiadau a'r technegau priodol i fynd i'r afael â phroblemau a adnabuwyd yn y nodau. Ymhlith yr ymatebion ymgynghori roedd llawer o gynigion partneriaeth a oedd yn cael eu croesawu yn fawr.

9. Beth yw'r risgiau a'r materion allweddol y byddech chi'n disgwyl i ni fynd i'r afael â hwy wrth i ni gyflenwi'r cynllun?

Cytunodd y rhan fwyaf o ymatebwyr â'r rhaglenni gwaith ond fe wnaethant adnabod risgiau penodol. Rydym wedi dadansoddi'r sylwadau hyn ac wedi ychwanegu atodiad risgiau a materion cwbl newydd (tudalennau 66-67).

10. A yw'r cynllun yn glir ac yn hawdd ei ddarllen? Os nad ydyw, nodwch pa adrannau yr ydych chi'n meddwl y dylid eu gwneud yn gliriach.

Roedd ymron yr holl ymatebwyr yn canmol eglurder a dilyniant rhesymegol y cynllun, ac ychydig iawn o gyfleoedd ar gyfer gwella a adnabuwyd. Mae rhan fwyaf yr anawsterau wedi'u nodi yn yr adran uchod, gan ymdrin â phob nod. Gofynnwyd i ni ychwanegu adran crynodeb gweithredol, ac rydym wedi gwneud hynny.

Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Llinell Gymorth Ariannol **0800 138 0555***
Typetalk **1800 1 0300 500 5000**

Os hoffech y ddogfen hon mewn fformat Braille, print bras neu ar ffurf sain cysylltwch â ni ar y rhifau uchod.

*Galwadau am ddim. I'n helpu ni i gynnal a gwella ein gwasanaeth, gall galwadau cael eu recordio neu eu monitro.

Gwybodaeth yn gywir pan aeth i brint (Mai 2016)

Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol
Holborn Centre
120 Holborn
Llundain EC1N 2TD
© Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol
Mai 2016

moneyadviceservice.org.uk/cy